ECO'R WYDDFA

Rhif 230 NADOLIG 1996 / IONAWR 1997 Pris 30c

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr, hysbysebwyr, noddwyr a gweithwyr.

Cadeirydd Newydd Cyngor Gwynedd

Yn ystod cyfarfod o Gyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar brynhawn Iau, 5 Rhagfyr, etholwyd y Cynghorydd Pat Larsen yn Gadeirydd y Cyngor. Bydd y Cynghorydd Larsen yn olynu'r diweddar Gynghorydd Dafydd Orwig.

Magwyd Pat ym Mangor ond wedi priodi symudodd i Benisarwaun ac yno y mae'n byw ers dros 40 mlynedd. Dechreuodd ar ei gyrfa fel athrawes yn Llundain ac yna dychwelyd i ddysgu yn Llanberis yn ystod y pumdegau.

Wrth gymryd y Gadair dywedodd y Cynghorydd Larsen, *'Yr ydym ni fel Cyngor yn wynebu cyfnod anodd yn gyllidol'*; gan ychwanegu mai *'Un o brif broblemau'r ardal yw diweithdra, yn arbennig ymysg yr ifanc. 'Rydw i'n awyddus iawn i gydweithio â'r mudiadau a'r asiantaethau sy'n weithredol yn y maes yma i ostwng nifer y di-waith yng Ngwynedd.'*

Bu'r Cynghorydd Larsen yn weithgar ym myd llywodraeth leol ers blynyddoedd lawer ac yn cynrychioli ardal Penisarwaun ers 1967. Bu'n Faer Arfon yn 1987, ac yn aelod o gyn-Gyngor Sir Gwynedd ers 1976.

Bydd Pat yn parhau yn ei swydd hyd gyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai 1997. Bydd pawb o fro'r *Eco* yn ymhyfrydu yn ei llwyddiant ac yn falch o weld un ohonom ni yn cael ei hethol i swydd mor allweddol, a hynny i ddilyn y diweddar Gynghorydd Dafydd Orwig un arall o feibion y fro. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd.

Diwedd ar broblemau pibellau carthffosiaeth yn Llanrug

Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor Polisi ac Adnoddau Gwynedd i wario £15,000 ychwanegol i'r £70,000 a rannwyd eisoes gan y Cyngor i gywiro pibellau carthffosiaeth Stad Glanffynnon ac Afon Rhos, Llanrug, ymddengys yn bur debyg y bydd y saga hir hon yn dirwyn i ben.

Daeth sustem carthffosiaeth Llanrug i sylw cenedlaethol yn ddiweddar gydag eitem a ymddangosodd ar y rhaglen 'Hawlio' ar S4C. Asgwrn y gynnen oedd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Adran Tai cyngor newydd Gwynedd. Dywedwyd yn y llythyr y byddai'n rhaid i bob perchennog ar y stad gyfrannu tipyn mwy na'r £800 i £1,000 gwreiddiol a amcangyfrifwyd gan y cyn-gyngor, Cyngor Dosbarth Arfon, tuag at y gwaith o drwsio'r garthffosiaeth. Roedd Cymdeithas Glanffynnon ac Afon Rhos eisoes wedi sicrhau £40,000 tuag at gostau atgyweirio, drwy gytundeb methdaliad gyda'r adeiladydd a oedd yn gyfrifol am y sustem carthffosiaeth ddiffygiol.

Yn dilyn pwysau gan ddau o gynghorwyr lleol Llanrug fe gytunodd Cyngor Gwynedd ym mis Gorffennaf na fyddai'n rhaid i drigolion y stad gyfrannu mwy na ofynnwyd iddynt yn wreiddiol gan Gyngor Arfon. Ymrwymodd y Cyngor i gymeryd y baich am weddill y gost.

Gwelir penderfyniad diweddaraf y Cyngor i gyfrannu £15,000 ychwanegol i'r posiect (gan fod y sustem carthffosiaeth unwaith eto wedi profi'n ddrytach i'w hatgyweirio na'r hyn a amcangyfrifwyd) yn gadarnhad o'r ymrwymiad hwn.

Dywedodd y Cynghorydd lleol, Charles Jones: *'Yn sicr rwyf yn hapus iawn i groesawu penderfyniad Pwyllgor Polisi Cyngor Gwynedd i gyfrannu £15,000 yn ychwanegol i'r £70,000 y mae'r Cyngor eisoes wedi'i wario ar garthffosiaeth Stad Glanffynnon ac Afon Rhos.*

'Bydd hyn yn sicrhau na fydd yn rhaid i drigolion lleol gyfrannu mwy na'r hyn a ofynnwyd iddynt tuag at gost y cynllun gan Gyngor Arfon yn y lle cyntaf. Yn bwysicach, bydd yr arian hwn yn gymorth i fwrw'r maen i'r wal gyda'r cynllun hirfaith hwn ac yn sicrhau mai problem y gorffennol fydd carthffosiaeth Glanffynnon ac Afon Rhos.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Charles Jones: *'Rhaid cofio fod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cyfrannu'r arian ychwanegol hwn yn ystod cyfnod o gynni ariannol difrifol llywodraeth leol. Mae'r ffaith i'r Cyngor benderfynu gwneud hyn yn dyst i waith caled trigolion Stad Glanffynnon ac Afon Rhos.'*

Ysgoloriaeth Bedwyr

Llongyfarchiadau i Esyllt Môn Jones o Fethel a ddaeth yn enillydd cyntaf Ysgoloriaeth Bedwyr. Sefydlwyd yr Ysgoloriaeth er cof am y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones i gynorthwyo myfyrwyr i wneud gwaith ymchwil am raddau uwch.

Mae Esyllt yn un o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail ac fe enillodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Llenyddiaeth Gymraeg a Llên y Cyfryngau yr haf diwethaf. Ar hyn o bryd mae'n astudio y theatr boblogaidd Gymraeg ar gyfer gradd M.A.

Cyflwynwyd yr ysgoloriaeth, sy'n werth £1,000, i Esyllt gan Eleri Wyn Jones, gweddw'r athro.

YN Y RHIFYN HWN . . .

Ras Hwyl Llyn Padarn :: Nadolig Sali Mangl

Chwilota :: Wyt Ti'n Cofio

O Siambar Selwyn :: Presant Dolig

Côr Ysgol Brynrefail 1956

Atodiad Eisteddfodau'r Fro

. . . a bu'r 'Draenog' yn brysur!

ECO'R WYDDFA

Rhif 230
IONAWR 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 30
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 20
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 30	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	CHWEFROR 27	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 27	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	MAI 1	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 26	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 4	DINORWIG	—	—
HYDREF	HYDREF 2	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 30	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

MAE CAMERÂU YR *ECO* AR GAEL GAN Y CANLYNOL:
BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)
DEINIOLEN:
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

CYMRU'N GALW . . .

Annwyl Olygydd,

Cyfeiriaf at y llythyr a ymddangosodd yn eich rhifyn Rhagfyr gan Grace E. Roberts dan y pennawd 'Awstralia'n Galw'. Perodd cynnwys y llythyr hwn gryn benbleth i sawl darllenydd mae'n amlwg a sylw pob un a gysylltodd â mi oedd mai anelwig a dibwrpas hollol ydoedd.

Y frawddeg a fu'n ffynhonnell i'r cymhlethdod oedd, *'mae'n rhaid i mi bwyntio allan i'r Cymry mai nid "unigolion" a ddaeth a'r Hogiau i Awstralia ond "Y Gymdeithas Gymreig Sydney Cyf".'* I mi — casgliad o unigolion sy'n creu cymdeithas. Nodais yn fy erthyglau mai Grace Roberts oedd yn bennaf gyfrifol dros berswadio aelodau'r Gymdeithas Gymreig i ymgymryd â'r fenter o gael Hogia'r Wyddfa drosodd yn Sydney. Mae hyn yn ffaith gan iddi hi ei hun ddatgan hyn wrthym droeon. Mae'r croesddweud yma yn ddirgelwch llwyr i mi.

Cyfeiria Grace Roberts at yr artistiaid fu'n diddanu yno gan hepgor enwau Annette Bryn Parri, Gwyn Parri a'r plant, Heledd, Bedwyr ac Ynyr. Roedd hyn yn ddirgelwch ychwanegol i mi. Heb gymorth amhrisiadwy teulu Cynefin byddai'r diddanu wedi bod yn anodd iawn dan yr amgylchiadau a fodolai ar y pryd. Y gwir plaen yw na fyddai Hogia'r Wyddfa wedi bod ar gael i deithio i unman onibai i Annette gytuno i gyfeilio i'r grŵp ymhell cyn bod sôn am daith i Awstralia.'

Yn gywir,
ARWEL JONES
Cae Eboni, Penisarwaun, Caernarfon

O.N.: Profodd rhaglen radio Dafydd Meredydd ar 'Yr Hogia yn Awstralia' mor boblogaidd fel bod y BBC wedi penderfynu ei hail ddarlledu ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn newydd.

Cofiwch am GISDA y Nadolig hwn

Annwyl Olygydd,

Gyda'r Nadolig yn prysur agosáu, hoffwn fanteisio ar eich colofn i atgoffa eich darllenwyr o'r hyn sy'n mynd ymlaen yma yn GISDA (**G**rŵp **I**euenctid **S**engl **D**i-gartref **A**rfon).

Mae'r di-gartref, am ryw reswm, yn rheolaidd ddenu sylw'r cyfryngau dros gyfnod y Nadolig, fodd bynnag yma yn GISDA ceisiwn gofio amdanynt bob diwrnod o'r flwyddyn. Mae'r broblem sydd yn anffodus ar gynnydd, ac a adlewyrchir yn y ffaith ein bod yn awr yn rhedeg tair hostel — Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon — yn ogystal ä 44 o dai yn y gymuned, lle cynigir cefnogaeth ac arweiniad i bobl ifainc rhwng 16 a 25 oed, a hefyd i famau sengl di-gartref. Yn y flwyddyn ddiwethaf deliwyd â 157 o ymholiadau a chartrefwyd 136 o bobl ifainc.

Waeth beth yw statws person, mae'r Nadolig ar eu cyfer, felly ar ran clientau GISDA hoffwn apelio am eich cymorth i wneud yr Ŵyl yn un fwy cysurus iddynt. Gellir gwneud hyn trwy gyfrannu nwyddau, hamperau, a.y.y.b, fel y gall y gweithwyr eu dosbarthu i'r rhai mewn angen. Mae'r gymdeithas a'r busnesau lleol yn y gorffennol wedi bod yn gefnogol a hael, ac rydym yn hynod o ddiolchgar am hyn. Hoffwn, ymlaen llaw, ddiolch am eich cefnogaeth a'ch diddordeb yn y di-gartref.

Gellir cysylltu â mi ar **(01286) 671153** os am drafod hyn ymhellach, neu os am drefnu casglu'r nwyddau, ac ati.

Diolch yn fawr,
MARI THOMAS
GISDA
Hafan, Lôn Parc, Caernarfon

DIOLCH

Diolch: Dymuna Cissie, Tŷ'r Ysgol, Aberdaron, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth lem o golli ei hunig fab, Dylan.

Am dro i'r Wladfa

Annwyl Olygydd,

Mae'n fwriad gennyf fynd a grŵp bychan i'r Wladfa fis Mawrth / Ebrill nesaf am gyfnod o ryw dair wythnos. Bydd y gost yn dibynnu i raddau ar faint y grŵp ond dylai fod yn llai na £2,000. Am ragor o fanylion ffoniwch (01248) 712576.

Yn gywir,
CATHRIN WILLIAMS
Glandŵr, Ffordd Cynan,
Porthaethwy, Ynys Môn LL59 5EY

SNOWDON KITCHENS

57 STRYD FAWR
LLANBERIS
(01286) 870555/870443
CEGINAU, TEILS SERAMIG ANRHEGION



'Dyw cegin SNOWDON KITCHEN yn costio DIM MWY na cheginau'r siopau mawr DIY, ond cymharwch ansawdd ein ceginau ni. Rydym yn cynnig:

- Ceginau cadarn da mewn derw, castanwydden (chestnut) a phîn
- Dewis eang o lamineiddiau modern
- Corff mewn dewis o 8 lliw cydnaws
- Droriau a cholynnau cadarn
- Dewis da o wahanol feintiau
- Maint arbennig ar gael os oes angen
- Crefftwyr lleol yn ymfalchïo yn eu gwaith
- Prisiau rhesymol ar gyfer gosod a dodrefnu
- Llythyrau canmol a chwsmeriaid bodlon
- Gwerthu gonest, prisiau gonest

HEFYD:GWASANAETH NEWID DRYSAU A 'WORKTOPS'
AR AGOR SAITH DIWRNOD YR WYTHNOS
FFONIWCH PETER ROOKE AM BRISIAU A GWASANAETH CYNLLUNIO DI-DÂL

CANNOEDD O FOCSUS



Cafwyd ymateb ardderchog yn lleol i apêl Bocs Esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Casglwyd dros 450 o focsus yn llawn o anrhegion Nadolig i blant anghenus. Bydd yr anrhegion yn cael eu hanfon i blant mewn llefydd fel Albania, Romania, Bosnia a Croatia gan Ymgyrch Plentyn y Nadolig, sydd bellach yn rhan o'r elusen Pwrs y Samariad. Bydd yr anrhegion yn dod â rhywfaint o gysur a phleser i blant erbyn y Nadolig.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu haelioni eleni eto. Cefnogwyd yr Apêl gan nifer o ysgolion, eglwysi ac unigolion y fro. Diolch yn arbennig i Elwyn Searell Jones, nant Peris, am ei gymorth i gludo'r bocsus i bencadlys yr elusen yn Wrecsam.

ENGLYNION EBEN FARDD

Annwyl Olygydd,

Efallai y bydd y ddau englyn isod yn ddiddorol i'ch darllenwyr. Cefais hydd iddyn nhw mewn hen lyfr o waith Eben Fardd (a fu farw Chwefror 1863 yn 61 mlwydd oed):

I'R PLAS TIRION, LLANBERIS
preswylfod Mr Thos. Phillips, lle y llettyai'r bardd, Gorphenaf 1, 1854.

Y Plas Tirion,—p'le ystyrir—deccach?
Daccw'r holl fynydd-dir
Yn llawenhâu, a'r llyn hir,
Yn nhiriondeb ei randir.

Gwelir, trwy'i restr ffenestri,—ger ein bron,
Gernau braisg Eryri,
Y dyffryn, y llyn, a'r llwyni
Hyd y fro hon, difyr yw hi.

ENGLYN AR YMADAWIAD
Mr HUGH OWEN, HAFOD UCHAF, LLANBERIS, I AUSTRALIA

Awst yr hwyliodd i Australia,—a'i fwriad
Ar fôr mawr yr India;
O olud caed ei wala:
Nodda y dyn o Dduw da.

Yn gywir iawn,
JOHN EVANS-HUGHES
88 Barry Drive, Kirby Muxloe,
Caerlŷr (Leicester) LE3 3HT
(gynt o Lanberis)

CYLCH LLYN PADARN

Dowch i godi chwant bwyd at y 'dolig! Fore Sul, Rhagfyr 22ain bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal eu Ras Hwyl o amgylch Llyn Padarn — taith o bum milltir yn cychwyn o Westy Victoria am un ar ddeg o'r gloch y bore. Mae croeso i gerddwyr a rhedwyr 'gystadlu' — gyda pris o £2.50 i oedolion a £1.50 i blant. Bydd cawl a mins peis i bawb yn gynwysedig yn y pris. Mae llu o wobrau eraill i'w hennill hefyd, gan gynnwys twrci am ddyfalu amser Siôn Corn, a fydd yn ymuno â ni yn yr hwyl ar y diwrnod.

Dyma siawns gwych i bawb o'r fro benderfynu ar lefel eu ffitrwydd — a chael y cyfle i wneud rhywbeth ynglŷn â'r diffyg ymarfer 'na — ar ôl i'r 'dolig fynd heibio wrth gwrs!

Mae rasus eraill yn cael eu cynnal yn ystod y gwyliau hefyd, rhag ofn fod rhai ohonoch yn fwy mentrus na'i gilydd. Ddydd Sadwrn, 21 Rhagfyr, bydd Ras Llyn Elsi o Fetws-y-coed am hanner dydd. Ddydd Gŵyl San Steffan bydd Ras Moel y Gest yn cychwyn o Borthmadog (ffoniwch 831085 am fwy o wybodaeth), ac i goroni'r cwbl (a rhoi cychwyn o'r newydd i 1997) bydd Ras Llyn Llydaw yn cychwyn o Westy Gorffwysfa ar ben Bwlch Llanberis ar fore Dydd Calan.

Mwynhewch eich rhedeg!

Cylchoedd Ti a Fi Gwynedd

Mae rhwydwaith o Gylchoedd Ti a Fi drwy Wynedd ar gyfer y plant lleiaf o ychydig fisoedd oed hyd at ddwy a hanner oed, pan fyddant yn mynychu'r Cylchoedd Meithrin.

Mae Cylch Ti a Fi yn rhoi cyfle i blant ddysgu cyd-chwarae tra bod eu rhieni neu ofalwr yn cael cyfle i gymdeithasu. Cyflwynir hwiangerddi a storïau syml a cheir cyfle i rieni di-Gymraeg flasu'r iaith ac i ddysgu rhai ymadroddion i'w defnyddio yn y cartref gyda'r plant.

Mae'r Cylchoedd Ti a Fi yn gallu helpu rhieni newydd i wneud ffrindiau tra bod eu plant hefyd yn gwneud ffrindiau cyn mynychu'r Cylchoedd Meithrin lleol.

APÊL TŶ ENFYS

Bydd Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi Gwynedd yn cynnal stondin am dridiau yn **Ysbyty Gwynedd** ym Mangor ar yr **20fed, 21ain a 22ain Ionawr 1997 o 10 o'r gloch y bore tan 8 o'r gloch yr hwyr.** Bydd arddangosfa o waith rhai o'r cylchoedd a nwyddau'r Mudiau, llyfrau Cymraeg, a.y.y.b., ar werth a'r holl elw yn mynd tuag at Apêl Tŷ Enfys, sef apêl leol at lety dros dro i rieni sydd a'u plant yn yr ysbyty am gyfnod.

Mae angen gwirfoddolwyr i helpu ar y stondin! Dewch i gefnogi'r apêl leol hon.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055
Cyfarchion y Tymor i bawb

MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO YN ABBEY ROAD
BANGOR (01248) 354646

DAFYDD OWEN
TRYDANWR
Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
APPROVED CONTRACTOR
11 Rhes Faenol LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Pleser a braint oedd croesawu Miss Eurgain Haf Evans, B.A., M.Phil, i'r ysgol yn ddiweddar. Daeth Eurgain i siarad â phlant Bl. 2 a 3 gan ddarllen darn o'i gwaith, sef *Berwyn Bwbach*, iddynt. Hefyd fe ddaeth Eurgain a'i choron i'w dangos i'r plant. Cafodd pob un ohonom bleser a mwynhad o'r ymweliad ac edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu Eurgain yma eto yn y dyfodol. Llawer o ddiolch i chwi Eurgain, ac am eich caredigrwydd o rodd tuag at gronfa'r ysgol.

Fel rhan o'u gwaith am y Nadolig fe aeth Bl. 6 i gastell Caernarfon yn ddiweddar i 'Godi Calon Mr Prynne'. Gweithdy ymarferol a drefnwyd gan y coleg oedd hwn i gyfleu ychydig o naws Nadoligaidd cyfnod y Stiwardiaid i'r plant. Yn ystod y bore cafodd y plant gyfle i brofi dawnsio gwerin o'r cyfnod hwnnw; creu mygydau a chelfafalau; ymarfer ysgrifen caligraffi; a chymryd rhan mwn helfa drysor. Ar ddiwedd y bore cawsant gyfarfod Mr Prynne ei hun a chlywed eu bod wedi llwyddo i godi ei galon. Hoffwn ddiolch i Mr Bob Morris a myfyrwyr y coleg am drefnu'r gweithgareddau.

Mae'r Cyfeillion wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar hefyd. Yn ogystal â threfnu Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn y Neuadd Gymuned yn ddiweddar, mae'r Cyfeillion wedi prynu dau gyfrifiadur arall i'r ysgol. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r Cyfeillion am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd. Trefnodd y Cyfeillion fod consuriwr yn dod i ddiddanu plant yr ysgol eleni — er mwyn rhoi ychydig o hamdden i Siôn Corn a fu'n dod i edrych amdanom bob blwyddyn ers i ni symud i'r ysgol newydd. Cafwyd bore pleserus iawn yn ei gwmni a digon o hwyl. Diolch yn fawr unwaith eto i'r Cyfeillion am wneud y trefniadau.

Manteisiwn ar y cyfle hwn hefyd i annog mwy ohonoch i fynychu cyfarfodydd a drefnir i baratoi gweithgareddau er budd yr ysgol. Gwerthfawrogir pob cymorth a chefnogaeth.

Eurgain Haf yn sgwrsio efo plant blynyddoedd 2 a 3 yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

Noson o garolau a mins peis a drefnwyd eleni i ddathlu'r Nadolig. Trefnwyd y noson ar y cyd gyda'r Urdd â Mr John Eifion Jones yn arwain y noson. Cafwyd naws arbennig iawn yn y Neuadd Gymunedol gyda chyfraniadau gan bob dosbarth i ychwanegu at y carolau cynulleidfaol. Diolch i bawb am eu cymorth i wneud y noson yn un mor lwyddiannus.

Ysgol Sul Bosra: Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant, bnawn Sul, 22 Rhagfyr, am 2 o'r gloch. Testun y gwasanaeth fydd 'Y Dyn Blin!' — ond gall ysbryd y Nadolig feddalu ei galon yntau. Gwneir casgliad at achosion da. Croeso cynnes i bawb. Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau 12 Ionawr.

Parti Nadolig yr Ysgolion Sul: Paratoir parti Nadolig i aelodau Ysgolion Sul Eglwys y Santes Helen a Chapel Bosra yn Neuadd yr Eglwys, bnawn Llun, 23 Rhagfyr, o 3 hyd 4.30 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yn siŵr o alw i weld y plant. Diolchir i bawb am eu cyfraniadau.

Diolchiadau: Dymuna Bedwyr a Bethan ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad.

Dymuna Gwenda a Carolyn ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y swm sylweddol a gasglwyd i Ceiron Williams, Bryntirion, wedi'r tân yn ei gartref yn ddiweddar. Dymuna Ceiron ddatgan ei ddiolch-garwch i chwi oll am y weithred garedig hon.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Tachwedd a'r enillwyr oedd — 1, Eleanor Jones, Brynrefail; 2, Dylan, Jones, Meillionydd; 3, Kay Snowden, Pentir. Enillwyr mis Rhagfyr oedd: 1, Mathew Phillips, Waen; 2, Aled Green, Rhos Wian; 3, Mary Davies, 9 Llys y Gwynt.

Bydd criw o garolwyr yn dod o amgylch i ganu carolau nos Lun, 23 Rhagfyr. Gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau yn ystod 1996. Diolchir hefyd i aelodau'r Clwb Cant sy'n sicrhau swm da yn fisol tuag at gostau cynnal y Neuadd. Dymuna aelodau'r pwyllgor Ŵyl ddedwydd i chwi oll, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth yn ystod 1997.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, a theulu Tai Croesion ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb ym marwolaeth Mrs Gwen Hughes, Tŷ'r Ysgol, Rhiwlas.

Cydymdeimlir hefyd ag Ann Ifans a'r teulu o golli cyfnither annwyl ac agos, sef Lydia Jones, Rhiwlas.

Eglwys y Santes Helen: Noswyl Nadolig (24 Rhagfyr) gweinyddir y Cymun Bendigaid am **11.30 p.m.** Estynnir croeso cynnes i bawb i groesawu dydd Nadolig.

Pnawn Sul, 29 Rhagfyr, cynhelir gwasanaeth Naw Llith a Charol am 4 p.m. Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan.

O Sul cyntaf 1997 ymlaen cynhelir Boreol Weddi ar y Sul cyntaf o bob mis; ac fe weinyddir y Cymun Bendigaid ar y pedwerydd Sul. Dymuna'r Parchg Tegid Roberts a'r Wardeiniaid, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.

Urdd Bentref: 26 Tachwedd: mwynhaodd pawb noson ddifyr iawn o chwaraeon yng ngofal Mark Porter. Diolchodd Cenin iddo a gobeithir cael ei gwmni eto yn fuan. 3 Rhagfyr: bu pawb yn hynod brysur yn gwneud addurniadau Nadolig hefo Miss Jên Jones. Ynyr a dalodd y diolchiadau. 10 Rhagfyr: trefnwyd cwis ar gyfer y plant gan Huw a Sioned. Diolchwn iddynt hefyd am ymuno â ni yn wythnosol i roi cymorth. Rydym yn hynod falch o'ch cwmni. 12 Rhagfyr: cafwyd noson ddifyr o ganu carolau a mins peis, ar y cyd â'r Ysgol. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson. Rhennir yr elw tuag at achosion da yr ardal. Rhagfyr 17: darparwyd disgo a pharti i gloi gweithgareddau'r tymor cyntaf. Byddwn yn ailgychwyn y cyfarfodydd nos Fawrth, 7 Ionawr. Derbynnir tâl aelodau o £3.20 hyd at 31 Ionawr — dim hwyrach na hynny, os gwelwch yn dda.

Croeso: Croesewir yn gynnes iawn Mrs Hanks i 8 Llys y Gwynt. Y mae'n fam i Jean ac yn nain i Haydn, Bryntirion.

Cinio Nadolig y Pensiynwyr: Diolchir i bawb a gefnogodd y Noson Goffi er budd cinio Nadolig pensiynwyr y pentref. Cynhaliwyd y cinio bnawn Sadwrn, 16 Rhagfyr, yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ac yng nghwmni'r rhai sy'n byw yno. Diolch i Gill a Nevs am yr adloniant ac i Siôn Corn am alw gyda anrheg i bawb. Diolchir i Mrs Janet Ash, Commercial House am gychwyn y syniad o gynnal y cinio ac i bawb ddaeth at ei gilydd i helpu.

Pob Dymuniad Da: Dymunir pob bendith a'n dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Pat Larsen fel Cadeirydd Cyngor Gwynedd wedi'r golled fawr ym marwolaeth y Cynghorydd Dafydd Orwig.

Dymunir Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

Ffôn: 870605

RITHOEDD CELYN

COED NADOLIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI A DRYSAU uPVC

Cynnig 1: 3 FFENEST WEDI EU FFITIO AM **£600**

Cynnig 2: 5 FFENEST WEDI EU FFITIO AM **£895**

Cynnig 3: 7 FFENEST WEDI EU FFITIO AM **£1,295**

PROFILE22

(01286) 871774

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr *Eco*

NADOLIG SALI MANGL
gan Y GWALCH

Roedd rhai yn dweud nad oedd yr hen ddoctor 'wedi pasio', chwadal nhwtha, ond doedd stori felly ar droad y ganrif ddiwetha ddim yn lleihau ffydd unrhyw un ynddo. Roedd hyd yn oed gweld ei gorff mawr llydan a'i wyneb rhuddgoch yn ffrâm drws unrhyw glaf, yn codi'r ysbrydoedd.

Ond hyd yn oed os yr oedd o yn brin o dystysgrifau, doedd o ddim yn fyr o brofiad. Ar wahân i weini ar gleifion yr ardal a chlwyfedigion y chwaral, roedd o wedi bod yn feddyg yn Rhyfal y Transvaal ac yn gynefin ag erchyllderau. Yn y fan honno y daeth ar draws ei was; Jenkins gloff, ar ôl i olwyn gwn mawr fynd dros ei droed. Achubwyd yr aelod honno rhag cael ei thorri i ffwrdd drwy sylw diball y doctor, a dangosodd y dioddefydd ei werthfawrogiad drwy dyngu ffyddlondeb parhaol i'w achubydd. Wedi'r rhyfal daeth i Gymru i'w ganlyn, a sefydlwyd o fel rhyw fath o 'major domo' gwladaidd, erch ei Gymraeg chwithig, gan y doctor yn y Plas. Roedd ganddo ddwy ystafell uwchben y stablau, a byddai ar gael ddydd a nos i wneud unrhyw orchwyl.

Ymgeleddu'r gwŷr meirch roedd yr hen ddoctor yn y Transvaal. Cafwyd hanes amdano yng nghanol y drin yn rhyddhad Mafeking, er nid gan y dyn ei hun, ond nid Jenkins oedd yr unig un a ddaeth adra i'w ganlyn. Daeth Popi hefyd, ei ferlen goch, a oedd wedi ei gludo mor ddianaf drwy'r brwydro. Newidiwyd ei chyfrwy am harnis fodd bynnag, a byddai yn cludo'r doctor yn y 'governess car' i'w holl alwadau. Gan ei fod wedi ei hyfforddi i drin ceffylau, Jenkins fyddai yn gofalu amdani, ac ar brydiau yn gyrru hefyd a'i droed ddrwg yn gorffwys ar ymyl y 'dash'.

Roedd cartref y doctor braidd ar wahân i'r pentra, ar ochr ffordd ddi-dramwy, ond yr oedd yn llogi ystafell yn y pentra i dderbyn ei gleifion. Roedd honno yn yr un adeilad â siop y crydd, a byddai'r bobl ddisgwylgar o iachád yn eistedd yn rhes ar fainc hir mewn mynedfa gyfyng yn anadlu archwa lledr amrwd a chŵyr. Ac yn rhyw gwpwrdd o ystafell ar y chwith roedd Huws dispensar wedi ei gau ymysg ei ffiolau, a'i fflam fach a'i bastymau tegan, yn dehongli llawysgrif y doctor hefo lamp baraffin, ac yn anfon y ffyddiog rai adra hefo potelaid o ddŵr lliw a phowdwr. Roedd yr hen ddoctor ei hun wedi didoli'r winjiwrs cyn iddynt gyrraedd Huws.

Hen lanc oedd y doctor, ond yr oedd ganddo howsgipar, Miss Prydderch o Sir y Fflint. Un at ei oed o oedd hi, ac wedi rheoli'r tŷ ers blynyddoedd. Yr unig ffordd i gael ei chyflogwr i newid ei farn ar rhyw bwnc oedd trwy ei heiriolaeth hi. Byddai Wini Jones o'r pentra yn dod yno ar ddiwrnod golchi i danio o dan y boilar a rhedag clwt dros bethau.

Ond oes anodd iawn i feddyginiaethau ynddi oedd honno; llom a thlawd. Doedd yna neb ond y person a'r sgŵl mewn sefyllfa i yrru am ddoctor nes yr oeddent bron trengu, a hyd yn oed wedyn, doedd ganddynt ddim modd i dalu. Roedd gofyn anfon bil ar ôl bil, a bron fynd i ymbil weithiau.

Datblygodd y doctor ffordd o ddod dros yr anhawster hwnnw fodd bynnag. Dechreuodd dderbyn eiddo, llestri, modrwyau a canwyll-brennau pres, ac hyd yn oed fân ddodrefn. Er hynny, roedd yn dal i roi llawer o'i amser am ddim, a doedd neb wrth gwrs yn meddwl gofyn sut yr oedd o yn trafod ei amgylchiadau ei hun o dan y fath reolau.

Roedd ganddo drefniant cyfeillgar di-ofyn-cwestiynau â siopwr hen bethau yn y dref, i gyfnewid yr eiddo yma am arian. Yr oedd yn nodweddiadol o'i degwch fodd bynnag, y byddai yn dal gafael am gyfnod hir, rhag ofn i rai o'r cyn-berchnogion dod i sefyllfa i adfer eu meddiannau. Ond prin iawn oedd yr achlysuron hynny. Roedd o, fuasai rhywun bron yn dweud, yn cadw rhyw fath o siop y pôn yn ddifwriad, ac wedi ymneilltuo ystafell yn ei gartref ar gyfer y bwriad hwnnw, ond fyddai neb ond Miss Prydderch yn cael mynd yn agos iddi.

Yn y rhes yn y pentra, trigai gweddw a elwid yn lleol yn Sali Mangl. Yn yr ardal honno doedd raid i berson ddim ond lladd pry cig i gael ei lasenwi. Roedd ganddi ddwy ferch fach, Harriet a Mari, ac yr oedd rhyw biff anrynt o hyd. Nid oedd y doctor a alwai heibio yn gyson, yn gweld fawr o ddyfodol iddynt tra roeddent yn troedio'r llawr llechi moel hwnnw yn droednoeth, ac yn byw ar de gwan a bara a dripin, gan fod y tad yn cael y gyfran orau o'r bwyd i'w gynnal wrth ei orchwyl galad yn y chwaral.

Roedd y doctor yn ddigon cyfeillgar â'r dyn, er ei fod yn gwybod y byddai'n anodd cael tâl ganddo. Ond daethant i delerau am y ddyled. Caniatawyd i'r doctor gymryd un o'r ddwy ganhwyllbren bres a safai ar silff y simne, ac yr oedd yn fodlon ar y fargen ar y pryd.

Yn fuan wedyn bu damwain yn y twll ac fe laddwyd y tad, ond arbedodd offrwm y chwarelwyr iddo gael bedd tlotyn, ac yn unol â defod y gymdeithas, prynasant fangl i'r weddw iddi gael 'cymryd golchi i mewn' fel cynhaliaeth. Derbyniodd hithau'r fendith fel rhodd rhag-luniaeth, ond wnaeth y gwaith ychwanegol ddim cymaint o les i'w hiechyd ag a wnaeth i'w phwrs. Yn ddiarwybod iddi fodd bynnag, roedd y doctor yn dal ei afael yn y ganhwyllbren.

Ar gwr y Nadolig roedd y doctor yn mynd heibio i'r tŷ hefo Popi, pan sylwodd ar Mari yn dod o'r mynydd yn droednoeth a phriciau yn ei breichiau, a gwaeddodd arni.

'Sut wyt ti, Mari?'

'Iawn, diolch.'

'Sut mae dy fam?'

'Mae hi yn ei gwely.'

'Est ti ddim i'r ysgol?'

'Na."

'Pam?' Er fod ganddo amgyffred.

'Mae Harriet wedi benthyg fy sgidia. Ei thro hi oedd hi. Mi rydw i isio mynd. Ella bydd mam wedi codi i danio i olchi.'

Doedd fawr o ddiben ymestyn y sgwrs. Roedd y darlun trist yn blaen.

'Dywad wrthi y dof i yna munud,' meddai'r doctor gan roi clec ar yr awennau. Ac fe aeth yn ddiweddarach. Yr oedd lles y ddwy ferch fach ar ei feddwl yn fwy na dim. Roedd yn ofni iddynt gael yr un haint a'u mam — y ddarfodedigaeth.

Arhosodd o ddim yn hir yno fodd bynnag; roedd ganddo gymaint i'w wneud cyn y nos, a hithau mor agos i'r Nadolig. Ni chafodd Popi fawr o seibiant y diwrnod hwnnw. Gyrrodd y doctor ar frys i'r dre hefo canhwylbren Sali, a bu'n bargeinio yn galetach nac arfer hefo derbynnydd y siop. Wedyn aeth o gylch y siopau a phrynodd ddol a set o lestri bychain. Cafodd flwch o faint a llanwodd hwnnw â nwyddau a danteithion. Pan gyrhaeddodd yn ei ôl roedd Jenkins yn ei ddisgwyl ar yr iard, ac yn methu deall pam nad oedd ei feistr wedi bod ei angen ar ei daith, ond chymerodd o arno ddim.

Drannoeth cafodd y doctor ei fyrddio gan Miss Prydderch. Roedd hi wedi sylwi fod canhwyllbren Mrs Owen, chwedl hithau gan ei bod hi'n mynnu i bawb gael ei enw iawn, wedi diflannu.

'Wnes i ddim dychmygu y basa chi'n cael 'madael â honna,' meddai hi.

'Pam hynny?' meddai yntau.

'Wel, beth glywais i gan Wini Jones mai anrheg priodas gan rieni Mrs Owen oedd y canhwyllbren. Roedd ganddi hi dipyn o afael ynddyn nhw.'

Ddywedodd y doctor ddim am hynny. Mwmiodd rhywbeth fod ganddo alwad wedyn cyn nos, ac aeth i mofyn canhwyllau i lampau ei gerbyd.

Nos cyn y Nadolig cafodd y doctor gyfle i fynd i'r siop yn y dref eilwaith, ond siom oedd yn ei aros. Roedd y ganhwyllbren wedi ei gwerthu yn barod. Doedd ganddo ddim dewis ond troi trwyn ei ferlen am adra, gyda'r mymryn cysur fod ganddo'r anrhegion beth bynnag ar gyfer teulu Sali Owen.

Yn hwyrach, wedi iddi nosi, aeth i 'mofyn y blwch a'r anrhegion, a rhag tarfu dim ar Jenkins a'i annog i holi, sleifiodd yn llechwraidd drwy ddrws y cefn a'r llwyni, a cherddodd i gyfeiriad y pentra. Welodd o fawr o neb ar ei daith, a phan ddaeth at ddrws Sali, cododd y glicied ac aeth i mewn i'r gegin fyw yn ôl ei arfer.

Ar ôl gyrfa mor gyffrous a chynefindra â'r annisgwyl, doedd hi ddim yn hawdd i'r doctor gael ei syfrdanu, ond cafodd ei hoelio i'r llawr y noson honno.

Roedd Sali yn eistedd wrth y pentan a siôl dros ei hysgwyddau, ac wrthi'n troi rhyw gymysgedd mewn sosban. Ar ben cadair yn gosod sprigyn o gelyn wrth ddistyn, ac yn rhyfygu cael codwm a niweidio 'chwaneg arno ef ei hun, roedd Jenkins.

'Merry Christmas Doctor,' meddai heb droi ei ben.

'Ia, Dolig llawan,' ategodd Sali. 'Ydach chi am aros i brofi'r cyflath. Mae'r genod wedi mynd i fyny ers meityn?'

Adferodd y doctor ei leferydd yn y diwedd. 'Dim heno diolch, Sali,' meddai, 'Mae gen i alwad,' gan syrthio yn ôl ar yr hen ddihangfa.

Yna sylwodd yn sydyn fod yno olau mwy llachar nag arfer. Roedd amlinell y mangl a geisiai Sali gadw fel rheol dan gudd, yn amlwg yn y gornel. Wedi codi ei olwg gwelodd fod yna ddwy ganhwyllbren ar silff y simdde a'r ddwy gannwyll ynghyn. Megis mewn breuddwyd rhoddodd y blwch anrhegion ar y bwrdd.

'Dipyn bach o rywbeth i chi dros yr Ŵyl, Sali,' meddai o'r diwedd, a chiliodd tua'r drws.

'Dolig llawen i chitha — eich dau.'

Roedd yn dda gan y doctor gyrraedd y Plas i gael ei gwpanaid o cocoa arferol a rhoddodd joch o rum reit dda yn ei lygad, ac nid ias y barrug yn unig oedd wedi gwneud hwnnw mor dderbyniol dros ben.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
ERIC JONES
PENISARWAUN

PEINTIWR AC ADDURNWR
Joban Dda am Bris Rhesymol
Ffôn: 872421

Aled Jones
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Oedfaon Nadolig: Bydd dwy oedfa arbennig ar gyfer y Nadolig yng Nghapel Coch. Brynhawn Sul, Rhagfyr 22, bydd plant yr Ysgol Sul yn cynnal eu gwasanaeth Nadolig, am 2 o'r gloch. Mae'r plant a'u hathrawon yn estyn croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth. (Bydd yr oedfaon arferon am 10 o'r gloch a 5.30 o'r gloch y Sul hwnnw). Am 10 o'r gloch **fore dydd Nadolig** cynhelir oedfa arbennig yn y festri. Mae croeso cynnes i aelodau capeli eraill y pentref i ymuno â ni i ddathlu'r Ŵyl.

Plas Pen Gwaith: Ar ran trigolion cartref Plas Pen Gwaith carwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a'r ymweliadau. Diolch hefyd i'r rhai a fu'n ein diddori yn ystod y flwyddyn ac sy'n dod i'n diddori yn ystod y Nadolig. Diolch ichwi am wneud ein Ffair Nadolig mor lwyddiannus. Mae'r arian yn mynd i'r Gronfa Mwynderau ac yn cael ei defnyddio i drefnu tripiau. Dyma'r rhai fu'n lwcus yn y raffl – Mr H. Hughes, Carys Hughes, Liz Griffith, Mrs Kilburn, Nancy Quinn, Mary Roberts, John Williams, Carys Pritchard, Lynn Rowlands, Muriel, Colin Thomas, 10 Rhos-lan, Pat, Beryl, 64 Maes Padarn, Miss Williams, 60 Dôl Elidir, Barry Evans, Ms M. Roberts, Ross, a Mr E. Thompson. Diolch hefyd i'r bobol a'r masnachwyr lleol a roddodd y gwobrau inni. Dymunir Nadolig llawer a blwyddyn newydd dda i bawb. (M. Matthews, Pennaeth)

Y Gymdeithas Undebol: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Lun, Rhagfyr 2, yn festri Capel Coch. Cafwyd noson o garolau a chân yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris, dan arweiniad Arwel Jones a Mrs Hefina Jones. Paratowyd paned a mins pei gan aelodau'r Gymdeithas.

Lleisiau Lliwedd: Bu Lleisiau Lliwedd yn brysur iawn yn ystod mis Rhagfyr yn ymweld â gwahanol gartrefi preswyl yn yr ardal: Plas Gwilym, Pen-y-groes ar y 5ed o Ragfyr; Bron Eryri ar yr 8fed; a Phlas Pen Gwaith ar y 9fed. Pnawn Mercher y 18fed yr oeddent yng Nghanolfan Dydd Maesincla, Caernarfon. Cafwyd croeso mawr a mwynhad yn yr holl ganolfannau.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Cafwyd noson ddifyr iawn yng Ngwesty Dôlbadarn nos Wener, 22 Tachwedd, gyda Chôr Meibion Prysor yn diddanu. Trefnwyd y noson gan Elwyn Wilson Jones, ac fe gyflwynwyd y noson gan gadeirydd y Côr, Mr Gwynfryn Griffiths. Trefnwyd raffl gan Mr Roy Griffith, a'r enillwyr oedd: 1, Beverley Anwyl; 2, Ann Pritchard; 3, Mair Evans; 4, Elinor Morris; 5, Kathleen; 6, Hefin; 7, Gwen Morris; 8, Mari Jones; 9, Hefina Jones; 10, Meirwen Baylis; 11, Medwyn Roberts. Ddydd Sul, 1 Rhagfyr, cafwyd pnawn difyr iawn yn yr Oriel (Darganfod Dinorwig) gyda Seindorf Arian Deiniolen, Lleisiau Bro Ogwen a hefyd Côr Meibion Dyffryn Peris er mwyn codi arian i gael cadair olwyn drydan i Andrew Williams. Nos Lun, 2 Rhagfyr, bu'r Côr yn diddanu aelodau'r Gymdeithas Lenyddol Undebol yng Nghapel Coch, Llanberis. Nos Sadwrn, 11 Ionawr, bydd y gantores gwlad, Doreen Lewis, yn cadw noson yng Ngwesty'r Dôlbadarn. Cofiwch y dyddiad!

Undeb y Mamau: Cafwyd gwasanaeth o Garolau a Llithoedd bnawn Mawrth, 3 Rhagfyr, yn Eglwys Sant Padarn. Y Parchg Philip Hughes oedd yn gweinyddu gyda'r Parchg Emyr Owen yn ei gynorthwyo. Yr organydd oedd Mr Gareth Jones. Cymerodd pob aelod ran yn y darlleniadau. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd te Nadolig yng Ngwesty Dôlbadarn. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn. Enillydd y raffl oedd Mrs Betty Humphreys.

Ysgol Dôlbadarn: Dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi oll ar ran pawb yn yr Ysgol. Bu'r cyfnod cyn y Nadolig yn llawn prysurdeb eleni eto. Cafwyd y cinio Nadolig ddydd Iau, Rhagfyr 12, a diolchwn i staff y gegin am yr holl drefniadau. Cawsom ymweliad arall gan gwmni'r Northern Scottish Theatre ddydd Mercher, Rhagfyr 4. Bydd y plant yn mynd i Theatr Gwynedd i weld y pantomeim 'Robin Croeso' yn ystod wythnos ola'r tymor, ac os bydd y tywydd yn ffafriol byddwn hefyd wedi bod yn canu carolau o amgylch y pentref. Diolch i bawb a gefnogodd ein Ffair Lyfrau Nadolig ddydd Mercher, 27 Tachwedd, ac a gefnogodd yr ymgyrch Webb Ivory a'r cynllun 'hamperi' drwy'r flwyddyn. Mae'r elw a wneir o werthu'r nwyddau yn gymorth mawr i gynnal gwaith yr Ysgol. Bydd yr ysgol yn ailagor ddydd Llun, Ionawr 6.

Capel Coch: Cafwyd parti Nadolig yn y Cyfarfod Plant a gynhaliwyd ddydd Mawrth, Rhagfyr 10. Diolch i'r rhieni a baratodd y bwyd ac i'r rhai a fu'n helpu yn y parti. A'r dydd Mawrth canlynol cynhaliwyd parti Nadolig yr Ysgol Sul. Daeth Siôn Corn heibio y diwrnod hwnnw. Diolch i rieni'r Ysgol Sul ac aelodau'r capel am bob cyfraniad at y parti. Bydd y Cyfarfod Plant yn ailddechrau ddydd Mawrth, Ionawr 7, a'r Clwb Ieuenctid yn ailddechrau nos Fercher, Ionawr 8.

Diolchiadau:

Dymuna Grace, Graham a theulu'r diweddar William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a amlygwyd mewn gair a gweithred tuag atynt yn eu profedigaeth; a hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at offer Meddygfa Llanberis. Diolch yn arbennig i Dr Robin Parry am ei ofal diflino dros y blynyddoedd. Y diolch cywiraf hefyd i Iwan Pritchard, Nyrs Cymunedol; staff Wardaiu Glyder a Tryfan Ysbyty Gwynedd; y Parchg Huw John Hughes am ei wasanaeth diffuant; a Mr Myrddyn Prtichard a Mr Gwynfor Jones am y trefniadau gofalus.

Dymuna Margaret (Maggie) Richard, Fflat 9B, Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau i gyd am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur genedigaeth ei mab bach Tomos William.

Dymuna Dilys Evans, 48 Maes Padarn, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

Dymuna Derek Jones, 62 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i staff Ward Cybi a Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal caredig. Llawer o ddiolch i'r meddygon teulu, Llanberis, ac i'r nyr leol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- **Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.**
am fwy o fanylion, cysylltwch ag **Alun, Ffôn: (01248) 670746**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
★ Cwrw Felin Foel

Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis 870253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

'Un funud fach . . .'

PRESANT DOLIG

Bydd llai nag wythnos at y Dolig erbyn i'r golofn hon weld golau dydd. Bydd yn bryd meddwl am yr anrhegion erbyn hynny. Mae rhai ohonoch wedi hen brynu a lapio'r holl anrhegion ers wythnosau, ond fyddai Dolig ddim yn Ddolig i mi heb ras wyllt Noswyl Nadolig i brynu'r anrhegion dwytha.

Bydd miloedd lawer o anrhegion wedi eu rhoi yn yr ardal hon yn unig erbyn bore'r Dolig. A byddwn wedi gwario arian mawr arnynt yn ôl arolwg diweddar a ddangosodd bod y Cymry yn gwario mwy ar gyfartaledd ar anrhegion Nadolig na gweddill trigolion Prydain. Ond nid yn nhermau ariannol yn unig y bydd mesur gwerth yr anrhegion a rown ac a dderbyniwn y Dolig hwn.

Mae rhai anrhegion yn werthfawr oherwydd pwy a'u rhoddodd i ni. Sawl hen ornament digon hyll a dilun sy'n cael ei drysori am iddo gael ei roi i Mam neu Nain gan blentyn bach?

Rhodd fawr y Nadolig cyntaf oedd Iesu Grist, a byddwn yn dathlu hyn eleni eto. Mae'n rhodd werthfawr o gofio mai Duw a'i rhoddodd; mae'r Duw a greodd nefoedd a daear wedi rhoi rhodd arbennig i ni.

Mae anrhegion eraill yn werthfawr oherwydd mai dyna'r union beth yr oeddem ei angen. Mae'n hawdd rhoi anrhegion nad yw pobl eu hangen, a rhan o hwyl (neu boen) y Dolig yw meddwl am anrheg addas ar gyfer pawb. Mae rhodd fawr Duw i ni yn hollol addas ar ein cyfer. Yn ei Fab Iesu Grist mae wedi rhoi Gwaredwr sy'n cynnig yr union beth yr ydym ei angen: cariad, maddeuant, gobaith, cysur a phwrpas newydd i'n bywydau.

A bydd yr anrheg yn werthfawr os gwyddom bod rhywun wedi mynd i drafferth fawr i'w gael, fel bocs siocled a brynwyd ag arian poced plentyn; llyfr y bu'n rhaid chwilio'n ddyfal amdano; dilledyn y treuliwyd oriau yn ei wau. Mae rhodd Duw o fywyd newydd i ni wedi costio'n ddrud iddo, gan ei fod wedi bodloni i'w Unig Fab ddod i ganol byd o boen a thrafferthion i ddioddef ar groes dros bobl sydd ddim yn haeddu dim o'i gariad a'i ddaioni.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Gŵyl y Geni: Fore dydd Nadolig cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Crist, Llandinorwig, am 9.30 a.m. Bydd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Regid Roberts. Yna ddydd Sul, 29 Rhagfyr, cynhelir gwasanaeth o Naw Llith a Charol am 5.30 p.m. Bydd croeso i bawb o bob enwad i ymuno yn y gwasanaethau hyn.

Cydymdeimlo: Rydym fel pentrefwyr yn cydymdeimlo'n fawr â dau deulu a ddioddefodd brofedigaethau yn ystod yr wythnos diwethaf. Bu farw Mr William Roberts o Lanberis ar 19 Tachwedd a chydymdeimlwn yn fawr â'i frawd Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian a'i wraig Mrs Grace Roberts (Creigle gynt). Yn ystod yr un mis clywsom am farwolaeth Mrs Gwen Eluned Lloyd Roberts o Ceris, Deiniolen, ond a fu'n byw am flynyddoedd yn Awel-y-mynydd a Blue Peris, Dinorwig. Cydymdeimlwn yn fawr â'i merch, Mary Wyn, a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Un arall o'r gymdeothaeth glòs a arferai fyw ym mhen draw Dinorwig wedi ein gadael. Cof plentyn sydd gennyf yn mynd ati gydag eraill i ddysgu adrodd fel unigolion neu fel aelodau o barti adrodd ar gyfer eisteddfodau lleol. Ychydig fisoedd yn ôl yn yr *Eco* fe soniwyd am barti cydadrodd dan 12 oed a lwyddodd i ennill y drydedd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Rhydaman, 1957. Hyfforddwraig y côr hwnnw oedd y ddiweddar Mrs Roberts. Tipyn o gamp.

Ffilmio: Unwaith eto bu Dinorwig yn gyrchfan i griw ffilmio. Ddechrau mis Rhagfyr daeth Cwmni Ffilmiau Llun y Felin, Capel Mawr Llanrug, i ffilmio yng Nghapel Dinorwig ar gyfer cynhyrchiad o 'Mynydd Grug' (addasiad o *Te yn y Grug*, Kate Roberts) a ymddengys ar ein sgrin y flwyddyn nesaf. Ffilm i edrych ymlaen i'w gweld ar S4C.

Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: Amserol iawn oedd cael Mrs Maureen Lennon o Lanberis i annerch y Gymdeithas nos lau, 5 Rhagfyr, gan iddi siarad yn ddiddorol iawn am draddodiadau Nadoligaidd. Gan gymaint y difyrrwch o wrando arni fel yr awgrymodd Mrs Margaret Cynfi Griffith, wrth dalu diolch iddi, mai da beth fyddai gweld cyhoedd yr hyn oedd ganddi, neu efallai gweld ambell gyfraniad ganddi yn yr *Eco*. Llywydd y noson oedd Miss Nellie Wyn Jones.

Nos lau, 28 Tachwedd, daeth Mr Alun Hughes, Fachwen, i ddiddori'r aelodau gyda sleidiau o'i gampau dringo, ac ati. Noson ddifyr arall.'

Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd y noson o ganu carolau wedi'i gynnal nos lau, 19 Rhagfyr, yng nghwmni Seindorf Deiniolen.

Ionawr 9fed cynhelir cyfarfod gweddi dan ofal aelodau Capel Sardis, ac yna ar 23 Ionawr, am 7.?30 o'r gloch, cynhelir noson o adloniant yng nghwmni Parti Clychau'r Grug. Llywydd y noson honno fydd Mrs Alice Griffiths.

Yn ystod mis Ionawr bydd Mrs Betty Peris Roberts, ysgrifenyddes y Gymdeithas yn myn i'r ysbyty am lawdriniaeth ac mae aelodau'r Gymdeithas yn dymuno'n dda iddi gan edrych ymlaen am ei gweld yn cael adferiad llwyr a buan.

Sgip Sbwriel: Bydd Adran Gwasanaethau Technegol Cyngor Gwynedd yn trefnu fod y sgip sbwriel yn cael ei lleoli wrth ymyl tai Bro Elidir ar 28 Ionawr.

Diolch: Dymuna John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch o galon i bawb am y cardiau o gydymdeimlad a dderbyniodd ym marwolaeth ei frawd annwyl. Trefnwyd bod yr arian a dderbyniwyd yn cael eu trosglwyddo fel rhodd i Feddygfa Llanberis er cof am ei frawd. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNIADAU GORAU: ***Pob hwyl i bob un ohonoch dros Ŵyl y Geni a blwyddyn newydd dda i bawb.***

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr

DEINIOLEN

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Mercher / dydd Iau, 25 a 26 Rhagfyr
na dydd Mercher, 1 Ionawr 1997

CYFARCHION NADOLIG **BETHEL**

H. F. OWEN (TRANSPORT)

CONTRACTWR CLUDO

Fferm y Ddôl, Bethel
Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
Ffôn (01286) 670487/671201 Symudol: 0836 590832

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670261

BWYDYDD, MELYSION A PHAPURAU NEWYDD

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y chwe mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy' amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol y'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.
Dymuniadau gorau yn 1997 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

CARTREF PRESWYL SANT TEILO

SARON BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff
Ymholiadau: Port Dinorwig 670353

Y BEDOL

FINE TRADITIONAL ALES

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll oddi wrth Kevin , Carolynne a'r staff
Ffôn: (01248) 670155

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

ANN A BILLY HUGHES

SIOP TREFLYN BETHEL

Ffôn: (01248) 670106

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CYFLENWYR PORTHIANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Y Felinheli 670439



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN



SIOP SGLODION BETHEL

Ffôn: 670760

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115



Owain Siôn a fu'n cymryd rhan yn y ffilm 'Mynydd Grug' a ffilmiwyd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Esyllt Môn Jones, Y Rhos, ar fod y fyfyrwraig gyntaf i ennill Ysgoloriaeth Bedwyr Lewis Jones. Daeth yr ysgoloriaeth i fod wedi i nifer o gyfeillion y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones sefydlu cronfa er cof amdano ac i gynorthwyo myfyrwyr i wneud gwaith ymchil am raddau uwch. Eleni oedd y tro cyntaf i'r ysgoloriaeth gael ei dyfarnu gan ddefnyddio'r llog a fu'n crynhoi ar gyfalaf y gronfa. Cyflwynwyd yr ysgoloriaeth, sy'n werth £1,000, i Esyllt gan weddw'r Athro Bedwyr, Eleri Wyn Jones. Ar hyn o bryd mae Esyllt yn astudio y theatr boblogaidd Gymraeg ar gyfer gradd M.A.

Eisteddfod Bethel: Cynhelir pwyllgor yr eisteddfod yn y Neuadd, nos Fercher, 29 Ionawr 1997 am 7.30 o'r gloch.

Sul y Cofio: 10 Tachwedd cynhaliwyd gwasanaeth wrth y garreg goffa o dan ofal y Parchg Gwynfor Williams. Cymerwyd rhan hefyd gan blant yr Ysgol Gynradd, sef Adelle Davies, Lois Hughes, Ffion Williams, Dylan Morgan, David Jones, Emma Vaughan Jones, Cadi Ostler, Ryan Davidson, Byron Clack ac Oliver Newton, a'r plant a osododd y croesau pren. Gosodwyd y dorch ar ran yr ardalwyr gan Mr Ifan Griffith, a rhoddwyd y carsiynau gan Mrs Mona Williams. Delyth Williams a fu'n dysgu'r plant, mewn cydweithrediad â Mr Pierce y prifathro. Argraffwyd y taflenni gan Mrs Carys Wyn Williams.

Clwb Bro Bethel: Cyfarfu'r aelodau yn Festri Bethel yn ddiweddar gyda'r Parchg Gwynfor Williams yn llywyddu. Anfonwyd cofion cynnes at gyn-aelod o'r Clwb, sef Mrs M. G. Williams, Gwylfa gynt, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers rhai wythnosau bellach ond sydd bellach wedi dychwelyd yn ôl i Lanberis. Mrs Glenys Griffiths oedd y wraig wadd a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddi am 'Cerddoriaeth Glasurol Nadoligaidd'. Cyflwynodd nifer o ddarnau clasurol a phob un yn ymwneud â'r Nadolig. Gofalwyd am y te gan Mrs Mary Griffiths, Mrs Bessie Ellis a Mrs Mary Hughes a diolchwyd i bawb gan Mr Trevor Williams. Yr wythnos ganlynol aeth criw da o'r aelodau ynghyd â ffrindiau am bryd Nadolig blasus i Dŷ Bwyta Orme View, Coleg Technegol, Llandrillo-yn-rhos, ac yna am dro i Landudno yn y pnawn. Gwnaed y trefniadau gan Mrs Bessie Ellis, Mrs Mary Griffiths a Mrs Mary Hughes a diolchwyd iddynt gan Mr Trevor Williams.

Actio: Cafodd Owain Siôn, 15 Y Ddôl, ei ddewis i gymryd rhan yn y ffilm 'Mynydd Grug' yn ddiweddar. Cynhyrchiad cwmni Llun y Felin, Llanrug, o *Te yn y Grug* gan Kate Roberts yw'r ffilm. Mae Owain yn chwarae rhan 'Robin' sy'n frawd i 'Begw' y prif gymeriad. Bu'n brysur yn ffilmio yn ddiweddar ac fe orffennir y ffilmio yn ystod mis Awst y flwyddyn nesaf.

Clwb 200 Y Neuadd: Enillwyr mis Tachwedd — £20: Debbie Clack, Tawelfa, Saron (108); £10: Rhian Bardsley, 3 Stad Eryri (106); £5 yr un: Ellen Morris, Fachell (26); Freda Jones, 3 Rhos-lan (151); Olwen Jones, 14 Bro Rhos (11); Gwyneth Williams, Llain yr Ardd (65); Gwyneth Price, Llys y Gwynt (94); Nan Rowlands, 23 Y Ddôl (55); Clifford Hughes, Llidiart y Coed (134); Huw Williams, Cefn Gwyn (69). Tachwedd — £20: Glenys Thomas, Islwyn (221); £10: William Humphreys, Llwyn Hudol (60); £5 yr un: Susan Newton, Llwydiarth (213); Emyr Price, 5 Tan-y-ffordd (169); Sheila Lambrecht, 9 Y Rhos (121); Dewi Williams, Cefn Gwyn (56); Jean Hughes, Nefyn (166); Gwilym Jones, Y Ddôlwen (13); Owen Hefin Thomas, 28 Y Ddôl (200); Ruth Jones, 9 Y Ddôl (158).

Cyfarchion y Tymor: Dymunir Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i holl drigolion Bethel a'r cylch gan drigolion Cartref Preswyl St. Teilo.

DWY FIL O FLYNYDDOEDD . . .

Dwy fil o flynyddoedd yn ôl,
dywedodd Duw —
'Mi drefnaf Ŵyl
ac mi a alwaf yr Ŵyl
yn Nadolig'.

A Duw a greodd seren
a'i gosod uwchben y byd,
ac fe drefnodd i dri Santa Clôs
ei dilyn ar gefn eu camelod.

A Duw a ofalodd
nad oedd lle yn y llety
i Joseff a Mair.
Fe styrbiodd gwsg y bugeiliaid
ac fe ddysgodd gân o orfoledd
i'r angylion.

A phan sdopiodd y seren
uwchben y beudy,
penliniodd y tri Santa Clôs
wrth erchwyn y preseb,
gan lenwi hosan yr hen foi bach.

Ac yn ei balas
'roedd Herod yn gwingo.

* * * *

A dwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach
daeth Herod
i Dunblane.

SELWYN GRIFFITH

Rhai o gystadleuwyr brwd Eisteddfod Bethel. Mae'r canlyniadau yn ogystal â detholiad o'r cynnyrch llenyddol a mwy o luniau i'w gweld yn yr Atodiad Eisteddfodau sydd gyda'r rhifyn hwn.

Ffenestri
CELTIC
Windows
2 TAN Y BRYN, BETHEL
BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim
NHBC (01286) 671181
(0831) 326160

ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtni ★ Jams
Briwgig ★ Siampw ★ Clustogau
Ewyn Baddon ★ Olewon Aromatherapi
Teganau Meddal ★ *Mobiles* Pren
Ar agor LLUN – GWENER 9 a.m. – 4 p.m.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn yr antur

Swyddfa'r Post

SWYDDFA'R POST ac YSTORFA TY NEWYDD WAUNFAWR Ffôn: 650708

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Allen, Anne** a'r staff
Croeso i gwsmeriaid hen a newydd yn 1997

CYFARCHION NADOLIG WAUNFAWR

ŠKODA FELICIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

GERAINT OWEN

Gosodwr Carpedi
(a phob math o loriau)
Cil-y-mynydd
WAUNFAWR
Rhif Ffôn:
(01286) 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Mr a Mrs Owen

SFP

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn: 650235
Hefyd yn Uned 10, Tir Llwyd, Bae Cinmael. Ffôn (01745) 360445
Offer Diffodd Tân – masnachol ac i'r cartref
Offer Canfod Mwg ar gyfer y cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân hyn holl, a llawer mwy i'w weld yn ein swyddfa

BSI REGISTERED FIRM

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **David** a **Peter Gresley** a'r staff

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH KAREN A BAWB YNG NGWESTY'R

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★ Prydau Plant ★
Ystafell Deulu ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★
★ NOS SADWRN, 21 RHAGFYR, BROC MÔR ★
CROESO CYNNES I BAWB DROS WYLIAU'R NADOLIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)





- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650253

WELDPAR

CYMRU WALES
8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720
OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH **BRIAN, SHIRLEY A TONY**

Mae **Liz** a **John Whitehead, Anna, Cerys** a **Margaret**

SIOP CHIPS WAUNFAWR

Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Y Gymdeithas Lenyddol: Cyfarfu'r Gymdeithas nos Lun, 9 Rhagfyr, pryd y cafwyd noson yng nghwmni'r Parchg H. Gwynfa Roberts a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am 'Hen Boteli'. Llywyddwyd y noson gan Mrs Catherine Jones, a diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs Gweneirys Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ionawr 13.

Dathlu Priodas: Llongyfarchiadau i Derek ac Eleri, Stad Tŷ Hen, ar eu priodas. Dymunwn pob hapusrwydd ichi eich dau i'r dyfodol.

Llongyfarchwyn hefyd Mr a Mrs W. Jones, Tryfan, 2 Stad Croes-y-waun, ar ddathlu eu Priodas Aur. Croeso iddynt i fyw i'r Waun o Swyddfa'r Post, Nebo, Llanrwst.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llio Mair Rhisiart, Llwyn Onn, ar gyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs A. Bennet, Llechwedd, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn 90 oed.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i'r canlynol — Anna a Gareth Lloyd Williams, Gwastadfaes, ar enedigaeth mab bychan, Dafydd, brawd bach i Sara ac ŵyr i Emrys Lloyd Hughes, Treflan Isaf.

Daeth Eifion a Rosanne Hughes, Stad Tref Eilian yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganed mab bychan, Nathan, i Helen a Jonathan.

Ganwyd merch fach, Lowri Haf, i Haf ac Alun, gan wneud Bernard a Pat Parry, 1 Bryn Golau yn daid a nain am y tro cyntaf, a gor-wyres fach i Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Bryn Golau.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Croeso adref o'r ysbyty i Mrs G. Thomas, Stad Tref Eilian.

Dymunwn wellhad buan i Carys Jones, Stad Tref Eilian, sydd wedi brifo ei llaw mewn damwain.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwyn â'r canlynol yn eu profedigaethau —

Mr John Cotton, Stad Tŷ Hen, sydd wedi colli ei chwaer, y ddiweddar Daphne Cotton a fu'n byw yn Llwyn Onn.

Mr Goronwy Pierce, Nant Bach, sydd wedi colli'i frawd.

Mrs Emsyl Jones a Mr Gareth Roberts, Bro Waun, yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Miss Eirlys Roberts.

Clwb Pêl-droed: Mae'r timau wedi bod yn brysur ers dechrau'r tymor ac y maent yn gwneud yn dda iawn.

Mae'r tîm dan 11 wedi chwarae eu saith gêm cynghrair heb golli — ennill 5 a dwy gêm gyfartal yw eu record nhw. Cafodd Ieuan Parry ei ddewis i chwarae yn nhîm Gwyrfai hefyd. Dechrau gwych hogia, a diolch i Terry am roi o'i amser i'w hyfforddi.

Bron iawn cystal yw'r tîm o dan 9 oed. Maent wedi ennill 8 gêm gynghrair a cholli 4 (mae un gêm ar ôl i'w chwarae). Mae dau chwaraewr wedi chwarae i dîm Gwyrfai dan 9, sef Richard a Guto. Mae Guto wed sgorio 20 gôl hyd yn hyn — tipyn o gamp! Diolch i Elfyn a Jeff am ofalu amdanynt.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am helpu i gludo'r plant; y cefnogwyr a'r noddwyr. Yn wir mae'r ymdeimlad o *team-spirit* yn grêt yn y Clwb — daliwch ati.

Cofiwch am barti Nadolig y plant ddydd Sadwrn, Rhagfyr 28, o 3 hyd 6 o'r gloch yn y Ganolfan.

Bydd hyfforddiant yn ailddrechrau ar ôl y gwyliau fel a ganlyn — nos Lun 6.30-7.30 (dan 11); nos Fawrth 6-7 (dan 9).

Dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd lwyddiannus i bawb.

Enillwyr Clwb 300 Y Ganolfan am fis Tachwedd — £40: Mrs M. Parry, 16 Croes-y-waun; £25: Mrs Elin Rhisiart, Morawel; £10: Mrs Gladys Greasley, Min Afon.

Plygu'r Eco: Ni bentrefwyr y Waun fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r *Eco* nos lau, 30 Ionawr. Gobeithir dechrau'r gwaith tua 5.30 p.m. yn festri Capel Croes-y-waun. Y llynedd daeth criw da ynghyd i helpu gyda'r gwaith a hyderaf y gallwch ddod eto y tro yma. Diolch yn fawr — Nan.

Dymunwn pob bendith i chwi dros Ŵyl y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Anfonwn ein cofion at bawb sy'n gaeth i'w cartrefi ac i drigolion y pentref sydd yng ngofal cartrefi preswyl.

Mae
LLEUFER A NELMA PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR
Ffôn: 601286) 650291
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

DRAENOG

CHREDWCH CHI BYTH! Aeth gŵr o Lanberis i Faes Awyr Manceinion i nôl ei chwaer adref. Gadawodd ei gar yn y maes parcio aml-lawr, ac anghofiodd yn llwyr lle'r oedd y car. Bu'n rhaid chwilio a chwilio'n ddyfal amdano — am oriau yn ôl pob sôn — cyn gallu cychwyn adref. Bydd dilynwyr brwd Y DRAENOG yn cofio i mi adrodd stori debyg i hon ddiwedd yr haf. Goeliwch chi bod y DDWY STORI am yr UN dyn? A chan ei fod mor flêr â gwneud yr un camgymeriad ddwywaith o fewn tri mis, wna i ddim ceisio cuddio'i enw mewn rhyw gliw cryptig ond cyhoeddaf yn syml mai GARETH JONES, 27 DÔL ELIDIR, LLANBERIS, oedd y dyn. Ella y gwnaiff hynny sicrhau y bydd yn fwy gofalus y tro nesaf!


Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
STERMAT
OFFER TŶ A GARDD
CAERNARFON
Ffôn: 676506
Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CARPEDI GLÂN
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Mae **Brian a Rita Henderson** o
SIOP Y PENTREF
Bryn Gwynedd
WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650589
Gwerthwyr Cardiau Mitar
Manweb

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CHWILOTA

BLYNYDDOEDD Y TYWYDD MAWR

Mae'n od fel mae cof gwerin yn cadw'n fyw y traddodiadau am dywydd caled neu dywydd anghyffredin mewn blynyddoedd arbennig. Gaeaf mawr '47 neu haf poeth '76 fydd y tymhorau arbennig sy'n cael eu cyfeirio atynt yn aml gan bobl ein cyfnod ni. Ond mae patrymau o dywydd arbennig wedi ei gofnodi ers canrifoedd — yn Gymraeg a Saesneg — gan gofnodwyr swyddogol ac answyddogol, a chan feirdd. Ar ddechrau tymor y gaeaf, dowch i ni gael golwg gyffredinol ar rai agweddau od o'r tywydd a gofnodwyd o wahanol rannau o Brydain dros y canrifoedd.

Yn y flwyddyn 245 dywedir i'r môr orlifo miloedd o erwau o dir isel ar hyd arfordiroedd Prydain, ac i lawer ohonynt gael eu colli am byth. Cofnodir fod swydd Lincoln wedi dioddef yn arw yn y flwyddyn honno, ac i lawer o'i thir gael ei golli am byth i'r môr. Mae'n ddiddorol nodi fod y rhan hon o ddwyrain Lloegr yn dioddef yn enbyd o hyd, ac mai yma mae'r raddfa erydiant cyflymaf yn y byd gan y môr. Mewn rhai rhannau mae stormydd o wynt cryf a llanw uchel yn 'dwyn' hyd at 20 metr o dir oddi ar rai ffermydd.

Roedd gaeaf 554 mor oer fel ei bod hi'n bosib dal adar ac anifeiliaid gwyllt yn hollol ddidrafferth: roedd hi'n rhy oer i'r adar hedfan nac i'r anifeiliaid redeg!

Ar y diwrnod cyn y Nadolig yn y flwyddyn 800 daeth gwynt cryf o'r de-ddwyrain gan ddymchwel tai ac adeiladau eraill. Rhwygwyd coed allan o'r ddaear gerfydd eu gwraidd. Yn ystod yr wythnosau canlynol boddwyd llawer o iseldir gan y môr.

Am chwe mis yn y flwyddyn 970 ni welwyd yr haul yn ystod y dydd na'r lleuad yn y nos, a hynny oherwydd fod cymylau'n gorchuddio'r awyr gydol yr amser.

De-ddwyrain Lloegr a rhannau o'r Alban ddioddefodd waethaf yn ystod 1092. Roedd stormydd y gwanwyn mor gryf nes i diroedd Iarll Goodwin gael eu difetha gan y môr. Roedd y cerrynt mor gryf nes i'r priddoedd tywodlyd gael eu symud yn ôl a blaen gan y llifeiriant a'u chwalu. Erbyn heddiw does dim ohonynt ar ôl ond banciau tywod a adnabyddir fel y *'Goodwin Banks'* neu'r *'Goodwin Sands'*.

Yn 1114 roedd yn bosibl croesi Afon Tafwys yn Llundain ar droed oherwydd y sychder difrifol. Cofnodir hefyd fod yr awyr yn anarferol o goch gydol fis Rhagfyr.

Glaw oedd problem fawr 1348. O ganol haf hyd y Nadolig ni chafwyd un diwrnod sych. Bu llifogydd drwg ymhobman, ac yr oedd y ddaear yn rhy wlyb i gynhaeafu unrhyw gnwd. Mae'n bosibl na fu'r tywydd o gymorth i geisio atal yr haint dychrynllyd a ledodd drwy'r wlad yn y flwyddyn hon, sef y Pla Du.

Yn 1438 y tywydd oedd y rheswm i'r cynhaeaf fethu, a bu'n rhaid mewnforio bwyd o'r cyfandir. Roedd newyn mawr drwy'r wlad, a chofnodir fod rhai trueiniaid yn gwneud blawd allan o wraidd rhedyn wedi'i sychu.

Cafwyd nifer o flynyddoedd yn ystod yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg pryd y cafwyd gaeafau caled, ac yr oedd yn olygfa gyffredin gweld marsiandiwyr yn gosod stondinau i fyny ar yr Afon Tafwys — roedd y rhew yn ddigon trwchus i'w cynnal. Cynhaliwyd y ffair aeaf olaf ar rew'r Tafwys yn 1814.

Bu Cymru'n dioddef yn arw oherwydd haf sych 1737. Cofnodir yr achlysur gan Hugh Jones, Parc Pysgodlyn mewn cyfres o benillion — ac mae hefyd yn cynnig rheswm am y sychder:

Y llynedd ni gawson er toreth haf tirion
A mwy na haeddasom o ffrwythlon gnwd ffri
Pedfasem blant grasol heb ddigio'n Tad nefol
Ni gawsem olynol eleni.

Mae blwyddyn 1783 yn haeddu sylw arbennig. Roedd haf y flwyddyn honno yn llawn digwyddiadau dychrynllyd yn ôl pob sôn. Cafwyd stormydd dychrynllyd o fellt ac yr oedd sêr gwib yn gyffredin iawn gydol misoedd yr haf. Am wythnosau lawer roedd niwl trwchus dros rannau helaeth o Brydain a thiroedd Ewrop nes i'r haul ymddangos yn wantan a dyfrllyd. Roedd lliw hydrefol ar bopeth gydol yr haf, ond roedd yr haul ar doriad gwawr a machlud pob dydd yn lliw gwaedlyd ryfeddol. Yn Rhagfyr cafwyd y storm eira waethaf o fewn canrif — a hynny dros wyliau'r Nadolig. Mewn mannau disgynnodd hyd at bedair troedfedd o eira ac yr oedd lluwchfeydd o ddeg troedfedd ar hugain mewn rhai llefydd.

Yn ystod y ganrif ddiwethaf roedd gaeaf 1840-41 yn arbennig o galed. Ym mis Chwefror y bu hi waethaf: *'Y gwyntoedd yn gethin aflawen,'* meddai Ambrose Bebb, *'dinistr a gwaredigaethau rhyfedd bob yn ail. Y dymestl waethaf o fewn cof yr hynaf sy'n fyw. Dwy fil o weithwyr Dinorwig heb allu gwneud dim ers dyddiau.'*

Ac ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf daeth y rhew unwaith eto — yn ddigon caled a milain i rewi Llyn Padarn, fel y gwnaeth eto yn ystod y ganrif hon. Ond gadawaf i eraill gofnodi 'blynyddoedd y tywydd mawr' am y ganrif bresennol, gan fod llawer o'r darllenwyr yn cofio effeithiau y rheini.

PWY OEDD GWILYM RHUG?

Mae Esyllt Jones o Fethel yn gwneud gwaith ymchwil i hanes dramodwyr yr ardal. Mae'n cael trafferth i ddarganfod unrhyw wybodaeth am ŵr o'r enw W. E. Williams, a alwai ei hun yn Gwilym Rhug. Cred ei fod yn hannu o ardal Llanrug, a'i fod yn ysgrifennu dramâu ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon. Mae'n rhestru pedair drama o'i eiddo, sef 'Gwenllian, Etifedd Dolbadarn', 'Owain Llawgoch', 'A Oes Heddwch?' ac 'Arthur Wyn y Bugail'.

Bûm eisoes yn holi rhai o drigolion yr ardal a oedd yn ymwneud â byd y ddrama yn Llanrug, ond hyd yma dyw'r awdur na'i ddramâu yn golygu dim iddynt. Mae'n ymddangos fod Gwilym Rhug yn dipyn o ddirgelwch — os na all rhywun o ddarllenwyr y golofn ein goleuo ar y mater.

Rwyf hefyd wedi dod ar draws cyfeiriadau cynharach am actio yn ardal Llanrug. Mor bell yn ôl a 1888 roedd cwmni drama yn perfformio 'Y Fferyllydd Anonest' yn Ysgol Glanmoelyn, Llanrug. Dywedir mai rhywun o'r enw 'Homo Wyn' oedd yn gyfrifol am y cwmni. Mae'n amlwg mai cwmni lleol oeddynt, oherwydd gwelais gyfeiriadau eraill at Homo Wyn *'a'i actorion'* yn cynnal nosweithiau yn Llanrug. Hyd yma, methais a darganfod pwy oedd Homo Wyn. Efallai mai rhagflaenwyr Cwmni Drama Glannau Ifor oeddynt.

Os oes gan unrhyw un wybodaeth ynglŷn â Gwilym Rhug, gallwch gysylltu'n uniongyrchol ag Esyllt Jones yn 7 Trem y Fenai, Bangor; neu anfonwch i'r cyfeiriad arferol, ac fe anfonaf innau'r wybodaeth ymlaen iddi.

Gan ddymuno gwyliau dedwydd a blwyddyn newydd o hen hanes i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'r golofn dros y flwyddyn a aeth heibio. Cofiwch anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

ATGOFION AM YSGOL Y WAUNFAWR

PLANT YSGOL WAUNFAWR, 1932

Rhes flaen: Harold McBride, Eleanor Heulwen Jones, Mimmie Griffiths, Betty Hughes, Nancy Roberts, Jennie Monica Jones, Humphrey Roberts a Gwennie Elam. *Ail res:* Elizabeth Evans (Edwards heddiw), Nellie Weston, Nancy Hughes, (?), Bobby Lyon, Hughie Humphreys, (?) Bill Owen. *Trydedd rhes:* Agnes Wyn Jones, Eirian Barlow, Miss Mary Williams, (?), Richard Neville Owen. *Rhes gefn:* Gwilym Hefin Owen, Meirion Jones, Owen Wyn Jones, Eric Wyn Williams, Trefor Griffiths.

Anfonwyd hanes 'Taith Natur' plant Ysgol Waunfawr yn ystod y tridegau gan Mrs Elizabeth Edwards, Carmel, Treffynnon (yn wreiddiol o'r Waun ac yna o Bontrhythallt). Darllen hanes gwersylloedd yr Urdd mewn rhifyn cynharach o'r *Eco* a'i hysgogodd i anfon y llun a'r hanes. Miss Mary Williams (un o'r merched a aeth i'r gwersylloedd cynnar) oedd eu hathrawes yn y Waunfawr, ac un o hoff wersi'r plant fyddai'r 'am dro Natur' neu *'Nature Walks'* fel y'i gelwid hwy bryd hynny! Dyma adroddiad Mrs Edwards:

'Pan oeddwn i'n blentyn yn Ysgol y Waunfawr, yn ystod y gwanwyn caem fynd ar daith natur. Edrychem ymlaen yn fawr am y daith. Fel arfer, mynd ar hyd ffordd Garreg Fawr yr oeddem — taith bleserus iawn rhwng y gwrychoedd uchel, a'r blodau amryliw fel carped oddi tanynt. Roedd mantais arall o gerdded y ffordd hon; doedd dim moduron yn rhuthro arni. Credaf i mi ddysgu a charu natur yn fwy drwy sylwi nac mewn gwers ddosbarth.

'Cofiaf yn dda am achlysur tynnu'r llun. Gwanwyn 1932 ydoedd, a minnau yn Standard Two — dosbarth Miss Williams. Ym mis Ionawr y flwyddyn honno torrais fy nghoes ar fuarth yr ysgol, a bu'n rhaid i mi gael caniatâd arbennig i fentro cerdded y 'Nature Walk'! Roedd efail y gof ar y ffordd hon, a chredaf mai yn rhywle tua'r fan honno y tynnwyd y llun.'

Mae Mrs Edwards yn medru enwi pawb bron o'r plant yn y llun, ond mae'n ansicr ynglŷn â thri: fe'u dangosir â marc cwestiwn yn y rhestr enwau. Oes rhywun o gyn-ddisgyblion Waunfawr all eu henwi?

Y Llanberis String Band

CERDDORION YR ARDAL

Yn y rhifyn diwethaf gwneuthum ymholiad ynglŷn â'r Llanberis String Band a Chôr y Delyn Aur, Pontrug. Wyddwn i ddim ar y pryd fod unrhyw gysylltiad rhyngddynt, ond daeth galwad ffôn oddi wrth Mrs Elisabeth Roberts o Fangor (Elisabeth Hughes gynt o Lanberis) yn nodi fod ei thaid â chysylltiad â'r ddau grŵp cerddorol. Ei enw oedd Griffith Richard Davies; genedigol o Glandŵr, Waunfawr, ond iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i oes yn 5 Stryd Charlotte, Llanberis. Roedd yn gerddor da, ac yr oedd galw mawr arno yn yr ardal fel cyfeilydd.

Mae Griffith R. Davies yn eistedd ar y chwith yn y llun o Gôr y Delyn Aur. Y fo oedd cyfeilydd swyddogol y côr. Ef hefyd oedd cyfeilydd y Llanberis String Band, ac y mae llun ohono gyda'r band hwnnw wedi'i drosglwyddo i ofal Angorfa, Llanberis. Mae'r llun o'r String Band yn y gyfrol o *Hen Luniau Bro Eco'r Wyddfa.* (Yr arweinydd yn 1902 oedd John Brwynog Jones, a Griffith Davies yn gyfeilydd.) Ganed iddo ef a'i briod bump o blant, sef Nel Davies, May Davies, Gwilym Davies, Hettie Davies (Hughes yn ddiweddarach, sef mam Elisabeth, Griffith ac Eluned) a Grace Davies (a briododd â'r Parchg J. Idris Owen). Roedd dawn gerddorol Griffith Davies yn rhai o'r plant hefyd gan i Hettie fod yn unawdydd poblogaidd. Bu'n canu'r unawd soprano ym Mhafiliwn Caernarfon pan berfformiwyd 'Cantata'r Adar' yno.

Ni chafwyd gwybodaeth am unrhyw un arall yn llun Côr y Delyn Aur, a doedd dim ymateb 'chwaith i'r cais ynglŷn â'r torrwyr gwallt cerddorol. Mae gennych hyd ddiwedd Ionawr i chwilota!

Llythyr o America . . .

(Anfonwyd y llythyr hwn atom gan Mrs Olwen Ebbrell, Coventry (Olwen Rees Evans, Llanberis gynt). Un o nifer o lythyrau ydyw a anfonwyd yn ystod 1883-84 gan frawd i'w thaid ar ôl ymadael i'r America.)

Yr hanes yn fyr yw fod Owen W. Rowlands, mab hynaf i William ac Elizabeth Rowlands, Hafod, Llanberis wedi ymadael i wneud bywoliaeth newydd iddo'i hun yn y Welsh Prairie, Wisconsin, UDA, pan oedd yn 24 oed. Roedd yno gymdeithas helaeth o Gymry o ogledd Cymru. Tra bu yno fe ysgrifennodd amryw o lythyrau i'w frawd William, ac hefyd un neu ddau i'w dad a'i fam. Fe ymadawodd William hefyd am America ychydig fisoedd ar ôl i Owen setlo yno. Dyma gynnwys un o'r llythyrau (heb ei gywiro):

Llan
Cambria
Welsh Prairie
Annwyl frawd, July 18th 1883

Derbynniais dy lythyr ar y 14th o'r mis hwn, ac yr oeddwn yn wir falch o hono yn sicr i ti. Y mae yn wir ddrwg gennyf glywed am farwolaethau hen gyfeillion parchus, y rhai ydych yn ei gofnodi ym mhob llythyr a dderbynniais oddiyna, ac y mae yn bur debyg os caf fyw mai clywed a wnaf yn amal iawn am rhywun yna etto.

Yr oedd yn bur dda gennyf glywed dy fod yn gallu bod mor gyffyrddus yn y cartref newydd, os yr wyt yn teimlo mor gysurus yna ag yr wyf fi yn y cartref hwn, mae pob peth yn all right; y mae yn debyg eich bod yn hwylio yn brysur tuag at y gwair yna bellach, ac hwyrach y bydd popeth drosodd erbyn y bydd hyn o eiriau yna.

Yr oedd yn ddrwg gennyf glywed am Ewyrth Hugh, ei fod yn fraidd yn wael. Gobeithio ei fod yn gwella. Cofia fi atto yn arw iawn ac at modryb hefyd, a theulu y tŷ arall, Dafydd a Cadi, chwedl Nain.

Yr oeddwn yn deall fod yr Eglwyswyr wedi cael un gurfa go dda yna etto, y trueiniaid gwirion, y mae yn rhaid eu bod yn edrych ymlaen i'r dyfodol am eu llwyddiant drwy ddrych tywyll a lliwiedig iawn, fe fuasai'n beth mwy na digon i'r Americanwyr i haid o'r dosbarth yna sydd yn Llanberis ddod yma i'w mysg ac actio yma fel y maent yna; ond y diwedd fydd rhyw ddiwrnod i'w ty tywodlyd chwalu hyd y sylfaeni gan lifeiriant gwirioned a chyfiawnder. Hwyrach fy mod wedi bod ar fai na fuaswn wedi rhoddi mwy o hanes y wlad yma mewn cysylltiad a chrefydd nag a phethau y byd, yn fy llythyr diweddaf, rhag ofn i chwi feddwl yna fy mod yn teimlo yn ddibris o hynny.

Mewn tua 3 miles i'r Gogledd oddi yma y mae pentref Cambria. y mae yno sefydliad Methodistiaid cryf iawn, y mae yno Gapel ganddynt a gynwysa 700 o bobl; tua milltir oddiyna i'r Dwyrain y mae capel arall ganddynt o'r enw Sion, a gynwysa yn agos i 300. I'r Gorllewin drachefn y mae un, tua milltir oddiyma, a gynwysa 200; ti weli fod yma ddigon o fanteision crefydd. Nid wyf wedi rhoddi fy nhocyn eglwysig i'r un ohonynt etto, hyd nes caf weled pa un o'r ddau gapel agosaf yma fyddai y doethaf i mi fynd yn aelod ohono.

Bum yn Cambria drwy y dydd y Sul diweddaf sef y 16th yn gwrandaw ar Mr Saunders. yr oeddwn yn aros gyda Johnny Rowlands, bachgen Robert Rowlands (gynt) Pen-y-Gwryd. Y mae ei fam, ac yntau, a'i daid yn byw gyda'i gilydd yn y pentref mewn ty nice iawn, ac yn dda iawn llan gyda phethau y byd; yr oeddwn yn methu yn lan a choelio drwy y dydd rhywfodd nag yng Nghymru yr oeddwn wrth wrandaw yr Efengyl yn Gymraeg; yr oedd Mr Saunders mewn hwyl a phawb wedi cael llond llestr ganddo, os oeddynt yn bod mor ddoeth a'i gymeryd. Yr oedd pawb wedi rhyfeddu yn ddirfawr at ei huawdledd ac yn gorfod tystio mai efe yw y goreu a glywsant erioed. Yr wyf yn credu ei fod wedi rhoi enw da iddo ei hunain drwy yr holl wlad; yr oeddwn wedi clywed y dair bregeth ganddo yn yr hen wlad, dwy ohonynt, oeddynt yn rhai a bregethodd yn Capel Coch, pan yno y tro diweddaf, un yn loan 'Y Tad daeth yr awr gogonedda dy fab', a'r llall yn Mathew, yr un hono oedd ganddo ar bleser pechod, a'r llall yr un a bregethodd yn Ngymanfa Bangor. Bu O. J. Williams yn Capel Sion a Jerusalem yma yr wythnos cyn y diwethaf, ac yr oedd pawb yn lecio yntau yn bur dda. Y mae Eglwys Cambria am wneud cais atto i ddod yno yn weinidog. Y mae William Jones wedi ei rhoddi i fyny ers talwm ni fydd yn pregethu ond ychydig iawn.

Mewn perthynas i mi fy hunan yr wyf yn dal i hoffi y wlad yma yn iawn, ac yn teimlo yn fwy gafaelgar ynddi wrth glywed pa fodd y mae pethau yn dal yna.

Yr ydym yn bresenol yn brysur iawn gyda'r gwair, yr ym wedi dechrau gyda'g ef er 2 wythnos, ond y mae y tywydd yn hynod o anffafriol, yn wlyb iawn, bron mor wlyb ag y bydd yn arfer bod yna. Mae gennym waith gyda'g ef am 2 wythnos etto ac i ni gael tywydd braf bob dydd, yna fe fydd cynheuaf yr yd ar ei ol. Bydd hwnnw am 2 fis ar ein cefnau. Fe ryfedda pobl Llanberis yn arw pe baent yn cael golwg ar yr amaethyddwyr yn America, yn gwneud bob gwaith gyda Machines.

Yr wyf yn cael o gyflog tra y bydd y cynheuaf yn parhau, ddoler a hanner y dydd, a dim son am dalu am fwyd. Yr oeddwn yn ofni wrth gychwyn y buaswn yn bur anghelfydd gyda phethau, ond rwyf yn gwneud y tro etto beth bynnag, yn ogystal a neb wyf wedi ei weled.

Y mae yma falchder mawr am bob papur newydd a ddaw yma oddiyna achos ychydig iawn o rai o'r wlad yma ydym ni mewn cyfleusdra i'w cael. Anfonaf rai yna pob cyfle a gaf ond bydd hynny yn anfynych rwy'n ofni.

Mae'n debyg fod yr hogia yn disgwyl llythyr oddiwrthyf, y maent yn sicr o un cyn hir, Hugh, Evan, James a'r giang yna, cofia fi attynt oll, at Wm Roberts a Mrs Roberts, pawb yn Plas Coch, teulu y ty nesaf hefyd.

Gobeithio fod Janett a mam wedi eu mwynhau eu hunain yn Criccieth a'i bod wedi derbyn lles yno, gobeithio fod Janett yn parhau i wella mor dda. Yr oedd yn dda iawn gennyf glywed ei bod wedi bod yn Garreg Wen. Y mae yn braf go dda ei bod yn mendio yn iawn.

Dywed wrth Nain a M. Evans y caiff lythyr cyn hir fel taledigaeth am yr un a gefais ganddynt hwy. Yr wyf yn wir dymuno ac yn fawr ddisgwyl y byddwch yn derbyn hwn yn iach a chysurus oll, fel fy hunain.

Terfynaf yn awr gan gofio attat,
Ydwyf dy frawd
OWEN

Cerrig Beddau
Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
Beth am **Fwffe Enwog Nerys**
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

W. J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI — GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Service Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BERYL A GWENDA
LLYTHYRDY LLANRUG
Ffôn: C'fon 672422

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

FINE ART — TRADE GUILD
ORIEL PLAS GWYN
Pontrug, Caernarfon
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle.
Prisiau rhesymol.
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid lleol.
Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (0286) 672619
Richard S. Humphreys
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
673574
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard , Meirwen a'r staff
SPAR
Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon: 672790

Oriau Arferol:
7am - 10pm wythnos; 8am - 10pm Sul
Noswyl y Nadolig: 7am - 8.30pm
Gŵyl San Staffan (Boxing Day)
a **Dydd Calan:** 8am - 4pm

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Nadolig Llawen oddi wrth **Bryn a Kathleen**
Am eich
ANGHENION ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR A "D.I.Y."
am **BRISIAU CYSTADLEUOL**



BRYN
(B & K Williams)
Yr Hen Ysgol Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Iwan a Meinir Williams, Pant-y-rhyd, Ffordd Glanmoelyn, ar enedigaeth merch fach, Siân Angharad. Llongyfarchiadau hefyd i taid a nain, sef Cliff a Vera Williams ac Islwyn a Rhian Jones, Brynrefail.

Cyfarchion Nadolig: Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Nadolig hapus i bawb o'i ffrindiau, perthnas a'i chymdogion i gyd.

Clychau'r Grug: Daeth tymor prysur i ben gyda noson o ganu carolau yng nghartrefi'r henoed, Llanrug; cyngerdd yn Llanfairfechan; a noson o ddiddanu Cymdeithas Capel yr Annibynnwyr, Deganwy Avenue, Llandudno. Bydd y côr yn ailddechrau nos Lun, 13 Ionawr. Pob hwyl genod dros yr Ŵyl.

Merched y Wawr: Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan yr is-lywydd, Bethanne Williams. Dymunwyd pob hapusrwydd i Rhodri Llwyd, mab ein llywydd, Mair a Gwyndaf, ar achlysur ei briodas ag Esyllt Jones o'r Bontnewydd. Anfonnir cofion annwyl at Miss Humphreys wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty a dymunir adferiad buan iddi hi ac i aelodau eraill y gangen nad ydynt wedi bod yn dda iawn eu hiechyd yn ddiweddar.

Cynhelir 'Distawrwydd Noddedig' ynghyd â gwau topiau gwlân i Oxfam gan aelodau pwyllgor yr anabl. Byddai'r pwyllgor yn hynod falch o help i wau topiau gan unrhyw un — mae patrymau ar gael gan Mrs Beryl Thomas.

Ein gŵr gwadd dewr oedd y Prifardd Myrddin ap Dafydd sydd wedi hen gartrefu yma yn yr Hen Efail, Llanrug. Darllenwyd detholiad o gerddi digri a'r difrif am y Nadolig. Cychwynnodd gyda enghreifftiau doniol o ddywediadau digri. Dymunodd yn dda inni fel cangen pan gawn ein 'misery tour' nesaf, neu os bydd rhywun yn mynd ar eu gwyliau ar y 'Cyfiawnder' yn ystod yr haf!

Darllenwyd yn hynod effeithiol gerddi am 'Tachwedd yn Tesco', 'Byw Tori — Byw Talu', a'r gerdd deimladwy am 'Y Trydydd Byd' gyda *'ni lydan ein waledi'* a hwythau'r *'byd noeth yn ein bwydo ni'*.

Mae cwmni plant bob amser yn ddifyr a doniol yn enwedig amser y Nadolig. Â hithau wedi cael llond bol ar ganu carolau, gwisgo bugeiliaid a choroni doethion, dywedodd un athrawes wrth ei dosbarth, *'Gobeithio y dewch i'r ysgol hefo dipyn mwy o sens ar ôl y gwyliau,'* ac meddai un eneth fach, *'a chithau 'run fath Miss'!* Ond, dyna fo, daeth amser *'lorwerth mewn preseb'* a'r *'chety chawn'* i ben unwaith yn rhagor. Diolchwyd i Myrddin am noson gartrefol a difyr gan Margaret Parry. Tynnwyd y raffl a'r enillydd oedd Nan Humphreys. Diolchwyd i aelodau'r pwyllgor am wneud y mins peis ac i genod Penisarwaun am wneud y pwnsh.

'Gemwaith' fydd dan sylw ym mis Ionawr a gofynnir i chwi ddod â hen emwaith gyda chwi.

Dymunir Nadolig llawen i chwi oll, a phopeth dan yn 1997.

Capel y Rhos: Atgoffir yr aelodau y bydd llyfrau'r eglwys yn cau ar 31 Rhagfyr, a gofynnir iddynt sicrhau fod eu cyfraniadau yn llaw'r trysorydd neu swyddogion eraill erbyn hynny.

Plaid Cymru: Daeth Siôn Corn i Ffair Nadolig Llanrug, nos Fercher, Rhagfyr 4, a chafodd groeso mawr gan y plant. Y Cynghorydd Pat Larsen a wahoddwyd i agor y Ffair, ac fe gyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Mari Deiniol Evans o Benisarwaun. Yn ogystal â stondinau a rafflau, cafwyd amryw o gystadleaethau. Dyma'r enillwyr — enwi'r ddol (rhodd gan Haf Thomas): Mari Deiniol Evans; amcangyfrif y Smarties: Phyllis Ellis; y raffl: 1, Eryl Roberts (hamper); 2, Helen Parri (cloc); 3, Mr Larsen (dysgl bren); 4, Haf Thomas (gwin). Enillwyd gwobrau hefyd gan Jennifer, Cliff, Llinos Dinwiddy, Vera Williams, Mrs Jones, Lyndale, Liz Roberts, Debrah Jones, Gwawr a Megan Roberts.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen yng Nghanolfan Penisarwaun, nos Fercher, 15 Ionawr, am 7.30 o'r gloch. Edrychwn ymlaen am sgwrs ddiddorol fel arfer gan Mary Vaughan Jones am 'Teithio'.

Llongyfarchiadau calonnog i Cliff a Vera Williams ar enedigaeth ail wyres, Siân Angharad, merch i Iwan a Meinir Williams, Pant-y-rhyd.

Yr Ysgol Gynradd: Llongyfarchiadau i'r timau nofio am wneud mor rhagorol yn ngala nofio'r Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Aelodau'r tîm dan 12 — Eifion Williams, David Pritchard, Huw Mackinnon, Dafydd Thomas, Arwel Pritchard, Bethan Pritchard, Karen Evans, Cen Williams, Lyndsey Roberts a Rebecca Owen. Aelodau'r tîm dan 10 — Ifan Dafydd, Dafydd Williams, Jake Burston, Gareth Eifion, Tomos Jones, Debbie Williams, Fflur Griffith, Sophie Gordon a Llinos Roberts. Pob lwc i'r tîm bechgyn dan 12 yn y Gala Cenedlaethol yr Urdd yn Llanelli.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn perfformio dawns a chân yng Ngwesty Seiont Manor, nos Fawrth, 10 Rhagfyr. Cafodd yr ysgol wahoddiad gan Dr Helen Roberts ar ran Ymddiriedolaeth Clefyd y Galon i gyflwyno ychydig o eitemau Nadolig.

Casglwyd £92 at gronfa Plant Mewn Angen wrth i'r disgyblion dalu dirwy am y fraint o wisgo fel y mynnent. Casglwyd hefyd £200 yn ystod y noson Tombola. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r cyngherddau Nadolig eto eleni. Nos Fercher, 11 Rhagfyr, bu'r babanod yn perfformio 'Cipio Siôn Corn', tra bu'r adran iau yn perfformio eu cyngerdd ' 'Nôl Mewn Amser' yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, ar y nos Wener ganlynol.

Llongyfarchiadau i'r timau 5-bob-ochr George McLean. Cyrhaeddodd tîm B y rownd gyn-derfynol gan ddod yn bedwerydd allan o 26.

Cafodd disgyblion Bl. 5 a 6 ddiwrnod difyr gyda Chwmni'r Frân Wen yn Amgueddfa Lechi Gogledd Cymru. Cawsant flas ar y cyflwyniad wedi'i seilio ar brentisiaid crefft y Gilfach Ddu.

Dymunir Nadolig llawen i bawb a diolch am eich cefnogaeth yn ystod y tymor.

Diolchiadau: Dymuna Tecwyn ac Ellen, 11 Cefn Elan, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab Rhys Ellis ar Hydref 1af.

Dymuna Mrs Gwyneth Hughes, 7 Gwêl Fynydd, Llanrug, ddiolch o galon i'w thelu am eu gofal diflino; ac i gymdogion a chyfeillion am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.



Y Prifardd Myrddin ap Dafydd ar adeg ei ymweliad diweddar â Merched y Wawr.

WYT TI'N COFIO?

Dyma lun o Ferched y W.I., Llanrug yn y pumdegau, yn perfformio'r meim (drama ddilafar) 'Gwledd Belthasar'. Fe'i cynhyrchwyd gan Mrs Owen, Siop Bont gynt — Cymraes di-Gymraeg o Fanceinion — a oedd yn dalentog iawn ym myd y ddrama.

Mrs Morris D. Jones, Awelon, neu Bessie Pandy fel y galwem hi, oedd yn cymryd rhan Belthasar. Roedd Bessie yn actores wych er na chafodd fawr o hyfforddiant. Mae actio heb siarad yn dipyn o gamp ond fe wnaeth hi ei rhan i'r dim. Yr oeddem yn cystadlu yn Eisteddfod Llangefni a chafwyd beirniadaeth wych gan Nora Isaac. A oes rhywun arall yn barod i roi dipyn o'r hanes?

Ar wahân i actio fe wnaeth Bessie a'i phriod Morris D. Jones, ddiwrnod da o waith yn dysgu corau adrodd yn ystod y pumdegau gan ennill yn y Genedlaethol fwy nag unwaith. Cofiaf barti o ferched ifainc yn cydadrodd ('llefaru' heddiw!) rhan o 'Y Dyrfa' gan Cynan, ac er nad oedd nemawr neb o'r parti wedi gweld gêm rygbi yr adeg honno, roedd y portread gan y côr hwnnw yn wefreiddiol. Bob tro y gwelaf gêm rygbi ar y teledu byddaf yn meddwl am y perfformiad gan y cor adrodd hwnnw.

DRAENOG

Mi fasech yn disgwyl i lywodraethwyr ysgol fod yn bobl ddoeth a deallus, yn enwedig rhai sydd hefyd yn ddarlithwyr Prifysgol. Dipyn o syndod felly oedd clywed am y llywodraethwr hwnnw a gychwynnodd o Glwt-y-bont i fynychu cwrs ar gyfer llywodraethwyr newydd oedd i'w gynnal ym MHLAS Menai un noson. I BARC Menai yr aeth y cyfaill a methu'n glir â deall lle'r oedd pawb arall. PWYLL pia' hi'r tro nesa! Gyda llaw, rwyf braidd yn bryderus amdano y dyddiau yma gan ei fod wedi cychwyn ar ei wyliau tua'r Gran CANARIA . . . ond synnwn i ddim o glywed 'i fod o wedi glanio yn y Gran' CANYON!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr

LLANRUG

676128

CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: (01286) 672937

I gael bargen drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol — y siop yr ydych chi'n berchen arni

Cofiwch fod DIFIDEND O 2g YN Y BUNT i aelodau'r gymdeithas

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1996
DYMUNIADAU GORAU AM 1997

GAREJ HAFOD

PEUGEOT

LLANRUG Ffôn: 673372

BLWYDDYN NEWYDD – CAR NEWYDD

Y 406

Y mae'r gwybodusion wedi gwirioni arno!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth ***John Trevor*** *a'i deulu, a'r holl staff*

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Plant Ysgol Cwm-y-glo fu'n diddanu'r henoed yn ddiweddar.

Marwolaeth: Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y ddiweddar Mrs Nellie Parry, Gwynfa a fu farw ym Mhlas Pengwaith ar Dachwedd 25ain. Bu'r angladd preifat ar Dachwedd 28ain a gweinyddwyd gan y Parchg D. J. Pritchard, Llanberis. Yn enedigol o Lerpwl, treuliodd Mrs Parry ran helaethaf ei hoes faith yma ym Mrynrefail, ar ddau gyfnod yng Ngwynfa ac yn 2 Trem Eilian. Roedd yn meddu ar ymarweddiad tawel, yn grefftus â'i llaw a pharod ei chymwynas i'w chydnabod yn deulu a chymdogion.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Islwyn a Rhian Jones, 3 Trem Eilian ar ddod jyn daid a nain unwaith eto. Ganed mab i'w merch Meinir ac Iwan. Rwy'n siŵr hefyd ei fod yn cael croeso mawr gan ei hen nain, Mrs Jane Jones, 7 Trem Eilian.

Te'r Henoed: Mwynhaodd henoed y pentref de Nadolig brynhawn lau, Rhagfyr 12fed, wedi ei baratoi yn y Festri gan aelodau cangen leol Sefydliad y Merched. Gwerthfawrogwyd yn fawr hefyd yr adloniant a gyflwynwyd gan ddisgyblion Ysgol Gymuned Cwm-y-glo dan arweiniad Mrs Mair Huws.

Eglwys M.C. Brynrefail: Estynnir croeso i bawb i'r Gwasanaeth Nadolig Blynyddol brynhawn Sul, Rhagfyr 22ain, pryd y cymerir rhan gan blant ac aelodau'r Eglwys. Yn ystod y mis cyflwynwyd swm o £75 tuag at Apêl Ysbytai India gan Gymdeithas Chwiorydd yr Eglwys a dosbarth Ysgol Sul yr oedolion.

Cyflwynodd y dosbarth hefyd rodd o £50 i drigolion Plas Pengwaith, Llanberis.

Tra'n dymuno Nadolig llawen i'r holl bentrefwyr edrychwn ymlaen i'r flwyddyn newydd 1997. Wele'r trefniadau ar gyfer oedfaon mis Ionawr:

5. CYFARFOD GWEDDI DECHRAU BLWYDDYN dan nawdd yr aelodau (5.30)
12. Parchg S. O. Hughes, Bethel.Oedfa Cymun. (5.30)
19. Parchg W. R. Williams, Y Felinheli (10)
26. Parchg Glyn Tudwal Jones, Bangor (10)

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ymgynnull ar Ionawr 12fed.

Rhai o henoed y pentref yn mwynhau eu te Nadolig.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Rhai o blant yr ysgol yn barod i berfformio yn y Sioe Nadolig.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at mr Wyn Rowlands, Glanrafon, sydd yn Ysbyty Llandudno; a Mr Ted Roberts, Bod Gwilym, sydd yn yr ysbyty ym Mangor, gan ddymuno gwellhad buan iawn i'r ddau ohonoch.

Ffair Hydref: Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion i Ffair Hydref Ysgol Cwm-y-glo a gynhaliwyd ar 20 Hydref. Enillwyr y raffl oedd: James Lewis, Catherine Jones, Llion Bryn, James Lewis, Llion Bryn, 872220, Amelia, Mary Roberts, Gwyneth Roberts, J. O. Roberts, Doreen Roberts, Siop Carol, Mrs Roberts, Ceri Roberts, Ruth Allt Goch, 871637, Leigh, Dilys Bwlch.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Llongyfarchiadau i Mrs Delyth Wyn Tomos, Tanycae, ar ei dewis fel Cynghorydd yn ddiweddar. Pob lwc iddi.

Gwaeledd: Drwg gennym ddeall fod Miss Megan Humphreys, Cadnant, yn yr ysbyty. Gobeithiwn ei gweld adref yn fuan.

Diolch: Dymuna Mrs Ceinwen Roberts, Ael-y-bryn, ddiolch yn ddiffuant am y caredigrwydd a gafodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch am y galwadau ffôn, llythyrau a'r holl gardiau a dderbyniodd. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus Ward Beuno am eu gofal diflino. Diolch yn fawr.

NADOLIG SAIN

CASETIAU A CHRYNO DDISGIAU

- SIÂN JAMES "GWEINI TYMOR"
- IWCS A DOYLE "EDRYCHIAD CYNTA"
- MIRAIN HAF gyda Dylan Eurig
- CAJUNS DENBO "STOMPIO"
  Yr albwm Cajun cyntaf yn y Gymraeg!
- DAFYDD A LLIWEN
- AR EICH CAIS gyda Dai Jones
  Ffefrynnau'r rhaglen radio
- CÔR MEIBION LLANGWM
- TIMOTHY EVANS
- GWYL CORAU MEIBION '96
  Recordiad o Neuadd Albert
- "RAM JAM SADWRN"
  Sesiynnau Radio Cymru

. . . a llawer mwy!

HEFYD DEWIS HELAETH O FIDEOS I'R TEULU OLL

Sain • Llandwrog • Caernarfon • Gwynedd
Ffôn: 01286 831 111

MWY O GYFARCHION LLANRUG

CARTREF PRESWYL
LLYS EIDDON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y
GLYNTWROG
LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
Ysgol Yrru Ofalus
★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112
Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth
Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Simneau glân am bris rhesymol gan
G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll
Defnyddir peiriant sugno i lanhau
Ffôn: Caernarfon 674781

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
MECH-A-NICK (NICK WALTON)
4 STAD DDIWYDIANNOL BRYN AFON
CRAWIA, LLANRUG. Ffôn: 674884
TRWSIO CEIR • GWAITH MOT
TWNIO CRYPTON • WELDIO MIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Elaine, a staff**
Elaine's
LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

Dydd Mawrth a dydd Mercher i bensiynwyr
Nos Fawrth i ddynion
Colurio ar gyfer achlysuron arbennig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
JACKIE, DAVE A STAFF
TAFARN
PENBONT
LLANRUG
LLE BRAF
A CHWMNI DIFYR DROS
WYLIAU'R NADOLIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
JONES A PITTS
PEIRIANWYR MECANYDDOL
Arbenigwyr mewn pob math o waith metel
GWAITH BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: 675523

NANSI RICHARDS
Brenhines Telyn Cymru

Côr Telyn Eryri ar un o'u teithiau: Edith Evans (Telynores Eryri); Miriam (Llinos Glaslyn); Nesta; Lucy (Eifiona); Nansi Richards (Telynores Maldwyn); Lillian Pwell Williams; Flo Roberts.

Efallai i rai ohonoch ddarllen colofn Aled Lloyd Davies yn y *Daily Post* am Delynores Maldwyn a'i chysylltiad â logo'r 'ceiliog' sydd i'w weld ar bob bocs corn flêcs Kellogs.

Tipyn o gymeriad oedd Nansi, a dweud y lleiaf. Cefais y fraint o'i hadnabod yn bur dda dros nifer o flynyddoedd. Ie, gwraig anhygoel oedd hi. Teithiodd Gymru benbaladr, ac yn wir y byd yn grwn gan fynd a'i thelyn a'i thalent gyda hi. Crwydrai fel y sipsiwn a ddylanwadodd gymaint ar ei datblygiad a medr cerddorol a thyfodd chwedlau anhygoel yn sgil y crwydriadau hynny. Gallwn ddweud nifer ohonynt wrthych ond i'r *Eco* cyfyngaf atgofion i hanesyn neu ddau sy'n berthnasol i ardal Llanberis.

Roedd cystadlaethau rhwyfo Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal ar Lyn Padarn yn ystod y 60au a threfnwyd dathliad i groesawu'r cystadleuwyr, cefnogwyr a'r ymwelwyr ar lawnt gwesty'r Grosvenor yn Llanberis. Fi oedd yng ngofal y noson — twmpath dawns gyda band o ddwy delyn a drwm — Telynores Maldwyn a Thelynores Eryri (Edith Evans, Beddgelert) a Jim Horman, Llanrug — a minnau'n galw'r dawnsiau, a'r band a minnau ar ben lori lo ar gwr y lawnt! Wel, roedd Nansi ychydig yn hwyr yn cyrraedd. Mae'n debyg fod syched mawr arni a mynnodd i Cecil (ei gŵr) stopio'r car ger rhaeadr ar ochr y ffordd ger Pont Waterloo, Betws-y-coed. Llithrodd i'r ceunant a chyrhaeddodd Llanberis a'i phais yn socian. Cafodd y byd a'r betws wybod am hyn gan fod yr uchelseinyddion oedd ar y lori yn cario'r sgwrs yn ogystal â'r gerddoriaeth a'r cyfarwyddiadau! Ychydig yn hwyrach ar y noson roeddwn yn dawnsio step y glocsen ar ben y lori a Nansi'n telori. Rywle tua diweddglo'r cyflwyniad llithrodd fy nghlocsen ar y reilen fetel sydd ar lori lo (rheiliau i'r sachau glo lithro'n rhydd arnynt) a dyna lle'r oeddwn i'n sglefrio'n gyflym eithriadol tua'r dibyn. O mam bach! Clywais lais Nansi'n gweiddi, 'Troed yn yr olwyn, Alice!' Ac ar amrantiad dyma finnau'n ymateb gan roi sawdl un glocsen yn erbyn trwyn y glocsen arall a stopio'n stond cyn disgyn dros y dibyn. Cefais eitha cymeradwyaeth gan fod pawb yn credu, mae'n siŵr, mai rhan o'r cyflwyniad oedd y diweddglo syfrdanol. Melys gofion.

Bellach fi yw cadeirydd Ymddiriedolwyr Ysgoloriaeth Nansi Richards ac yn flynyddol mae telynor/es Gymreig yn elwa o'r ysgoloriaeth o tua £1,000 i hyrwyddo'u crefft. Am ba hyd y gallwn wneud hynny sy'n fater arall. Mae'r pwrs yn wacach bob tro y rhown ein llaw ynddo, fel y gwyddom yn arbennig o dda yr adeg yma o'r flwyddyn. Pe dymuna unrhyw unigolyn, cymdeithas neu sefydliad roi eu llaw yn eu pocedi buasem ni, yr ymddiriedolwyr, yn hynod ddiolchgar. Roedd Nansi'n hael dros ben ac fel y dywedai Aled Lloyd Davies yn ei golofn, 'Ni chafodd Nansi druan ddimai goch y delyn am ei hawgrym' (gan Kellogs Corn Flakes) ond hyderaf ein bod ni Gymry yn fwy triw i un o'n harwresau.

Os oes llun neu atgof gennych o'r uchod rwy'n siŵr y byddai'r *Eco* yn falch o'u derbyn. Diolch o galon,

ALICE E. WILLIAMS
8 Tan-y-mur, Caernarfon
(01286) 677618

(Ym mis Mawrth 1996 cyhoeddwyd cyfrol, gan Wasg Gwynedd, sy'n darlunio bywyd Nansi Richards, Telynores Maldwyn, yn ei holl agweddau trwy gyfrwng llythyr, llun a dogfen. Ffrwyth ymchwil Nia Gwyn Evans yn Adran Gerdd Prifysgol Bangor yw'r gyfrol. Pris: £6.50)-Gol.

Y GENI

Yn y biswail, yn y beudy
Yno ganed Baban Mair,
Wedi'i rwymo mewn cadachau
Ar ei wely tlawd o wair.

Nid oedd llety, nid oedd cysgod
Yno i Frenin Mawr y nef;
'Doedd ond stabal dlawd yr asyn
Yn y ddinas iddo Ef.

Ond mae dyn yn dal yn greulon
Wedi'r holl flynyddoedd maith;
Ac mae'r Iesu'n dal i gofio'r
Goron ddrain, ac ôl y graith.

Wedi'r poeri yn ei wyneb,
Wedi ei groeshoelio Ef;
Ond mae'r Iesu'n dal i faddau
Trwy ein gwahodd ni i'r nef.

John V. Morris, Clwt-y-bont

O SIAMBAR SELWYN
(GAIR BACH I'R PLANT)

Fel rydan ni'n heneiddio mae'r Nadolig yn dod yn gynt. Erstalwm roedd 'na amser maith rhwng dau ddolig. Ond rŵan cyn i roced ola noson Gei Ffôcs ffrwydro'n llwch o sêr, mi fydd Santa ar ei ffordd i'r siopau mawr, ac mi fydd na gadwyni o drimins yn hongian uwchben.

* * * *

Sut Dolig ydach chi am gael blant? Ddaw Santa tybed? Mae gen inna go' plentyn o ddisgwyl yn eiddgar amdano sawl Nadolig.

Rwyf am aros yn effro
Drwy gydol y nos,
Er mwyn cael golwg
Ar Santa Clôs,
Mi gysgais y llynedd
A'r flwyddyn cynt,
Tra bu'r hen Santa
Yn dod ar ei hynt.

Sut ddyn ydio tybed?
Ydio'n dal, ydio'n hen?
Pa mor hir ydy locsyn
Yr hen ŵr clên?
Mae'n rhaid fod ei sach
Yn eithriadol o drwm,
Os yw'n dod â theganau
I bawb yn y cwm.

Ac os mai drwy'r simdde
Y daw o i'r tŷ
Sut na fuasai ei locsyn
A'i ddillad yn ddu?
Eleni arhosaf
Yn effro drwy'r nos.
Rhaid im gael golwg
Ar Santa Clôs.

* * * *

O ydy, mae o'n dipyn o foi, Ys gwn i blant a glywsoch chi am dri dyn clyfar oedd yn byw yn y Dwyrain 'na erstalwm. Roeddan nhw wrth eu bodd yn astudio'r sêr, ac yn cael hwyl arni hefyd. Un noson, fe welson nhw seren newydd sbon yn disgleirio yn yr awyr. Duw oedd wedi trimio — y trimins cynta i gael eu hongian reit siŵr.

A dyma'r tri dyn clyfar 'ma yn neidio ar gefn eu camelod, ac i ffwrdd â nhw gan ddilyn y seren ddisglair 'ma. Yn sydyn, fel *traffic leits* dyma'r seren yn stopio'n stond — union uwchben stabal ym Methlehem Judea. Dyma'r tri dyn clyfar yn mynd i mewn i'r stabal ac yn y preseb fan honno dyma nhw'n gweld Brenin y Brenhinoedd yn cysgu'n sownd yn y gwair.

Ia, Iesu Grist oedd o, a doedd o'n gwybod dim am na Santa Clôs, nac yn poeni yr un iod am aur a thus a myrr, a doedd o'n malio yr un botwm corn am Herod na neb.

A wyddoch chi be — mi roedd y tri dyn clyfar 'na yn ddigon call i fynd adre'n ôl ar hyd ffordd arall. Do, fe chwaraeon nhw dric â'r hen Herod brwnt 'na. Ond cyn mynd fe roeson nhw bresanta Nadolig i'r babi bach.

Y presanta Nadolig cynta i gael eu rhoddi erioed, ac mae'n siŵr gen i mai'r tri dyn clyfar yma oedd y tri Santa Clôs cynta 'rioed hefyd.

Dolig da yntê. Y presanta cynta, y trimins cynta, a'r Santa Clôs cynta, a'r cyfan yn digwydd am i fabi bach gael ei eni mewn preseb.

Nadolig llawen i bob un ohonoch, a gobeithio'n wir y cewch chitha lawer o anrhegion i'w hagor o dan y trimins.

* * * *

Profiad go od gafodd Santa
Un noson wrth rannu presanta'
'Doedd 'run corn ar y to,
Aeth Santa o'i go',
Do, bu o ar ben to tan ben bora!

DAFYDD DU AR DAITH

Bydd disgyblion Ysgol Brynrefail yn cael cyfle i gwrdd â Dafydd Du, a nifer eraill o sêr Radio Cymru, yn y cnawd pan fydd rhaglen 'Ram Jam' yn mynd ar daith o amgylch ysgolion Cymru.

Mae'r daith yn gorffen yn Ysgol Brynrefail ddydd Gwener, 20 Rhagfyr, ar ôl ymweld ag ysgolion uwchradd yng Nghrymych, Gwyr, Aberystwyth a Llanelwy, ac yn cael ei recordio i'w darlledu ar Radio Cymru.

Yn ymuno â Dafydd Du (Dafydd Meredydd sy'n un o gyn-ddisgyblion yr ysgol) a rhaglen 'Ram Jam' yn Ysgol Brynrefaill mae Ian Gill, Owain Gwilym, Dylan Wyn a'r grŵp lleol Almanac, ar gyfer dathliad Nadoligaidd arbennig.

Mae Dafydd Du yn addo tipyn o sioe. 'Mi fydd gynno ni bob math o bethau, o gerddoriaeth i gystadlaethau. Mae o'n siŵr o fod yn lot o hwyl, ac yn gyfle i gwrdd â DJs Radio Cymru fydd yno i chwarae dewis y plant o gerddoriaeth.'

Mae'r daith hefyd yn gyfle i hyrwyddo CD newydd sbon 'Ram Jam' sy'n cynnwys 19 trac o rai o'r sesiynau gorau a glywyd ar y rhaglen yn ystod y flwyddyn. Mae'r CD newydd ei rhyddhau ac wedi mynd yn syth i rif 14 yn siart Cytgord.

Bydd 'Taith Ram Jam' i'w chlywed ar Radio Cymru mewn cyfres o raglenni arbennig yn rhedeg o nos Lun i nos Wener, 16-20 Rhagfyr, gyda'r rhaglen o Ysgol Brynrefail, sef Parti Dolig Ram Jam yn cael ei darlledu nos Iau, 26 Rhagfyr am 10 p.m.

DIOLCH AM 'STEDDFOD

Dymunaf ddiolch i bawb a gyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad o Eisteddfod Bethel. Diolch i Goronwy Jones, llywydd y pwyllgor, am ei gefnogaeth drwy'r flwyddyn; i Sheila a Iola am ymgymryd â gwaith y trysorydd; i Edwina Morris am addurno'r llwyfan; ac i Dafydd Williams, Yr Hafod, am baratoi'r llinell goll a'r darn heb ei atalnodi. Bu'r gefnogaeth a gafwyd o'r Ysgol Feithrin, yr Ysgol Gynradd ac Ysgol Brynrefail yn werthfawr iawn. Diolch am gael benthyg festrïoedd Cysegr a Bethel a'r Ysgol Gynradd i gynnal ymarferion; i Gethin Evans am y sustem sain; ac i Siencyn Griffith am ei waith gyda'r cyfrifiadur. Diolch arbennig i bob plentyn a sicrhaodd wyth awr o gystadlu difyr a brwd.

RITA *(Ysgrifenyddes)*

Cyngerdd Poblogaidd yn Llanberis

Nigel Petrie, rheolwr gyfarwyddwr First Hydro.

Ddechrau'r mis cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus yng nghanolfan Darganfod Dinorwig — Oriel Eryri, Llanberis, gan yr artistiaid lleol Seindorf Deiniolen, Côr Meibion Dyffryn Peris a Chôr Merched Dyffryn Ogwen.

Perfformiodd Seindorf Deiniolen am y tro cyntaf gyda'u baneri newydd, a ddarparwyd dan nawdd cwmni First Hydro, perchnogion y ganolfan a'r gorsafoedd trydan dŵr yn Llanberis a Blaenau Ffestiniog.

Croesawyd pawb i'r ganolfan gan Nigel Petrie, rheolwr gyfarwyddwr First Hydro ac Eluned Davies, sydd newydd ddechrau fel rheolwr y ganolfan. Meddai Eluned Davies, 'Mae'r adeilad hwn yn Llanberis yn lle ardderchog i gynnal y math yma o ddigwyddiad. Byddwn yn datblygu nifer o atyniadau newydd ar gyfer y gwanwyn a chyhoeddir manylion yn *Eco'r Wyddfa* maes o law.'

Syniad staff First Hydro oedd cynnal y cyngerdd. Aeth yr holl elw at gynorthwyo Andrew Williams, llanc ifanc gydag anabledd corfforol, a dreuliodd gyfnod o brofiad gwaith yn Darganfod Dinorwig. Dyblwyd yr arian a gasglwyd yn y cyngerdd gan gwmni First Hydro.

Band Deiniolen yn perfformio am y tro cyntaf gyda'u baneri newydd.

Côr Merched Dyffryn Ogwen.

Côr Meibion Dyffryn Peris.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng
NGHARTREF HENOED
Foelas
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652

GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT
Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

LLUH Y FELIN
Capel Mawr, Llanrug
Caernarfon, Gwynedd
Ffôn (01286) 678102
Nadolig Llawen
oddi wrth gynyrchwyr **'Migmas'** a'r **'Mynyddgrug'**

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Ebeneser a Chefnywaun: Ddydd Sul, Rhagfyr 22, bydd yr Ysgol Sul a'r oedfa yn cael eu cynnal fel arfer yn Ebeneser am 10.30 o'r gloch. Am 5 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Carolau yng Nghefnywaun. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddarllen-iadau a charolau gan aelodau Cymdeithas y Chwiorydd yn Ebeneser, brynhawn Iau, Rhagfyr 5, a mwynhawyd te Nadolig i'w ganlyn. Bydd plant yr Ysgol Sul yn cael eu parti Nadolig ddydd Gwener, Rhagfyr 20. Bydd y Cyfarfod Plant yn ailddechrau wedi'r gwyliau, ddydd Iau, 9 Ionawr.

Oedfaon y Nadolig: Bydd eglwysi'r pentrefi yn cydaddoli i ddathlu'r Nadolig eleni. Cynhelir Gwasanaeth Cymundeb yn Eglwys Llandinorwig am 11.30 o'r gloch, nos Fawrth, 24 Rhagfyr, a gwasanaeth bore'r Nadolig am 9.30 o'r gloch yn yr Eglwys hefyd.

YSGOL GWAUN GYNFI:

Rydym wedi cael tymor prysur iawn gan gannwys arolwg o'r ysgol ac mae pawb yn brysur iawn o hyd yn paratoi am y Cyngerdd Nadolig.

Croeso: Rydym eisoes wedi croesawu dwy fyfyrwraig o'r Coleg Normal i'n plith. mae Miss Nicola Sage yn cynorthwyo Mrs Jones a'i dosbarth ac mae Miss Judith Roberts yn cynorthwyo Mrs Hughes a'i dosbarth. Mae'r ddwy'n gydwybodol iawn a dymunwn yn dda i'r ddwy pan fyddant yn ymadael ar ddiwedd y tymor.

Llywodraethwyr yr Ysgol: Etholwyd corff newydd am gyfnod o bedair blynedd arall. Y Cadeirydd yw Mr Glyn Tomos, Pen-y-bwlch, Dinorwig; Is-gadeirydd: Mr Len Jones, 11 Hafod Olau, Deiniolen; Clerc: Mrs Nia Williams, Blaen Cae Isaf, Deiniolen. Y llywodraethwyr sy'n cynrychioli'r rhieni yw Mrs Nia Williams, Mrs Siân Huws a Mrs Cheryl Ward.

Cefnogi Elusennau: Glywsoch chi Anti Gwen ar y radio ar Dachwedd 22ain – diwrnod Apêl Plant Mewn Angen? Roedd hi wedi mynd â £100 i stiwdio'r BBC ym Mangor ar ran plant a staff yr ysgol a chafodd sgwrs gyda Jonsi ar y radio. Nid Plant Mewn Angen yw'r unig elusen i'r plant ei gefnogi 'chwaith. Aeth y Parchg John Pritchard, sy'n un o lywodrathwyr yr ysgol, a thros 100 o focsys 'Operation Christmas Child' o'r ysgol ar gyfer plant bach Bosnia a gwledydd eraill. Rydym i gyd yn falch iawn o'r plant a'u hymdrechion dros blant llai ffodus.

Yn ystod wythnos y Gwasanaeth Diolchgarwch bu'r plant yn brysur yn casglu ffrwythau ar gyfer henoed y pentref.

Y Cyngerdd Nadolig: Perfformir y Cyngerdd Nadolig eleni ar ddydd Mercher, Rhagfyr 18, am 2 o'r gloch y prynhawn ac am 6.30 yr hwyr, yn yr ysgol.

Cinio Nadolig: Bydd holl blant yr ysgol yn cael cinio Nadolig ddydd Iau, 12 Rhagfyr.

Gwersi Dawnsio Creadigol: Rydym yn ddiolchgar iawn i Gymdeithas Tai Pentref Helen am noddi'r gwersi dawnsio creadigol yn yr ysgol. Bydd Cwmni Dawns Gwynedd yn ymweld â ni unwaith yr wythnos i roi gwersi dawnsio creadigol i ddosbarth 4 y tymor hwn. Bydd blwyddyn 3 yn cael y gwersi hyn ar ôl y Nadolig a'r rhain eto wedi'i noddi gan Gymdeithas Tai Pentref Helen.

Chwaraeon: Bu plant dosbarth Mr ab Elwyn yn nofio bob bore dydd Mercher. Bydd dosbarth Mrs Jones yn mynd ar ôl y Nadolig a dosbarth Miss Jones ar ôl y Pasg.

Mae'r ddau dîm 5-bob-ochr yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth George McLean ar y 5ed a 6ed o Ragfyr.

Ffair Lyfrau: Cynhaliwyd Ffair Lyfrau lwyddiannus yn yr ysgol ddydd Mawrth, 26 Tachwedd, gyda'r staff a'r plant hynaf yn gyfrifol am y prynu a'r gwerthu. Diolch i Siop y Pentan am drefnu'r llyfrau Cymraeg.

Noson Bingo: Cynhaliwyd Noson Bingo ar 8 Tachwedd a mwynhawyd noson gymdeithasol ddifyr iawn, wedi'i threfnu gan y Gymdeithas Rhieni/Athrawon.

Pantomeim: Bydd holl blant yr ysgol yn cael y cyfle i fynd i weld y pantomeim 'Robin Croeso' yn Theatr Gwynedd, ddydd Iau, 19 Rhagfyr.

Rhai o blant Ysgol Gwaun Gynfi a enillodd wobr am astudiaeth o Ddeiniolen "Ddoe a Heddiw".

Y Seindorf: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill yr ail wobr ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru ddiwedd y mis diwethaf, ac yn arbennig i Euros Williams enillodd Dlws am yr unawdydd gorau yn ei adran. Mae Euros yn astudio Cerdd yng Ngholeg Salford. Bu'r Seindorf yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn yr Oriel yn Llanberis ddydd Sul, 1 Rhagfyr, ac ystod y prynhawn cyflwynwyd baneri newydd yn rhodd i'r Seindorf gan gwmni First Hydro, ein noddwyr. Hoffem ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb yn yr ardal.

Plaid Cymru: Enillwyr Clwb 100 mis Rhagfyr yw – £10: Miss Elen Wyn Jones, Tyn y Fawnog, Dinorwig; £5: Mrs Helen Sutherland, Pen-y-bont.

Diolchiadau:

Dymuna Tecwyn ac Ellen, 11 Cefn Elan, Llanrug, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Rhys Ellis, ar 1 Hydref.

Dymuna Mary Wyn, John a Dyfan, Ceris, ddiolch o galon am y caredigrwydd a'r gynhaliaeth ddi-flino a dderbyniasant ar yr achlysur trist o golli mam a nain annwyl, sef Gwen Lloyd Roberts, Awel-y-mynydd. Diflannodd y bwrlwm tros nos ond bydd cysur yn y cofio. Mae'n dyled a'n diolch yn fawr i bawb.

Un o'r baneri newydd a gyflwynwyd i'r band gan First Hydro.

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYDD Y CILGWYN CARMEL

NOS WENER, CHWEFROR 21 yn NEUADD CARMEL am 6 o'r gloch

Testunau llenyddol:
Y Gadair: Y Trysor *neu* Trysorau
Englyn: Beddargraff Reffari
Parodi: Unrhyw gerdd enwog
Brawddeg: PENYGROES
Limrig: *Mi briododd 'na foi o Lanllyfni*
Am y degfed tro yn ôl y stori
Hefo gwraig o Sir Fôn
Ac yn ôl pob sôn

Cyfansoddiadau i law erbyn 31 ionawr i Elfyn Williams, 9 Rhes Bryn Hyfryd, Carmel, neu Owain Glynne Davies, Bryn, Carmel.

CALENDR 1997

HEN LUNIAU'R ARDAL

Llinell wag ar gyfer pob dyddiad i sgwennu mân nodiadau.

Dwyieithog.

Pris: £2.50

Yr elw tuag at Gronfa Canolfan Llanrug

Ar werth mewn siopau lleol neu cysylltwch â:
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
(01286) 673515

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Awdur arall: Dyma goron ffrwyth ymchwil oes Dr Gerain Bowen, Stad Glandŵr — *Y Drych Kristnogawl.* Y cyhoeddwyr yw Gwasg Prifysgol Cymru a'r pris yw £35. Mae Geraint Bowen yn awdur toreithiog, llenor creadigol, yn olygydd ac ysgolhaig. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesoedd Canol; Hanes Gorsedd y Beirdd* (ar y cyd â'i wraig, Zonia Bowen); *Y Gwareiddiad Celtaidd; Golwg ar Orsedd y Beirdd; Bro a Bywyd: W. J. Gruffydd;* a chyfrol o hunangofiant, *o Groth y Ddaear.*

Cyngor Cymuned: Ganrif yn ôl bu i Syr William Preese gyfarfod â Guiliemo Marconi o'r Eidal a'i ricriwtio i weithio hefo fo ar ddarganfyddiad newydd Preese, sef y telegraff di-wifren. I goffáu'r digwyddiad mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i dalu am godi cofeb — gyda chaniatâd Wenna Wynnstanley, perchennog y tŷ — ar y wal ger y fynedfa i Benrhos. Bydd manylion pellach ynglŷn â dad-orchuddio'r gofeb.

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio i adeiladu bloc o doiledau, gyda tho llechi Cymreig, rhwng Canolfan y Geidiaid a'r cae pebyll gyferbyn.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor i gyfrannu tuag at gostau cynnal a chadw maes chwarae i'r plant lleiaf ar y cyd â mudiadau eraill, petai Cyngor Gwynedd yn medru cwrdd â'r gost o brynu'r tir a chreu'r man chwarae.

Cytunwyd mewn egwyddor hefyd i osod arian o'r neilltu yn flynyddol er sefydlu cronfa ar gyfer cyfrannu at gost addasu Capel y Pentref yn addoldy ac yn neuadd gymunedol.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr Ŵyl a Suliau mis Ionawr —

Rhagfyr:

22. Gwasanaeth Carolau — Dafydd Iwan (5.30)

Ionawr:

5. Parchg W. R. Williams (2)
12. Mr Glyn Owen (5.30)
19. Parchg W. R. Williams (2)
26. Parchg Emrys Thomas (2)

Croeso i bawb i ymuno â'r gynulleidfa ar unrhyw adeg.

Dathliadau'r Nadolig: Erbyn hyn mae ein coeden Nadolig wedi'i chodi a'i goleuo. Mae'r penisynwyr y pentref hefyd wedi derbyn ychwanegiad at eu pensiwn ar gyfer eu galluogi i fwynhau'r tymor o ddathlu. Bydd parti Nadolig ac ymweliad Siôn Corn ar gyfer y plant lleiaf (ysgol gynradd ac iau) yng Nghlwb Glangwna, nos Lun, 23 Rhagfyr am 5 o'r gloch. Rhoddir anrheg hefyd i blant ysgolion uwchradd. Diolch i bawb sy'n cyfrannu i dynfa fisol y pentref a Chyngor Cymuned Waunfawr i alluogi pwyllgor Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro i ariannu ychydig o oleuni a hwyl dros dymor y dathlu.

Dymunir fendithion tymor y Nadolig a blwyddyn newydd dda i holl brynwyr a darllenwyr Eco'r Wyddfa. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth parhaol — yn arbennig y plygwyr.

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
FFAIR GAEAF
AMGUEDDFA LECHI CYMRU LLANBERIS
Rhagfyr 27ain & 28ain 1996 11am - 4pm
Dawnswyr Caernarfon
Jyglo Cyllill / Sgiliau syrcas
Paentio Gwynebau
Clywed Stori
Eric Maddern / Angharad Tomos
Rhian Cadwaladr
Cerflunio Balwnau
Helfa Drysor
Seindorf Arian Llanrug
Côr Lleisiau Bro Ogwen
Hollti a Naddu Llechi
(holltwch eich llechen eich hun)
Gweithdy & Arddangosiad
Castio Pres
Cawl/Bwyd/Diod yn y Caban
(Caffi Crefftau Fferm Cae Coch)
Crefftau amrywiol
Arddangosfa Nadolig
gan Blant Ysgol Gymuned
Penisarwaun
(1-31 Rhagfyr 1996)

CYFARCHION NADOLIG O
GAEATHRO

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GWALIA GAREJ
CAEATHRO
Ffôn: 673096
M.O.T • TRWSIO CEIR
GWASANAETH
TORRI LAWR 24 AWR

ATODIAD EISTEDDFODAU'R FRO 1996

Enillydd Tlws Ieuenctid Eisteddfod Ysgol Brynrefail

GWRTHDARO

PROBLEMAU ARIAN

gan Ceri O. Hughes

'Pam lai?' gwaeddodd Catrin. 'Mae Sioned wedi cael pâr!' cwynodd. Roedd hi eisiau pâr newydd o 'sgidiau. 'Dim ond pâr o 'sgidiau,' meddyliodd. 'Mae Mam mor annheg! Mae gan bawb arall rai.'

Eisteddodd ei mam ar waelod y grisiau a'i phen yn ei dwylo. 'Ti'n gwybod eu bod nhw'n rhy ddrud. Alla ai ddim fforddio gwario wythdeg o bunnau bob tro rwyt ti eisiau pâr newydd o 'sgidiau! Paid a gwneud imi edrych fel gelyn bob tro. Mi fuaset ti'n eu cael nhw 'sa gennyf i lawer o bres, ond sgen i ddim, nac oes?'

'Ond, Mam!'

'Ond Mam be?' meddai'n flin. Roedd Mrs Lewis yn edrych fel pebai am ddechrau crio, ac roedd ei thalcen wedi'i grychu a'i hwyneb yn goch. Pam oedd rhaid i Catrin wneud ei bywyd mor anod? Roedd hi'n caru Catrin, ac roedd yn gas ganddi ei gweld yn flin fel hyn. Ond beth arall allai hi ei wneud? Prin fyddai digon o arian ganddi i brynu bwyd yr wythnos honno os gwariai hi'r arian.

' 'Dach chi mor gas!' gwaeddodd Catrin gan edrych fel pebai'r byd ar ben. 'Yn gynta, mae Dad yn cael crash ac yn bloeddio arna i am ddim rheswm pan es i'w weld o yn yr ysbyy, ac wedyn penderfynodd Lisa ei bod hi ddim am fod yn ffrindiau hefo fi mwyach, doedd fy mhrofion ddim yn dda o gwbl, a rŵan rwyt ti'n flin hefo fi — jest achos fy mod i eisiau pâr o 'sgidiau! Dyna'r cyfan dwi eisiau!' Roedd hi'n ddistaw am eiliad. 'Pam fod rhaid i bopeth fynd o'i le?' meddai'n ddistaw y tro yma, a'r dagrau hallt yn rhedeg i lawr ei hwyneb.

'Ac rwyt ti'n meddwl fod fy mywyd i'n fêl i gyd? Mae'n rhaid i mi weithio'n galed i gael pres i'r teulu, ac yn galetach nawr gan fod dy dad yn yr ysbyty,' gwaeddodd Mrs Lewis. 'A rŵan mi wyt ti eisiau pâr o 'sgidiau pan ti'n gwybod yn ian na fedra i eu fforddio nhw . . .'

'. . . Ol reit! Ol reit!' torrodd Catrin ar ei thraws, 'Does dim rhaid iti roi'r bgai arna i am dy fod hi hefo joban wirion, nac oes?'

'Dos allan o 'ngolwg i, y jolpan!' llefodd, 'Dos!'

Brasgamodd Catrin allan drwy'r drws a'i wthio'n glep ar ei hôl. Aeth i gyfeiriad y parc. Roedd hi'n liw nos ac yn oer iawn, ond doedd Catrin ddim wedi sylwi ar yr oerni gan ei bod mor flin hefo'i mam. Cerddodd i mewn drwy giât y parc. Daeth llais o rywle, 'Ti isio peth?'

'P . . . pwy sy 'na?' gofynnodd, wedi dychryn.

Camodd y dyn i mewn i'r golau stryd oren oedd yn goleuo rhan o'r parc. Roedd ganddo fag bach hefo tabledi ynddo.

'Am ddim,' meddai. 'mi gei di un gen i. Os wyt ti'n ei hoffi o, tyrd yn ôl mewn deuddydd ac mi rodda' i fwy iti am ddegpunt. Iawn?'

'Be' ydi o?' gofynnodd Catrin.

'Be' di'r ots? Cymer un. Beth sy gen ti i'w golli?' meddai'n slei. 'Wrth yr olwg sy ar dy wyneb dwyt ti ddim yn hapus iawn, nac wyt?'

Cymerodd Catrin y dabled a cherddodd y dyn i ffwrdd. Edrychodd Catrin ar y tabled am eiliad cyn ei llyncu.

Ar ôl tipyn dechreuodd popeth nofio o flaen ei llygaid a theimlodd fel pebai yn hedfan, teimlai'n sâl hefyd. Roedd yr awyr yn biws a'r golau stryd wedi troi'n law, ond doedd o ddim yn wlyb. Roedd pethau rhyfedd yn hedfan drwy'r awyr. Beth oedd yn digwydd? Aeth popeth yn ddu wrth iddi deimlo rhywbeth yn taro ei phen.

Deffrodd wrth y parc, ychydig i lawr y stryd o flaen postyn golau, ble y tarodd hi ei phen. Cofiodd am beth ddigwyddodd. Cofiodd fel yr oedd hi'n ofnus, ond yn hapus yr un pryd. Roedd y tabled yn gwneud iddi anghofio popeth.

Aeth adref yn araf ac agorodd ddrws ei thŷ yn ofalus. Roedd bron a chyrraedd pen y grisiau pan . . .

'Catrin Mai Lewis! Ble ar y ddaear wyt ti wedi bod? Wyt ti'n gwybod faint o'r gloch ydi hi? Wel? Wyt ti?'

Anwybyddodd Catrin ei mam a chamodd tuag at ddrws ei llofft.

'Paid ti a cherdded oddi wrthyf pan ydw i'n siarad hefo chdi, wyt ti'n clywed? Ateba fi. Lle wyt ti wedi bod?'

'Lle 'm byd,' atebodd Catrin. Doedd ganddi mo'r awydd i ddadlau hefo'i mam. Roedd hi'n teimlo'n gymysglyd. Roedd y dabled wedi ei drysu. Faint o'r gloch oedd hi, meddyliodd? Doedd hi ddim yn meddwl ei bod wedi bod allan mor hir a hynny. Edrychodd ar ei wats. Roedd hi wedi bod allan am ddeuddeg awr! Doedd dim rhyfedd bod ei mam yn flin. Ond doedd dim ots gan Catrin. Roedd hi'n teimlo'n chwil ac roedd hi'n cofio rhywbeth am y pethau'n arnofio yn yr awyr. Doedd arni hi ddim eisiau cofio, ond roedd y lluniau'n dal i ddod. Roedd Mrs Lewis yn dal i floeddio arni, ond crwydrodd Catrin i'w hystafell a disgynnodd ar y gwely wedi blino. Aeth i gysgu.

* * * *

'Wedi dod i brynu mwy?' holodd llais slei wrth i sŵn traed ddod tuag at Catrin.

Roedd hi'n sefyll yn y golau oren gan syllu allan i'r tywyllwch wrth geisio gweld y dyn. Daeth trwy giât y parc tuag ati. Rhoddodd hi'r degpunt iddo a gwthiodd yntau'r pecyn bychan i'w llaw. Cerddodd i ffwrdd heb ddweud gair. Rhoddodd Catrin y dabled fechan yn ei cheg.

Roedd popeth yn od. Y tro hwn roedd hi'n teimlo'n ofnus iawn. Doedd hi ddim yn 'nabod dim wrth grwydro o gwmpas. Doedd hi ddim hyd yn oed yn cofio'i henw. Roedd hi'n chwysu ond yn oer. Roedd hi'n gweld pethau arswydus ac roedd hi'n ceisio rhedeg oddi wrthynt, ond roeddynt yn aros yno. Roedd hi'n dechrau mynd i banig. Dechreuodd droi a throi fel top i geisio cael gwared o'r pethau oedd yn digwydd. Disgynnodd yn gam a theimlodd y boen yn saethu i fyny ei braich. Roedd hi'n dal i weld pethau nad oedd hi eisiau eu gweld. Roedd yn crio erbyn hyn. Roedd arni ofn. Roedd popeth mor rhyfedd iddi. Dechreuodd sgrechian a chrynu, a'r dagrau'n llifo i lawr ei hwyneb. Gwelodd blismyn yn dod tuag ati, ond fe drodd rheiny'n anghenfilod erchyll. Rhoddwyd hi yng nghar yr heddlu, a oedd fel ceg anghenfil iddi. Roedd hi'n dal i weiddi nes iddi lewygu.

'Roeddet ti'n lwcus iawn.' Deffrodd Catrin gan glywed llais doctor.

'Cafodd yr heddlu hyd iti yn y parc yn sgrechian.'

Dechreuodd Catrin gofio popeth. Yr anghenfilod a'r teimlad o fod ar goll.

'Mi fyddi di'n iawn mewn tipyn,' meddai'r doctor.

Daeth sŵn rhedeg i lwar y coridor.

'Catrin!' Llais Mrs Lewis ydoedd.

'Wyt ti'n iawn?' gofynnodd, gyda'r dagrau'n rhowlio i lawr ei bochau.

'Ydw, dwi'n meddwl,' atebodd Catrin yn wan.

'Fe gymerodd hi gymysgedd o gyffuriau,' meddai'r doctor. 'LSD oedd y rhan fwyaf. Fe ddylai hi fod yn iawn ar ôl tipyn, ond bydd yn cael ôl-fflachiadau weithiau, dwi'n meddwl. Efallai y bydd ei chymeriad yn newid tipyn hefyd, mae arna'i ofn.'

'Ond mi fydd yn iawn?' gofynnodd Mrs Lewis yn bryderus.

'Rydw i'n gobeithio y bydd hi,' daeth yr ateb.

Cafodd Catrin fynd adref ar ôl tipyn gyda'i braich mewn plaster. Roed hi'n dioddef o iselder ac roedd ei chymeriad yn wahanol. Byddai'n cymryd amser maith iddi ailadeiladu ei bywyd fel yr oedd cynt — os oedd hynny'n bosib.

Enillydd Tlws yr Ifanc Eisteddfod Bentref Llanrug

CAMGYMERIAD

gan SIÂN HELEDD GREEN

Wna i byth anghofio'r diwrnod hwnnw tra bydda i byw. Y diwrnod heulog ond rhewllyd, er ei bod yn fis Mehefin. Roedd hi'n ddydd Sadwrn, a chlamp o haul llwynog mawr yn syllu o'r awyr i lawr arnom ni yn dawnsio o gwmpas fel Indiaid Cochion gan drio, ond yn ofer, cadw'n gynnes. Rhwbiai Meleri ei dwylo yn erbyn ei gilydd i gadw ei bysedd rhag iddynt droi'n biws.

'Meleri, 'sgen i ddim 'mynedd aros yn yr oerni drwy'r dydd,' meddwn yn ddiamynedd. 'Be' am fynd adre i edrych ar y cylchgrawn 'nes i ei brynu ddoe. Dwi'n siŵr bod 'na lun o Brad Pitt ynddo fo'n rhywle, sti.'

'Mae'n siŵr dy fod ti'n iawn, does gen i ddim 'mynedd disgwyl am Owain drwy'r dydd. Er, f'aswn i'n lot hapusach ar ôl gweld ei wyneb dim ond am eiliad. Dim ots os f'asai Lynwen hefo fo hefyd, yn gafael yn ei law ac yn fflicio cydyn o wallt lliw llygoden dros ei hysgwydd. Dwn i ddim be' mae o'n ei weld ynddi, sti, yn tarfu ar bawb a phopeth wrth iddi gnoi'r gwm-cnoi yn swnllyd ac agor ei cheg led y pen. Mae'n ddrwg gen i, es i am dro trwy ddrws fy nychymyg unwaith eto. Mae'n well i ni fynd cyn rhewi'n gorn.'

Roeddwn i'n iawn, safai Brad Pitt o flaen y camera yn gwenu'n braf ar un o dudalennau'r cylchgrawn. Gadewais Meleri'n glafoerio dros y llun ac es i wneud paned o siocled poeth i ni'n dwy.

Edrychais drwy'r ffenest y gegin gan ddisgwyl gweld Persi, ein ceiliog, a Martha Drafferthus yr iâr, yn rhedeg o gwmpas yr ardd yn wyllt neu'n chwilio am ambell bry' genwair ymysg y pridd. Doedd Martha na Persi i'w gweld yn unman.

Rhedais allan i'r ardd, fy llygaid yn chwilio pob twll a chornel o'r ardd. Tybiais eu bod wedi dianc o'r ardd drwy dwll yn y ffens yn rhywle. Clywais sŵn. Doi'r sŵn o sied yr ieir a sylwais fod drws y sied ar gau. Mam bach! Roeddwn wedi anghofio agor y drws i Persi a Martha yn y bore. Yn waeth fyth, roeddwn wedi anghofio rhoi bwyd iddyn nhw!

Rhedais i'r tŷ i nôl y bwyd ieir a rhedais yn ôl at y sied gan agor y drws led y pen fel bod Perso, a'i blu crand, yn cael digon o le i gerdded allan yn swel. Tolltais yr hadau brown i mewn i bowlen yr ieir a sicrhau bod ganddynt ddigon o ddŵr i'w yfed ac yna cerddais yn ôl i'r tŷ gan deimlo'n eithaf euog. Ciliodd fy euogrwydd dipyn bach wrth feddwl am y rhwyg mawr a ddarganfyddais echnos. Roedd un o'r ddau wedi rhwygo fy nghrys amryliw, sidan, a gostiodd ddeugain punt mewn sêl!

Yr ast hunanol i mi. Blin hefo'r ieir am rwygo fy nghrys. 'Sgwn i sut maen nhw'n teimlo tuag ata' i yn awr wrth eistedd ar gymylau yn y nefoedd am eu lladd. Yn fy mrys roeddwn wedi estyn bocs o wenwyn llygod i'r ieir. Doeddwn i ddim yn teimlo hanner mor euog ddoe ac yr ydw i nawr. Wedi drysu'n lân, ac yn brysio i fynd allan o'r oerni, roeddwn i wedi lladd dwy iâr ddiniwed. Mae'n swnio'n ffordd ddigri i fynd i'r nefoedd, ond i mi, mae'n gywilyddus. Hogan hunannol yn lladd dwy iâr. Wrth i mi drio cysuro fy hun ceisiaf ddweud mai dim ond camgymeriad oedd y cwbl. Un camgymeriad mawr a laddodd ddwy iâr ar yr un pryd.

Enillydd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail

HENAINT

gan BETHAN EVANS

'Tomi bach! Dwi di cael job i chdi, washi!' Dyna oedd geiriau cyntaf Mam pan gerddodd drwy'r drws ffrynt dair wythnos yn ôl. Gymrish i'm rhyw lawer o sylw ohoni, fy mhrif uchelgais ar y funud honno oedd gweld os oedd yr 'Incredible Hulk' yn lladd y dynion drwg. Hynny a chanolbwyntio ar beidio â cholli'r 'Chickn Chow Mein' parod dros fy nillad. Ac, eniwê, doeddwn i ddim angen job, ennill y loteri nos Sadwrn oeddwn i am ei wneud. Ond, job a fu hi, gweithio fatha clînar yn hôm hen grocs Anti Maureen, chwaer fawr posh Mam. Dwi'm yn nabod Anti Maureen yn iawn, fe bwdodd hi am bod Mam wedi priodi dyn 'working class', ond be dwi'm yn ddallt ydi fod Dad ddim yn 'working class' — mi gollodd o ei job bum mlynedd yn ôl ac ers hynny mae o wedi bod yn byw yn y 'Crown' lawr lôn, felly sut mae o'n un o'r 'working class' dwn i ddim.

Eniwê, y job yndê. Llnau ar ôl hen grocs yn hôms Bryn Hyfryd (neu hôm Anti Maureen) oedd y job, a no wê roeddwn i am fynd i llnau napi rhyw hen ddyn neu helpu un arall i fynd i'r toiled, dwi'n cael digon o drafferth gwneud hynny'n hun! Felly mi ddudish i wrth Mam, 'No wê dwi'n mynd i hôm y blydi snob 'na a'm bod i yn rhy dda i roi 'sponge bath' i rhywun.' Ond, slap ges i, a phregath am sut y byswn i byth yn cael job arall am bod gyno fi ddim GCSE's neu rwbath, ond ma hi'n 'rong — mae gyno fi ddau GCSE's hefo gradd 'G' am 'good', dyna be ddeudodd taid pan welodd o'r papur. 'U-bedol' ges i yn y tri arall nes i eistedd.

Felly dydd Llun wedyn, ffwrdd â fi i'r hôm yn fy nhrowsus gora a crys priodas Dad (rheini ydi'r unig rai da yn y tŷ) hefo'r goler fawr sy'n cyrraedd i lawr at y trydydd botwm. Lle neis oedd yr hôm, efo bloda a ballu yn y ffrynt a dwy hen ddynas, un hefo gwallt piws a'r llall hefo dim llawar heblaw am fwtash, yn eistedd ar fainc wrth y drws ffrynt. Gofynais i'r un hefo'r gwallt piws lle roedd Mrs Anti Maureen, ond yr unig beth nath hi oedd dechra canu, 'When I'm Cleaning Windows', felly dyma fi'n gofyn i'r un hefo'r mwstash.

'Pwy 'dach chi?' gofynnodd.

'Tom bach dwi,' atebais innau.

'Wili, Wili bach wedi dod yn ôl i chwara rhyfal hefo fi? Tyrd Wili, ma'r jyrmans yn dwâd.' Felly ffwrdd â ni i guddio y tu ôl i goeden yn y cefn, wedyn 'ro'n i'n gorfod dringo'r goeden er mwyn bod yn 'look-out' a hithau yn saethu'r jeris yn y gwaelod hefo'i ambarél. Bore braf oedd hwna, mi ddudodd hi wrtha i mai spei oedd hi. Roedd hi wedi cael ei rhoi yn yr hôm ar ôl cael ei dal gan y jeris ac roeddan nhw'n dod i'w gweld hi weithia ac yn smalio eu bod nhw'n perthyn iddi, jyst i wneud iddi siarad a dweud lle roedd y trŵps yn cuddio (mi ddudodd hi wrtha i eu bod nhw'n cuddio yn y twll-dan-grisia gan ddisgwyl 'invasion').

Ym mhen y goeden roeddwn i pan ddaeth Anti Maureen allan a'n gweld ni yno yn chwarae. Mi aeth hi'n nyts.

'Be ti'n dda yn fan'na, y llywath?' gwaeddodd gan droi'n biws.

Gyrrodd fi i nôl 'bedpan' i Mr Rogers sy'n yr ystafell ary pen, neu rywbeth fel'na. Felly, ffwrdd â mi i nôl y bedpan i'r utility room, mynd at Mr Rogers a'i rhoi hi iddo — ond yn rhy hwyr. Y job nesa oedd cael Mr Rogers allan o'r gwely, newid ei byjamas o, newid ei ddillad gwely o ac wedyn ei roi o yn ei ôl yn y gwely. Wel, sôn am strach!

Doedd newid pyjamas yr hen ddyn ddim yn rhy ddrwg 'blaw doedd o'm yn gallu siarad Cymraeg, a dwi'm yn rhyw dda am siarad Saesneg tasai hi'n dod i hynny. Roedd 'na ddigon o 'lift your coes' a 'dyma fo your trôns', ond doedd yr hen foi'n dallt dim, felly mi adewais iddo newid 'i hun gystal ag y gallai tra'r oeddwn i'n stryffaglu hefo newid y dillad gwely. A bod yn onest, doeddwn i erioed wedi newid dillad gwely o'r blaen, a bu'n rhaid i mi ddringo y tu fewn i'r sheet er mwyn cael y cwilt glân i mewn. Penderfynodd yr hen ddyn fy helpu a chaeodd y botymau ar waelod y 'duvet' tra roeddwn i'n dal i mewn ynddo. Cerddodd Anti Maureen i mewn ar yr adeg honno gan weld yr hen ddyn yn trio dringo allan o'r ffenest a rhyw lwmp mawr gwyn yn rhegi a stryffaglu ar y gwely.

Ond gand fod Anti Maureen mor glên mi roddodd 'un chance arall' imi. Y tro yma yr unig beth yr oeddwn i'n gorfod ei wneud oedd brwsio'r llawr y tu allan i'r drws ffrynt. Hel y dail ar y llawr yn yr ardd gefn. Helpu Mrs Williams yn y 'living room' i roi'r cylchgronau mewn 'alphabetical order'. Cadw'r brwsys a mopiau yn y gegin yn y twll-dan-grisiau (lle roedd y trŵps).

Felly i ffwrdd â mi, brwsio'r dail yn yr ardd gefn. Hel y cylchgronau o'r 'living room' a'u rhoi nhw ar y stepan drws ffrynt, mynd a'r brwsys a'r mops i'r 'living rom'. Rhoi Mrs Williams yn y twll-dan-grisiau — mae'n rhaid 'i bod hithau'n un o'r trŵps. Ac yn olaf, mynd adra i wylio'r 'Incredible Hulk' a bwyta'r TV dinner.

Ffoniodd Anti Maureen y noson honno a deud wrth mam fod yr hôm yn cael ei gau am ei bod hi'n cam-drin yr hen grocs. Mi ffeiniodd rhyw social worker Mrs Williams yn y twll-dan-grisiau. A doeddwn i ddim yn gorfod gweithio yno mwyach. Bechod hefyd gan fod chwarae rhyfal a jyrmans yn well na gwylio'r 'Incredible Hulk' unrhyw ddydd.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd, yn y Ganolfan. Dyma'r canlyniadau:

Cyfarfod y Pnawn

CERDD:

Unawd oed cyn Ysgol: 1, Enfys a Meleri; 2, Arwel, Tomos a Sam; 3, Cara a Jason. **Unawd dosbarth yr Hafod:** 1, Meurig; 2, Huw a Dewi; 3, Ilid a Sion. **Unawd Bl. 1 a 2:** 1, Arwel; 2, Mererid, Gwion a Ffion; 3, Dafydd, Elidyr, Marc a Rhydian. **Unawd Bl. 3 a 4:** 1, Nia; 2, Arawn a Caryl; 3, Iwan, Guto a Beth. **Unawd Bl. 5 a 6:** Ioan. **Parti Canu Cynradd:** 1, Parti'r Pops. **Unawd Cân Werin Cynradd:** 1, Ioan; 2, Guto. **Parti Cerdd Dant dan 12:** 1, Parti Elin a Guto. **Cân Actol Meithrin:** 1, Ysgol Feithrin Waunfawr; **Cân Actol/Sgets Cynradd:** 1, Parti John Evans; 2, Parti'r Picnic. **Unawd Piano hyd at Bl. 4:** 1, Guto; 2, Iwan a Dylan; 3, Nia, Beth a Wenna. **Unawd Piano Bl. 5 a 6:** 1, Ieuan; 2, Ioan. **Unawd Recordydd Bl. 3 a 4:** 1, Guto; 2, Wenna; 3, Beth. **Unawd Recordydd Bl. 5 a 6:** 1, Esyllt; 2, Ioan. **Parti Recordydd Cynradd:** 1, Parti Si-hei-lwli; 2, Parti croen y ddafad felen a Parti Beethoven. **Unawd offeryn chwyth:** 1, Iwan; 2, Ieuan; 3, Esyllt. **Grŵp offerynnol Cynradd:** 1, Parti Ioan, Ieuan ac Iwan; 2, Esyllt ac Elin. **Parti Dawnsio Gwerin Cynradd:** 1, Parti'r llwyau pren; 2, Parti'r genod del.

LLEFARU:

Oed cyn Ysgol: 1, Meleri ac Efnys; 2, Cara, Sam, Arwel, Tomos a Jason. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Dewi; 2, Ilid a Meurig; 3, Sion a Huw. **Bl. 1 a 2:** 1, Elidyr; 2, Owain; 3, Gwion, Marc a Mererid. **Bl.. 3 a 4:** 1, Pryderi; 2, Iwan; 3, Arawn. **Bl. 5 a 6:** Llion; **Parti dan 12:** 1, Siwpyr Pump; 2, Yr Aristocats; 3, Y Sosej.

LLÊN:

Bl. 3: 1, Caryl; 2, Arawn; 3, Charline a Liam. **Bl. 4:** 1, Emma; 2, Guto; 3, Dylan. **Bl. 5:** 1, Esyllt; 2, Rhion; 3, Zoe. **Bl. 6:** 1, Ieuan; 2, Sara; 3, iwan. **Chwilio am eiriau o'r gair 'Cyfrifianell':** 1, Elin.

ARLUNIO:

Oed cyn Ysgol: 1, Sam; 2, Meleri; 3, Tammy. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Jade ac Olivia; 2, Charlie a Caryl; 3, Victoria. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Dafydd; 2, Elidyr; 3, Gethin. **Dosbarth Mrs Williams:** 1, Carla; 2, Deion ac Arawn; 3, Claire. **Dosbarth Mr Williams:** 1, Jason a Trefor; 2, Guto; 3, Ela. **Bl. 5:** 1, iwan Rhys; 2, Diane; 3, Fiona. **Bl. 6:** 1, Sara; 2, Henry; 3, Ceirion.

GWAITH LLAW:

Dosbarth yr Hafod: 1, Caryl, Olivia ac Owain; 2, Liam a Meurig; 3, Amy a Sion. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Elidyr Glyn; 2, Sara; 3, Aled ac Olivia. **Dosbarth Mrs Williams:** 1, Mererid a Rebecca; 2, Gemma a Deion; 3, Beth a Lesley. **Dosbarth Mr Williams:** 1, Jason; 2, Guto; 3, Trefor a Wenna. **Bl. 5:** 1, Elgan; 2, Ceri; 3, Fiona, Zoe a Liam. **Bl 6:** 1, Henry; 2, Timothy; 3, Sara.

COGINIO:

Oedran Cynradd: 1, Meleri, Guto ac Ioan.

Cyfarfod yr Hwyr

CERDD:

Unawd Gymraeg dros 19: 1, Eurwyn; 2, Wmffra; 3, Catrin. **Cân Werin dros 19:** 1, Wmffra; 2, Catrin a Sioned; 3, Alun a Jina. **Unawd Cerdd Dant dros 19:** 1, Catrin. **Parti Cerdd Dant agored:** 1, Hogia'r Waun; 2, Parti'r Merched. **Deuawd dros 19:** 1, Eurwyn a Gwenda; 2, Catrin a Jina; 3, Wmffra ac Alun. **Emyn dros 40:** 1, Wmffra; 2, Alun. **Unawd Piano Bl. 10, 11 ac o dan 19:** 1, Llio; 2, Heledd. **Unawd Piano dros 19:** 1, Catrin. **Sgets/Cân Actol dros 19:** 1,Trwyna' Twll. **Grŵp Pop dros 19:** 1, Alma; 2, Mrs Mops; 3, Toffis. **Eitem Plygain agored:** 1, Alun a Hogia'r Waun. **Parti Meibion/Merched neu Gymysg:** 1, Parti'r Merched; 2, Hogia'r Waun.

LLEFARU:

Bl. 10, 11 ac o dan 19: 1, Llio. **Dros 19:** 1, Myra; 2, Wmffra. **Darllen darn heb ei atalnodi dan 19:** 1, Lowri; 2, Llio. **Darllen darn heb ei atalnodi dros 19:** 1, Gwynn; 2, Haydn; 3, Myra; 4, Iola ac Irene. **Darllen darn o farddoniaeth roddwyd ar y pryd:** 1, Llio; 2, Lowri. **Deialog dros 19:** Catrin a Jina. **Parti dros 19:** 1, St. Gelli.

LLÊN:

Gwneud brawddeg o 'Yr Antur': 1, Heulwen Huws. **Ymateb i lythyr mewn potel:** 1, Jina Gwyrfai. **'Henaint ni ddaw . . .'** 1, Jina Gwyrfai. **Parodi:** Eurig Wyn. **Llinell Goll:** Rhian Ellis.

GWAITH LLAW:

Gwaith coed, metel, neu unrhyw, Bl. 10 hyd at 19: 1, Rhys Huws; 2, Rhys Huws; 3, Elin Evans a Derfel Parry. **Gwau agored:** 1, Gwenno Hughes; 2, Glenys Williams. **Gwnïo agored:** 1, Delyth Jones. **Arlunio Bl. 7, 8 a 9:** 1, Ifan Morgan. **Arlunio dros 19:** 1, Menna McDaid. **Caligraffi agored:** 1, Jina. **Ffotograffiaeth agored:** 1, Jill Brown; 2, Delyth Jones; 3, Pat Parry. **Cystadleuaeth Cyfrifiadurol Bl. 10, 11 ac o dan 19:** 1, Derfel Parry.

COGINIO:

Bl. 7, 8 a 9: 1, Steffan Elidir. **Bl. 10, 11 hyd at 19:** 1, Elin Evans. **Agored. Pate:** 1, Jina; 2, Glenys Williams. **Bara Brith:** 1, Glenys; 2, Gwenno Hughes. **Cacen Afal:** 1, Rhian Evans; 2, Heulwen Hughes; 3, Jina a Glenys. **Quiche Lorraine:** 1, Heulwen; 2, Glenys; 3, Jina.

Dymuna'r pwyllgor gydnabod gwaith y beirniaid — Cerdd: Mrs Falmai Pritchard; Adrodd a Llên: Mrs Madge Huws; Arlunio a Gwaith Llaw: Mrs Ann Elfryn a Mrs Sioned Glyn; Gwyddor Tŷ, Gwnïo a Gwau: Mrs Pat Jones; y cyfeilyddion: Mr Iwan Ellis a Mrs Ann Marston; yr arweinyddion: Mrs Irene Roberts, Mrs Marion Iwan, Mr Norman Williams a Mr John Gwynedd Jones; y llywyddion: Mr Euros Wyn a Mr a Mrs John Cadwaladr; a phawb arall a fu'n gymorth i sicrhau llwyddiant yr eisteddfod.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWUN GYNFI

(Deiniolen a'r Cylch)

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, 26 Hydref. Y Beirniaid oedd — Cerdd a Cherdd Dant: Mrs Mary Jones. Adrodd a Llên: Selwyn Griffith. Dyma'r canlyniadau:

LLEFARU:

Ysgol Feithrin: 1, Zackery; 2, Kelly; 3, Iwan. **Bl. 0:** 1, Laura; 2, Ashley; 3, Ffion. **Bl. 1 a 2:** 1, Bronwen; 2, Gwenllian; 3, Caryl. **Bl. 3 a 4:** 1, Kayleigh; 2, Manon; 3, Emma. **Bl. 5 a 6:** 1, Donna. **Dan 15:** 1, Jennie; 2, Michelle. **15-21:** 1, Alaw; 2, Lyndsey. **Darllen o'r Ysgrythur i ddysgwyr, agored:** 1, Miss Moeller. **Adrodd digri:** 1, Michelle; 2, Jennie ac O.P. **Prif Adroddiad:** 1, Meira Turner; 2, O.P. **Cwpan ymgais orau dan 12:** Donna Lewis.

LLÊN:

Ysgol Feithrin: 1, Zackery; 2, Nathaniel; 3, Megan. **Bl. 0:** 1, Stephanie; 2, Gwydion; 3, Ben. **Bl. 1:** 1, Sioned; 2, Bronwen; 3, Sophia. **Bl. 2:** 1, Gethin; 2, Simon; 3, Naomi. **Bl. 3:** 1, Kayleigh; 2, Nidian; 3, Manon. **Bl. 4:** 1, Gregory; 2, Joe; 3, Siân a Sheila. **Bl. 5:** 1, Ruth; 2, Llinos; 3, Kevyn ac Aleta. **Bl. 6:** 1, Laure; 2, Matthew; 3, Philip a Ceirion. **Rhyddiaith dan 16:** 1, Alaw; 2, Jennie. **Medal Lenyddol:** 1, Siân Melangell Davies, Bala; 2, Einir Gwenllian, Bodorgan. **Englyn:** Arthur Thomas, Porthmadog. **Parodi:** 1, Valmai Williams, Aberdesach; 2, Margaret Cynfi Griffiths. **Cyfansoddi darn adrodd i blant:** Valmai Williams, Aberdesach. **Limrig:** Beryl Griffiths, Trefor. **Llinell Goll:** Huw Williams, Gaerwen. **Atgofion plentyndod yn ardal Gwaun Gynfi:** 1, John Ll. Williams; 2, M. C. Griffiths; 3, Gracie Jones a J. Eirlys Williams. **Emyn Gŵyl Ddewi:** 1, Valmai Williams; 2, Beryl Griffiths. **Creu brawddeg:** Mary Wyn Jones. **Cystadleuaeth y Gadair:** Parchg Idris Thomas, Trefor. **Cwpan ymgais orau dan 12:** Gregory.

CERDD:

Ysgol Feithrin: 1, Daniel Ellis; 2, Arwyn; 3, Iwan. **Bl. 0:** 1, Ffion; 2, Daniel; 3, Liam. **Bl. 1 a 2:** 1, Sioned; 2, Bronwen; 3, Gwenllian. **Bl. 3 a 4:** 1, Manon ac Emma. **Bl. 5 a 6:** 1, Heledd. **Unawd Cerdd Dant dan 12:** 1, Heledd; 2, Trystan Ellis. **Unawd Offerynnol dan 12:** 1, Trystan Ellis. **Canu Emyn dan 12:** 1, Heledd; 2, Trystan. **Unawd Piano dan 12:** 1, Rachel. **Parti Canu dan 12:** 1, Parti Gwaun Gynfi. **Unawd dan 15:** 1, Michelle. **Unawd Offerynnol dan 15:** 1, Jennie; 2, Arwel; 3, Urien. **Côr**

Parhad ar dudalen IV

Enillydd Tlws Llên Eisteddfod Bethel

GWRTHDARO

gan ANEST WILLIAMS

'Agor be?' Ni allai Bertha Hamilton-Price goelio'i chlustiau.

'Rhyw ganolfan *rehabilitation* ne' rwbath,' atebodd Magi Ifans, a redai siop y pentref. 'Wel, dyna be ddudodd Mrs Jones Tŷ Isa wrtha i.'

'Sut mae hi'n gwybod y ffasiwn beth? Mae fy ngŵr i ar y cyngor a dydi o ddim wedi clywed amdano fo.'

'Ma' hi'n llnau'r swyddfeydd yna'n tydi? A mi sylwodd hi ar y cynllunia wrth iddi dacluso ryw ddesg. Mi ddudodd hi eu bod nhw isio cadw'r peth yn ddistaw. Pum punt saith deg, plîs.'

Estynnodd yr arian iddi'n fud a chododd y bag plastig a ddaliai'r nwyddau.

'Mae'n rhaid eu bod nhw os nad ydyn nhw'n deud wrth y cynghorwyr.'

Trodd ei chefn ar y siopwraig gan hwylio allan drwy'r drdws mewn tymer. Pam na fyddai Neville wedi dweud wrthi am hyn yn hytrach na bod Magi Ifans o bawb yn gwneud hynny? Mae'n rhaid ei bod wedi gwneud y cwbl i fyny. Mi fyddai Neville wedi dweud wrthi am y cynllun pebai yna un a chan nad oedd wedi, mae'n siŵr mai lol oedd y cyfan. Dim ond cynllwyn oedd y cyfan i'w thwyllo fel ei bod hi'n gwneud ffŵl ohoni'i hun.

Cerddodd i mewn i'w thŷ pedair ystafell wely, a oedd ar stad dai mwyaf *exclusive* y pentref. Cadwodd ei neges a gwnaeth baned iddi'i hun cyn mynd i eistedd yn y parlwr i'w yfed. Deng munud wedi chwech. Dylai Neville fod adref unrhyw funud rŵan.

'Dwi adra, cariad!'

Ymddangosodd Neville o tu ôl i ddrws y parlwr.

'Neville, wyt ti wedi clywed am ryw gynnlun i agor canolfan *rehabilitation*?'

Edrychodd arni'n annifyr. 'Wel, mae o i fod yn gyfrinachol . . .'

Torrodd Bertha ar ei draws, '. . . Wyt ti ddim yn fy nhrystio i, Neville?'

'Fedrwn i ddim deud wrtha ti, cariad. Pe bai rhywun wedi ffeindio mi fuaswn i mewn dŵr poeth.'

'Dwyt ti 'rioed yn meddwl y buaswn i'n deud wrth rywun, wyt ti, Neville? Dydw i ddim fel y Mrs Jones Tŷ Isa 'na, yn hel clecs efo rhywun bob munud. Mi fydd gen i asgwrn i grafu efo hi pan ddaw hi i lanhau'r tŷ fory.'

Syllodd Neville arni mewn anobaith. Pan fyddai Bertha ar gefn ei cheffyl nid oedd yn bosib dal pen-rheswm â hi. Penderfynodd mai'r peth callaf oedd mynd o'i ffordd.

Ond, roedd hi'n rhy hwyr. Dechreuodd ei holi'n ddidrugaredd, 'Be'n union fydd y ganolfan yma, felly?'

'Un i bobl sy'n gaeth i gyffuriau. Mi fyddan nhw'n mynd allan i'r gymuned.' Disgwyliodd ffrwydrad anocheladwy.

'Be? Ond mi fyddan nhw'n siŵr o gael dylanwad drwg ar Annabel a Timothy druan! Mi fyddan nhw'n pwshio drugs o amgylch yr hen ysgol goman 'na yn y pentref ac mi fydd y ddau yn siŵr o gopïo'r plant eraill! Be ydi'r pwynt i ni dalu iddyn nhw gael mynd i ysgol dda os y byddan nhw'n cymysgu hefo *junkies*? Mi wyt ti'n mynd i fotio yn ei erbyn o, yn dwyt?'

Ceisiodd Neville osgoi edrych i lygaid ei wraig, 'Wel, mae'n rhaid iddyn nhw gael rhywle i fyw . . .'

'Neville!'

Fore trannoeth roedd deuddeg o bobl yn eistedd ym mharlwr Bertha Hamilton-Price yn sipian te ac yn brig-bori ar y cacennau cri a brynwyd ym more coffi diwethaf Merched y Wawr. Yn eu plith roedd holl flaenoriaid y capel a'r gweinidog a'i wraig. Penderfynwyd y byddai Mrs Hamilton-Price yn paratoi deiseb ac yn casglu llofnodion arni, ac y byddai'r mater yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

Teimlai Bertha wrth ei bodd ei bod hi wedi cael y fraint o arwain yr ymgyrch yn erbyn y ganolfan newydd. Roedd yn aelod o sawl cymdeithas yn y pentref — byddai rhai'n dweud nad oedd yna bwyllgor na chyngor nad oedd hi, neu ei gŵr, yn aelod ohono. Ym marn Bertha, ni allai'r gymdeithas leol oroesi heb ei hymedrechion hi a'i gŵr a bod y pentref yn freintiedig ei bod hi yno i'w harwain.

Gwnaeth restr o'r llefydd y byddai'n mynd i hel llofnodion. Byddai'n rhaid iddi fynd o amgylch y stad wrth gwrs, ac o amgylch stad Cae Clyd a Willow Grove. Medrai edrych sut ymateb a gâi yn Llwyn Onn a Maes y Dderwen hefyd, a byddai'n rhaid iddi fynd a'r ddeiseb gyda hi i'r clwb golff.

Pan gyfarfu'r pwyllgor ym mharlwr Bertha y tro nesaf, roedd yna bron fil o lofnodion ar y ddeiseb, a'r ganolfan newydd yn destun dadlau gan bawb yn y pentref. Penderfynwyd yn unfrydol mai Bertha a fyddai'n cael y fraint o gyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor a threfnwyd cyfarfod pentref ynglŷn â'r ganolfan a beth oedd i'w wneud i'w gwrthwynebu.

Cyhoeddwyd yn y cyfarfod yn y capel y bore Sul canlynol ar ôl pregeth hir ar oddefgarwch a throi pechaduriaid at oleuni'r Gair. Cafodd posteri eu gosod o amgylch y pentref — yn y Bay Hotel, y siop a'r post, a'r ysgol. Meddyliodd am roi un i fyny yn y siop sglodion ond, ar ôl meddwl yn ddyfal, penderfynodd beidio, gan nad oedd eisiau dennu rhyw giari-dyms i'r cyfarfod. Buasent yn siŵr o lesteirio'r gweithgareddau ac atal unrhyw benderfyniadau.

Daeth noson y cyfarfod. Edrychai Bertha ymlaen yn eiddgar at y cyfle i glywed trigolion Glyn Elain yn mynegu eu barn am yr anfadrwydd a fygythiai eu cymdeithas. Gallai hyn newid dyfodol y pentref yn llwyr.

Er ei holl hymdrechion i'w hatal rhag dod i'r cyfarfod, roedd carfan fechan o'r stad cyngor wedi troi i mewn yno. Suddodd ei chalon wrth feddwl am yr helynt a fyddent yn sicr o'i greu. Trodd un ohonynt i'w hwynebu, 'Pam nad oedd 'na seins ar y stad acw yn sôn am y cyfarfod yma?' cyfarthodd arni. 'Fuodd na neb acw efo deiseb.'

Ceisiodd Bertha newid y pwnc, 'Camddealltwriaeth mae'n rhaid. Rŵan, mi wnawn ni symud ymlaen at y mater cyntaf ar yr agenda.'

'Rydach chi, snobs Laurel Drive, i gyd yr un fath. Meddwl ein bod ni'n methu sgwennu, a bod gennym ni ddim barn, achos ein bod ni heb gymaint o bres â chi.'

Trodd wyneb y Cyrnol Forbes-Smythe yn borffor, a chochodd Bertha. Gwenodd Magi Ifans yn slei yng nghefn y neuadd.

'A be' ydi'ch barn chi? Mae'n siŵr y buasai eich teip chi yn fodlon iddyn nhw agor bob math o bethau yn y pentref 'ma heb falio dim am bobl eraill. Mi rydach chi'n rhy brysur yn meddwl am bethau pwysicach mewn bywyd mae'n siŵr, fel eich diod a'ch sigarets.'

Gorffennodd Bertha ei haratih yn fuddugoliaethus, 'Mi awn ni 'mlaen efo'r cyfarfod.'

Trafodwyd nifer o faterion yn y cyfarfod ac ar ôl ystyriaeth daethpwyd i'r farn na fyddai'r trigolion yn trefnu unrhyw brotestiadau arbennig ond y byddai Neville, ac ambell un arall, yn cael gair yng nghlust rhai o'u ffrindiau dylanwadol yn y cyngor gan rhoi cil-dwrn i un neu ddau ohonynt.

Ymhen ychydig o wythnosau hysbyswyd trigolion Glyn Elain na fyddai'r ganolfan yn cael ei hagor. Rhuthrodd Bertha i'r siop yn fuddugoliaethus i wneud yn sicr mai Magi Ifans fyddai'r un o'r rhai cyntaf i glywed.

'Mi ydach chi wedi clywed fod y cyngor wedi penderfynu peidio â gweithredu eu cynlluniau, yn tydach?'

'O, ydw tad, a mi ddeudodd Mrs Jones Tŷ Isa eu bod nhw yn meddwl gneud lle i *young offenders* yno yn ei le o.'

Dychwelwyd yr olwg gan Magi.

Hwyliodd Bertha drwy'r drws yn gandryll. Fe dagai hi Neville pan câi afael arno!

Anest a Manon a gosgordd Eisteddfod Bethel.

Enillydd Tlws Llên Ysgol Gynradd Eisteddfod Bethel

Y DAITH

gan MANON WILLIAMS, Yr Efail

Cychwyn am ddau ac wedi laru disgwyl, ond gas gen i feddwl fy mod eisiau mynd yr holl ffordd i Ddyfnaint hefo'r car a'r garafán am ein gwyliau. Roedd Cefin a fi wedi rhoi llwythi o dda-da a diod yng nghefn y car. Dydw i ddim yn hoffi mynd ar daith yn y car oherwydd ei fod yn ddiflas. Mae ceir a bysus a loriau yn un ribi-di-res y tu allan.

Bob hyn a hyn roedd Mam yn cofio ei bod wedi anghofio rhoi rhywbeth yn y garafán. Ond, doedd Dad yn ddim yn gwrando, roedd o yn canolbwyntio ar y dreifio. Roedd Cefin a fi yn dechrau blino ac yn ffraeo yng nghefn y car am y da-da. Efallai ei bod hi'n amser seibiant. Roedd Dad yn dechrau gweiddi rŵan.

Gweld man parcio. 'Grêt, gawn ni fynd allan i ymestyn ein coesau.'

Aeth Dad, Cefin a fi allan i chwarae pêl-droed a Mam druan yn gwneud paned yn y garafán. Yna ailgychwyn ar y drafforddd hir a phopeth yn gwibio heibio ffenestri'r car. Cwympodd Cefin a mi i gysgu a deffro yn llwglyd iawn. Wrth lwc roedd yna 'Little Chef' i lawr y ffordd i ni gael sglodion.

Yna, ymlaen ar y ffordd. Tua un ar ddeg o'r gloch, stopio yn Exeter i gysgu dros nos. Roedd hi'n swnllyd iawn i gysgu yn Exeter dros nos oherwydd bod cymaint yn mynd a dŵad drwy'r nos. Cododd pawb am saith o'r gloch. Roedd y lle fel ffair — loriau, ceir a charafanau yn mynd i mewn ac allan. Roedd yna goblyn o sŵn yno. Cychwynasom ar yr A38. Roeddem i gyd mewn hwyliau gwell, heblaw Dad, a gormod o drafnidiaeth ar y ffordd. Doedd dim llawer o daith eto. Roedd Dad yn meddwl na fuasai ddim llawer o drafnidiaeth ar y ffordd oherwydd ei bod hi'n fore iawn.

Roedd hi tua un ar ddeg o'r gloch erbyn hyn ac felly cawsom ginio sydyn yn y garafán, wedyn yn ôl ar y ffordd am ryw awr. Cefin a fi yn swnian ond doedd yna ddim llawer o amser eto.

HWRE! ROEDDYM NI WEDI CYRRAEDD.

O'R DIWEDD!

Enillydd Cystadleuaeth Darn o Ryddiaith Greadigol yn Eisteddfod Bentref Llanrug

ENAID HOFF

gan MAIR HUMPHREYS

Rwy'n syllu ar dy wyneb gwelw — llygaid treiddgar, tywyll, ond gwelaf bod rhyw obaith ynddynt. Rwyf wedi dy oroesi erbyn hyn ac yn hanner can mlynedd yn hŷn.

'Dwêd wrthyf sut yr wyt yn cadw dy synhwyrau, dy obeithion heb ysigo y deunaw mis diwethaf yma yn awyrgylch glostroffobig dy ystafell gudd. Ei drwy artaith feddyliol yn feunyddiol. Dwêd wrthyf, enaid hoff, sut yr ymdopi. Bûm innau yn un o'th gyfoedion, ond ni chefais yr artaith, ing, poen, ofn y gnoc ar y drws. Dwêd wrthyf, sut yr ei drwy'r hunllef hon?'

'Hunllef — ydi, mae'n hunllef ond fel pob hunllef neu'r breuddwyd mwya melys, fe ddaw i ben.'

'Ond dwyt ti ddim wedi ateb fy nghwestiwn — be' sy'n dy gadw — cadw dy enaid a'th gorff ynghyd?'

'Fe ddwedaf wrthat ti, ond mae'n gyfrinach cofia. Fy ngobaith pennaf ydi Kitty. Rydw i'n edrych ymlaen i gael bod yn newyddiadures neu awdures enwog rywdro os caf fyw, a gŵyr hithau holl ddirgelion fy enaid — ati hi y byddaf yn troi.'

'Pwy ydi Kitty felly — sut mae'n gymaint o ysbrydoliaeth iti?'

'Ysbrydoliaeth — o, ydi. Medraf golli deigryn arni, datgelu fy nghyfrinachau mwyaf iddi ac fe fyddaf yn siŵr nas datgelir — medraf chwerthin hefyd a siarad â hi am ryw bethau bach pitw a ddigwydd inni yma. Mae yna gloc yn y ddinas sy'n taro ar y chwarter awr ac mae'n mynd ar nerfau yr oedolion sydd yma hefo mi, a byddaf innau yn chwerthin am eu pennau — ond i mi, mae'n ffrind sy'n torri ar y diflastod.'

'Beth yw dy boen fwyaf — fedra i liniaru tipyn arni?'

'Na fedri — buasai'n rhaid iti ddod yma ataf. Fy ngwewyr mwyaf ydi cael fy ngharcharu yma. Ysaf am gael hedfan yn rhydd fel y 'cadfridog coch' a ddaeth i orffwyso ei adenydd ar fy ffenest heddiw, neu'r aderyn bach sy'n dod i byncio cân imi bob dydd — rydw i mor bell — ni allaf eu cyffwrdd.'

'Mae'n amlwg dy fod yn caru natur o'th gwmpas, fel minnau.'

'Ydw, ac mi faswn yn rhoi'r byd i gael rhedeg drwy'r glaswellt, ymdrochi yn y rhaeadrau clir a sawru'r blodau tlws. Glywi di blant yn chwarae, fy ffrind?'

Gwrandawaf innau am ysbaid. 'Clywaf, mi glywaf ambell blentyn yn y pellter.'

(Pan oeddwn yr un oed â thi, plentyn cenedl gysurus oeddwn, ni wyddwn am ryfel fel ti, nid oedd y bygythiad o ddifodiant cenedl uwch fy mhen yn feunyddiol.)

Am eiliad daw disgleirdeb, rhyw fywyd, i'w llygaid.

'Pan oeddet yr un oed â mi roeddet ti'n mwynhau cael yr eira ar dy amrannau?'

'Oeddwn, a chwarae peli eira, a . . .'

'Ie, a llithro ar lethren i lawr y bryn?'

'Oeddwn, roeddwn wrth fy modd. Wyddost ti mai 'run oedd fy mreuddwydion i â'th rai dithau. Mae gennyt luniau sêr y ffilmiau ar dy fur. Pwy ydyn nhw?'

'Dyma Jean Harlow, Ingrid Bergman, Clark Gable, a'm ffefryn, edrycha — Shirley Temple, sydd yr un oed â mi — nhw ydi fy arwyr, ac os byddaf yn teimlo'n hynod o unig byddaf yn troi ar fy ngwely i'w hwynebu. Gaf i ddawnsio iti?'

Edrychaf arni, mor ysgafn a gosgeiddig — try o amgylch yr ystafell fel pluen eira fechan ar chwa o wynt, a'i hwyneb yn berl o hapusrwydd a'i llygaid yn pefrio.

'Rwyt ti'n dawnsio'n fendigedig. Mae'n amlwg dy fod wedi cael gwersi.'

'Do, byddai fy mam yn mynd a mi bob wythnos pan oeddwn yn ifanc iawn.'

'Fedra i ddim ond gobeithio y cei ddod o dy garchar yn fuan.'

'Daliaf i obeithio, ond creda fi os wyt wedi cael dy gau fel fi am flwyddyn a hanner, gall fynd yn drech na thi weithiau — cael reidio fy meic, dawnsio'n rhydd, chwibannu, edrych allan ar y byd, teimlo'n ifanc gan wybod fy mod yn rhydd — dyna wyf yn ysu amdano. Ond dyna fo, fedra i ddim dangos fy nheimladau yng ngŵydd yr oedolion neu mi fyddai'r wyth ohonom yn digalonni — a beth ddigwyddai inni wedyn?'

Daw deigryn i'w llygaid.

'Paid a wylo. Dwi'n siŵr bod gen ti rywun "arbennig" yn dy fywyd yn ogystal â Kitty.'

Gwridodd.

'O, oes, mae rhyw deimlad newydd o'm mewn yn ddiweddar. Mae'n rhaid mai cariad ydi o. Mae'n rhannu ein hystafelloedd a byddaf yn mynd i'w ystafell yn yr atig, agor y ffenest a gadael i'r glaw drochi ein hwynebau — a ddoe rhoddodd y gusan gyntaf imi. Mae yn fy meddwl ddydd a nos — gefais ti'r teimlad hwnnw?'

'O, do — mae'n deimlad cysurus, braf. Rwyt isio ei gyhoeddi i'r holl fyd, onid wyt. Rwyt ti'n sicr mewn cariad.'

'Does gen i ddim llawer o amser yn dy gwmni ffrind annwyl — beth hoffet imi sgrifennu yn fy nyddlyfr. Ie, mae'n siŵr dy fod wedi dyfalu bellach mai "Kitty" yw fy ngorffennol a'm presennol a bydd hefo mi i'r diwedd — fy nyddlyfr ffyddlon.'

'Oeddwn, roeddwn wedi amau rhywsut — dywed wrthi bod un o dy gyfoedion na phrofodd ddim ond bywyd cysurus a di-boen, yn dy gofio ac y bydd fy mhlant a plant fy mhlant yn dod i wybod amdanat ti a'th ddewrder.'

'Ffarwél, enaid hoff.'

Trof oddi wrth ei hystafell. Gwn, fe wn beth oedd dy dynged erbyn hyn. Do, cefais dy anfarwoli drwy'r byd i gyd, Anne Frank, a hynny drwy dy ffrind mynwesol Kitty. Gwelais dudalennau o dy ddyddiadur wedi eu hargraffu ar furiau dy hen ysgol yn Amsterdam.

Fe gest dy ddymuniad cudd o gael enwogrwydd trwy dy 'sgrifennu — gwerthwyd ugain miliwn o gopïau o dy hanes, ond y trasiedi mwyaf un yw nad wyt yma gyda ni heddiw i ddarllen drwy'r tudalennau hynny.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD BETHEL

CYFARFOD Y PNAWN

CERDD

Ysgol Feithrin: 1, Catrin; 2, Gwilym; 3, Siân, Llio, Manon, Greta a Gerallt. **Bl. 0:** 1, Ela; 2, Robin; 3, Cai, Siôn, Angharad a Sioned. **Bl. 1 a 2:** 1, Ceri Griffith; 2, Ceri Lewis ac Aled; 3, Marged ac Iona. **Bl. 3 a 4:** 1, Manon; 2, Leah a Siôn; 3, Berwyn ac Elan. **Bl. 5 a 6:** 1, Huw a Lois; 2, Kelly; 3, Gwenan. **Unawd piano, 1, 2 a 3:** 1, Heulwen. **Unawd piano, 4, 5 a 6:** 1, Huw; 2, Ffion. 3, Cadi a Manon. **Alaw Werin, Bl. 1-6:** 1, Lois; 2, Huw; 3, Ffion. **Offerynnol, Bl. 1-6:** 1, Ffion; 2, Huw; 3, Cadi a Lois. **Parti Bl. 1, 2 a 3:** Cydradd 1: Parti Tan Domen; Parti Berwyn. **Parti Bl. 4, 5 a 6:** 1, Y Llongwyr Llon.

LLEFARU

Ysgol Feithrin: 1, Greta; 2, Gerallt; 3, Catrin a Gwilym; 4, Manon, Llio a Siân. **Bl. 0:** 1, Ela; 2, Siôn; 3, Cai. **Bl. 1 a 2:** Ceri; 2, Dewi; 3, Aled. **Bl. 3 a 4:** 1, Leah; 2, Manon; 3, Nia a Berwyn. **Bl. 5 a 6:** 1, Huw; 2, lois; 3, Gwion. **Ymgom:** 1, Lois, Ffion a Rhys; 2, Huw a Marc; 3, Gwion a Rob. **Partïon, Bl. 1, 2 a 3:** 1, Parti'r Gloch; 2, Parti Berwyn. **Bl. 4, 5, a 6:** 1, Parti'r Pistillio; 2, Môrleisiau.

TLYSAU

Cerdd/lleision. Cwpan Boss: Ceri W. Griffith (tarian fechan rhoddedig gan Mrs Eirlys Sharple).

Offerynnol gan gynnwys piano. Tarian Coffa W. G. Ellis: Ffion Williams.

Llefaru. Cwpan Arian: Huw Ffoulkes.

CYFARFOD YR HWYR

CERDD

Unawd Bl. 7, 8 a 9: 1, Gwen Rowlands. **Bl. 10-13:** 1, Bethan Fôn Jones; 2, Elen Robinson; 3, Eleri Robinson a Caryl Owen. **Unawd piano Bl. 7, 8 a 9:** 1, Iolo Ellis; 2, Gwen ac Ifan Rowlands. **Bl. 10-13:** 1, Bethan Fôn Jones; 2, Caryl Owen; 3, Eleri Robinson. **Offerynnol:** 1, Dewi Griffiths; 2, Eleri; 3, Gwenno Thomas a Bethan Williams; 4, Ffion Owen. **Grŵp offerynnol:** 1, Andantinos. **Deuawd:** 1, Elen ac Eleri Robinson; 2, Bethan a Caryl. **Meimio:** cyd.1: Lois, Ffion, Rhys ac Elen Ffoulkes. **Alaw Werin:** 1, Eleri; 2, Gwenno.

LLEFARU

Bl. 7, 8 a 9: 1, Ffion Owen; 2, Nora Ostler. **Bl. 10-13:** 1, Eleri Robinson. **Ymgom:** 1, Caryl a Bethan; 2, Gwen a Ffion. **Adrodd digri:** 1, Bethan Williams. **Siarad cyhoeddus:** cyd.1: Meilyr Emrys ac Eleri. **Parti:** 1, Parti Ffion. **Sgets:** 1, 'Pupur a Halen' (Gwilym, Eirlys Williams, Rhian a Glenys). **Darn heb ei atalnodi:** 1, Meilyr; 2, Bethan; 3, Caryl ac Eleri.

TLYSAU

Cerdd: Cwpan Coffa Mrs Joan Ffoulkes (tarian fechan gan deulu Llwyn Eithin): Eleri Robinson.

Offerynnol: Cwpan Coffa J. M. Williams (Mr a Mrs Sam Davies): Dewi Griffiths.

Llefaru: Cwpan Konika (Mr a Mrs Gwilym Williams, Y Ddraenen Fach): Bethan Williams.

LLÊN

Bl. 1: 1, Zoe; 2, Hannah ac Iona; 3, Lowri. **Bl. 2:** 1, Dewi Alun; 2, Ceri Griffith; 3, Sasha Williams. **Bl. 3:** 1, Ifan; 2, Heulwen ac Elan; 3, Betha, Samantha a Berwyn. **Bl. 4:** 1, Manon; 2, Siôn Roberts; 3, Nia Glyn. **Bl. 5:** 1, Huw; 2, Aeron Hughes a Rob Gaffey; 3, Richard Griffith. **Bl. 6:** 1, Lois; 2, Cadi a Ffion; 3, Emma Vaughan. **Enillydd Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws bychan i'w gadw:** Manon Williams, Yr Efail. **Bl. 7, 8 a 9:** 1, Owain Siôn; 2, Ffion Owen. **Bl. 10-13:** 1, Anest Williams; cyd. 2, Eleri Robinson a Llinos M. Williams. **Enillydd Tlws y Gymdeithas Lenyddol, a phlac i'w gadw** (rhodd Mr Goronwy Jones, Cilan): Anest Williams. **Oedolion — Llinell Goll:** cyd. 1, Ieuan Williams, Llain yr Ardd, a Mrs I. Butler, Tan-y-cae.

CELF A CHREFFT

Ysgol Feithrin (bl. 1): 1, Letiesha Taylor; 2, Gavin Lomas; 3, Nathan. **(bl. 2):** 1, Adam; 2, Llio; 3, Sharon. **Bl. 0:** 1, Charlotte; 2, Cai; 3, Robin ac Aled. **Bl. 1:** 1, Marged; 2, Leon; 3, Iona, Aled ac Iwan; **Bl. 2:** 1, Dewi Alun; 2, Siôn Hughes; 3, Iona, Aled ac Iwan; **Bl. 3:** 1, Teri; 2, Jamie; 3, Ffion Haf. **Bl. 4:** 1, Martin; 2, Aled; 3, Carwyn. **Bl. 5:** 1, Lisa; 2, Paul; 3, Aeron. **Bl. 6:** 1, Cadi; 2, Ryan; 3, Emma ac Wayne. **Modelau 3D, Bl. 2 ac iau:** 1, Ceri Griffiths; 2, Sasha a Zoe; 3, Dewi Ffoulkes. **Bl. 3, 4, 5 a 6:** 1, Marc Bardsley; 2, Huw Foulkes; 3, Elan Rhys. **Pypedau, Bl. 2 ac iau:** 1, Iona Speake; 2, Sasha, Zoe a Louis; 3, Aled Gwilym. **Bl. 3, 4, 5 a 6:** 1, Elan Rhys; 2, Lois Hughes; 3, Berwyn ac Ian Morgan. **Ffotograffiaeth, Bl. 3 a 4:** 1, Berwyn; 2, Elan; 3, Rhys. **Bl. 5 a 6:** 1, Ffion Williams. **Graffeg gyfrifiadurol, Bl. 1-6:** 1 a 2: Elan Rhys; 3, Ceri Elen Roberts. **Collage, Bl. 0, 1 a 2:** 1, Aled Gwilym; 2, Siôn Elwyn; 3, Ela Christie. **Bl. 3 a 4:** 1, Ian Morgan; 2, Ifan Bryn a Leah Anne Williams. **Bl. 5 a 6:** 1, Huw Ffoulkes; 2, Kelly Wynne Williams. **Oedrannau Ysgol Uwchradd. Ffotograffiaeth Bl. 7-9:** 1, Ifan Rowlands; 2, Gwen Rowlands; 3, Anest Williams. **Collage Bl. 7-9:** 1, Sarah Morgan. **2D, Bl. 10-13:** Sheryl Morris. **Logo, Bl. 1-13:** 1, Ceri W. Griffith

TLYSAU: Ceri W. Griffith a Marged Rhys (un darian yn rhoddedig gan Ann Elis Williams).

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI — parhad

neu Barti Ieuenctid: Lleisiau Llanbabs. **Grŵp Offerynnol Agored:** Grŵp Urien Sion. **Unawd Cerdd Dant dan 21:** 1, Lyndsey; 2, Michelle. **Cân Werin dan 21:** 1, Lyndsey; 2, Michelle. **Unawd Piano dan 21:** 1, Michelle; 2, Lyndsey. **Unawd 15-21:** 1, Lyndsey. **Canu Emyn Dôn dros 50:** 1, Gwyn; 2, Griff; 3, Tecwyn. **Unawd Offerynnol Agored:** 1, Jennie. **Cân Werin Agored:** 1, Robat John; 2, Griff; 3, Michelle. **Her Unawd Agored:** 1, Trefor Wyn; 2, Gwyn; 3, Wmffra; 4, Alun. **Côr neu Barti Agored:** Lleisiau Llannau Môn. **Cyfansoddi Tôn i Emyn Priodas:** Gwilym Charles Lewis, Caergybi. **Cwpan ymgais orau dan 12:** Heledd. **Cwpan ymgais orau dan 21:** Lyndsey.

ARLUNIO:

Ysgol Feithrin (2½-3 oed): 1, Gwion; 2, Lliwen; 3, Rhys. **(3-4 oed):** 1, Arwyn; 2, Richard; 3, Zackery. **Bl. 0:** 1, Ben; 2, Zena; 3, Ashley. **Bl. 1:** 1, Sioned; 2, Cara; 3, Natalie. **Bl. 2:** 1, Naomi; 2, Simon; 3, Gwenllian. **Bl. 3:** 1, Geraint; 2, Michelle Louise; 3, Kayleigh. **Bl. 4:** 1, Irfon; 2, Sheila; 3, John. **Bl. 5:** 1, Rachel; 2, Llinos; 3, Matthew. **Bl. 6:** 1, Andrew; 2, David; 3, Toni. **Gwobr arbennig** i Aletea Sellers.

GWAITH LLAW: Ysgol Feithrin (2½-3 oed): 1, Owain; 2, Lucy; 3, Lliwen. **(3-4 oed):** 1, Iwan; 2, Arwyn; 3, Maria. **Bl. 3, 4 a 5:** 1, Nidian; 2, Aneurin. **Gwau. Ysgol Gwaun Gynfi** — Babanod: 1, Louise; 2, Gwenllian; 3, Sophia. Iau: 1, Rachel; 2, Kayleigh; 3, Donna; 4 (cydradd), Collette, Michelle. **Dros 16:** 1, Gwen Griffiths; 2, Rhianwen Jones; 3, Menna W. Jones ac Elan Williams. **Gwnïo. Ysgol Gwaun Gynfi** — Babanod: 1, Gwenllian; 2, Louise; 3, Sophia. Iau: 1, Kayleigh; 2, Robert; 3, Emma. **Dan 16:** 1, Alaw. **Brodwaith a Tapestri:** 1, Gillian Efans; 2, Michelle Clark, 3, Sharon James a Gwyndaf Efans. **Crosio:** Mrs G. Jones, Ceris; 2, Mary W. Jones; 3, Peggy Jones.

COGINIO: Dan 8: 1, Sioned; 2, Ffion; 3, Louise. **Dan 12:** 1, Kayleigh; 2, Trystan; 3,Aneurin. **Dan 16:** 1, Alaw; 2, urien; 3, Jennie ac Elfed. **Dan 21:** 1, Bethan. **Agored:** 1, Elan Williams; 2, Valmai Williams. **Agored:** 1, Helen Jones; 2, Elan Williams; 3, Valmai Williams. **Agored:** 1, Menna Jones; 2, Helen Jones. **Dynion yn unig:** 1, Elfed Morris; 2, Hefin G. Jones.

GWAITH COED: Agored: 1, Neville Williams.

FFOTOGRAFFIAETH: Dan 12: 1, Trystan; 2, Christopher. **Dan 16:** 1, Alan; 2, Jennie; 3, Uriel ac Elfed. **Dan 21:** 1, Elfed. **Agored:** 1, Nan Owen; 2, Elan Williams; 3, Brenda Williams a Colin Williams.

TREFNIANT BLODAU:

Dan 12: 1, Gwenllian; 2, Kayleigh. **Agored:** 1, Gwen Griffiths; 2, Mari Griffith; 3, Helen Jones; 4, Menna W. Jones. **Cwpan ymgais orau Cwpan Bryn Du:** Mrs Gillian Efans, Llanrug. **Cwpan ymgais orau Cwpan Clwb Snwcer:** Mr Neville Williams, Deiniolen.

Derbyniwyd y llun hwn o Gôr Ysgol Brynrefail ar achlysur Agoriad Swyddogol yr Ysgol yn Ebrill 1956. Faint o aelodau'r Côr sy'n dal i fyw'n lleol? A oes rhywun all eu henwi i gyd? Dipyn o gamp ichi dros y Nadolig.

DYDDIADUR RHAGFYR/IONAWR

24: PENISARWAUN: Gwasanaeth Cymun yn Eglwys St Helen, 11.30 pm.
DEINIOLEN: Gwasanaeth Cymun yn Eglwys Llandinorwig, 11.30 pm
25: DEINIOLEN/DINORWIG: Gwasanaeth Cymun yn Eglwys Llandinorwig, 9.30 am.
LLANBERIS: Gwasanaeth Nadolig, Capel Coch, 10 am.

IONAWR

7: PENISARWAUN: Yr Urdd yn ailddechrau.
9: DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol — Cyfarfod Gweddi.
11: LLANRUG: Doreen Lewis mewn cyngerdd yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis.
13: LLANBERIS: Y Gymdeithas Lenyddol, Capel Coch, 7 pm.
15: LLANRUG: Plaid Cymru, Canolfan Penisarwaun, 7.30 pm.
23: DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol — Parti Clychau'r Grug.
27: DEINIOLEN: Y Gymdeithas Lenyddol am 7 pm.
29: BETHEL: Pwyllgor yr Eisteddfod yn y Neuadd am 7.30 pm.

RHODDION

£10: Er Cof am Arthur a Gwen Lloyd Roberts, Awel y Mynydd, Deiniolen, gan Mary Wyn, John a Dylan.
£5: Mrs C. Roberts, Ael y Bryn, Tan-y-coed. Mrs Dilys Evans, 48 Maes Padarn, Llanberis. Mrs Grace Roberts, hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis.
£3: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug. Di-enw.
£2: Mr John Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig. Mr Derek Jones, 62 Maes Padarn, Llanberis.
£1: Di-enw, Penisarwaun.

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

★ Tacsi
★ Maes Awyr
CABS ERYRI
Yfwch chi
Gyrrwn ni
y Nadolig hwn
Ffôn: (01286) 871049 :: (0831) 429970 (symudol)
neu ffoniwch ni AM DDIM ar
National Cabline (Freephone) 0800 123 444
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig
Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**
NGORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
TICEDI LOTERI AR WERTH

& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Lin, John a phawb o'r staff

CHWARAEON

TIPYN O DDERYN . . .

Rwy'n siŵr fy mod yn gwneud un dasg am y tro cyntaf yn yr erthygl yma, sef rhoi plug i lyfr. Mae'r llyfr *Hogyn o Sling – John Ogwen* wedi gwerthu'n dda.

Oes, mae gen i ran yng ngyrfa bêl-droed John Ogwen – nage, John Bach Sling. John oedd un o sêr tîm hŷn yr ysgol pan oeddwn i yn un o chwaraewyr diniwed y tim o dan 13 oed. Roedd gêm bob bore Sadwrn wrth gwrs ac fe fyddai'r timau ifanc yn gwylio'r rhai hŷn cyn cael eu gemau eu hunain, ac yna fe gefnogai'r tîm hŷn y rhai ifanc. Diffyg meysydd ym Motwnnog a Phwllheli oedd yn mynnu mai dyna'r drefn. Dim rhyfedd bod ymdeimlad tuag at yr ysgol yn gryfach bryd hynny. Rhaid cyfaddef nad oedd pawb o'r tîm hŷn yn dod i gefnogi'r 'tiches', gan fod gwell golygfeyddd ar y cae hoci – neu mewn un ysgol ym Mhen Llŷn lle gwelid afalau i'w dwyn o ardd gyfagos.

Mwynhad mawr fyddai'r gemau i ffwrdd – trip, gêm a bwyd: lobsgows heb ei ail ym Mhorthmadog; chips gwych yn Amlwch; corned-beef a beetroot mewn aml le. Ia, a'r daith! Yn fy niniweidrwydd ni allwn ddeall pam mai'r timau pêl-droed hŷn a thimau hoci hŷn yr ysgol yn unig oedd yn cael eistedd yn seddau ôl y bws! Yna caed gap i'r timau – 15 a – 13 wedi cael eu gwasgu fel sardîns ym mhen blaen y bws. Pam deudwch? A pham oedd rhai o'r pêldroedwyr – John yn enwedig – ond yn cael eistedd gydag un o'r tîm hoci?

Yna aeth John i'r coleg a minnau i'r chweched dosbarth a chyd-gyfarfod yn nhîm Bethesda Celts. Tîm ysgol Bethesda oedd hwnnw, ond gyda John, Emrys Coch, Einion a Brian Corbri yn rhoi dipyn o 'fuscle'. Heb os, pe buasai'r tîm yma wedi aros gyda'i gilydd byddai llwyddiant wedi dilyn yn go bendant. Pedwerydd yn ein tymor cyntaf, gyda thimau cryf canol y 60au o Lanberis, Llechid a Mountain Rangers wrth ein pennau. Colli o 4-3 yn unig i Lanber ar Ffordd Farrar yng ngêm gyn-derfynol Cwpan Penrhyn. Oedd, roedd yr hogia ysgol yn gallu chwarae.

Mae John yn cyfeirio at y tymor yma, pryd y sgoriodd 46 o goliau, a gallaf hawlio rhan mewn nifer ohonynt. Un ohonynt oedd unig gôl y gêm gan John i guro cewri Llechid ar gae Besda diwrnod ar ôl Dolig. Clamp o gêt – rwy'n sicr yn ail orau i'r gêm enwog rhwng Llanber a Llechid. Emrys Coch wedi symud i Besda wedi tymhorau gyda Llechid, ac roedd ei eiriau, 'Wel dyn y mabis i' yn y stafell newid wedyn yn golygu llawer. Roedd John ac Emrys yn fêts mawr.

Un stori fach i ddiweddu. John yn troi at Kitch, y Sadwrn cyn wynebu Llechid mewn gêm fawr arall, os cofiaf yn iawn. Kitch – yn gyn centre half gyda thîm enwog Penrhyn Quarry – oedd ein rheolwr. 'Fedrai ddim chwara,' meddai John, 'dwi di cael job.' Kitch yn methu deall, ac yn cael mwy o sioc pan gafodd esboniad. Roedd John wedi cael ei 'freak' mawr cyntaf, sef y prif ran yn y ddrama enwog 'The Corn is Green' ar y teledu. y ffilmio yn Llundain. 'Bell ar diawl,' meddai Kitch, a mynnu fod John yn chwarae. John yn esbonio iddo, ei fod wedi arwyddo cytundeb ac nad oedd fyw iddo chwarae rhag ofn iddo gael ei anafu. 'Wn i ddim beth oedd diwedd y sgwrs, ond chwarae wnaeth John – a sgorio mae'n siŵr.

Un ffyddlon fu John erioed yn enwedig i'w ardal enedigol, ac roedd ei araith yn Eisteddfod Yr Urdd Dyffryn Ogwen yn dweud cyfrolau.

Yna'r dydd Sadwrn gwlyb 'na ym Mhenygroes . . . na, stori arall ydi honno.

Dymuniadau gorau a diolch John Bach Sling a hir oes iti yn dioddef yn Goodison.

Gyda llaw, os am blygio, plygio go iawn. Beth am gael dau lyfr da yn yr hosan – llyfr John a hanes Hogia Llandygai.

TÎM PÊL-DROED CYMRU

Arweiniad diamcan o'r canol — drwg
Yw dreigiau'r presennol.
Simsan a gwan o flaen gôl;
A saith aeth heibio Southall.

RICHARD LL. JONES

PÊL-DROED

Bu timau pêl-droed Ysgol Brynrefail yn hynod lwyddiannus yn ystod tymor y Nadolig. Maent yn ddi-guro yng Nghynghrair Cylch Arfon ac mae'r tîm – 12 yn dal yn y Cwpan Cenedlaethol. Wedi'r Nadolig bydd y tîm yn chwarae yn rownd yr wyth olaf. Cafwyd gêm dda yn erbyn Ysgol Bryn Eilian, Bae Colwyn, i gyrraedd y rownd yma. Roedd tîm cryf gan Bryn Eilian ac roeddent eisoes wedi curo Ysgol David Hughes o 6 gôl i 1. Ym Mrynrefail llwyddodd y tîm cartref i ennill o 5 gôl i 4. Y seren oedd Owain Morris, ac fe lwyddodd y chwaraewr amryddawn – mae wrth ei fodd ar y maes rygbi hefyd – i rwydo bedair gwaith. Eiliad dyngedfennol arall oedd pan arbedodd Dewi Jones y gôlgeidwad gic o'r smotyn.

Yn y gêm nesaf bydd Brynrefail yn cyfarfod pencampwyr dwyrain Clwyd. Pob lwc iddynt. Yn amlwg mae'n fantais cael athro pêl-droed o'r enw 'HOLLAND'!

LLWYDDIANNAU

Rachel, y ferch hyderus.

KARATE

Cwyn aml am ein cymdeithas fodern yw diffyg hyder. Mae rhai pobl yn defnyddio pob math o esgusodion pan ofynnir iddynt am gyfraniad – diffyg amser, pwysau gwaith, ac yn y blaen. Mae'r gwrthwyneb yn wir am un ferch hyderus iawn o Ddeiniolen. Deg oed yw Rachel Ward ac mae'n arbenigo mewn Karate. Yn wir mae hi'n cael tipyn o 'gic' o'r gamp. Un peth sy'n rhyfeddol am Rachel yw fod yna hanes o ddioddef o asthma yn ei theulu, ac yn wir fe gollodd frawd bach deunaw mis oed drwy'r afiechyd. Ers iddi fentro i faes Karate fe wellodd y salwch yn arw ac mae ei rhieni yn bendant o'r farn fod yr ymarferion wedi cryfhau ei hysgyfaint ac esmwytho'r anadlu.

Dechreuodd Rachel fynychu'r grwpiau Karate yn Llanrug pan oedd ond yn bedair oed ac fe sylwodd yr hyfforddwr yno – Kevin Siddall – fod ganddi dalent arbennig. Trwy fagu hyder a chael hyfforddiant cyson, buan iawn y llwyddodd Rachel i ennill y gwahanol feltiau a chyrraedd gradd uchel y belt brown. Tri diwrnod cyn y Nadolig bydd yn sefyll y prawf am y belt du – y radd uchaf. Ymddengys mai hi fydd y ferch ieuengaf i geisio am y belt du.

Nid yn unig ar fatiau'r gampfa y bydd y prawf caled yma. Eisoes mae Rachel wedi cyflawni un rhan o'r prawf. I brofi ffitrwydd corfforol a meddyliol roedd yn rhaid iddi gerdded wyth milltir, ac fe gyflawnodd hynny drwy gerdded o Dal-y-bont, Conwy, i Lanrwst. Llwyddodd Rachel i gyplysu y daith gerdded gydag achos da trwy gael noddwyr i godi arian i'r Gymdeithas Asthma Genedlaethol.

Dymunwn yn dda iddi. Byddai llwyddiant yn anrheg Nadolig rhyfeddol.

NOFIO

Profodd Tachwedd yn fis llwyddiannus iawn i Elin Dafydd o Lanrug yn y pwll nofio. Yn ystod ail benwythnos y mis cynrychiolodd dîm ysgolion Eryri ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yn Nhreffynnon, ac fe enillodd y ras 200m medli unigol, hynny yw nofio dau hyd o'r pwll gyda phob un o'r bedair strôc gydnabyddedig – pili-pala, cefn, broga a rhydd. Gorfennodd yn bumed hef yn y ras 100m ar y cefn.

Ar benwythnos olaf y mis fe deithiodd i Abertawe i gystadlu ym Mhencampwriaeth Cwrs Byr Cymru (cystadleuaeth mewn pwll 25 metr o hyd fel pyllau nofio Caernarfon neu Bangor yw 'cwrs byr' tra fo 'cwrs hir' mewn pwll 50m o hyd, fel yr Empire Pool, Caerdydd). Yn Abertawe nofiodd Elin mewn naw cystadleuaeth ac fe orffennodd mewn wyth ras derfynol. Enillodd y fedal aur a'r teitl 'Pencampwraig Cymru' yn y ras broga 100m; enillodd ddwy fedal arian – 200m medli unigol, a 200m broga – a medal efydd yn y ras 200m ar y cefn.

Elin – Pencampwraig Cymru.

NADOLIG LLAWEN I BAWB SY'N YMWNEUD Â'R CAMPAU YM MRO'R ECO

a

BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DIMAU'R FRO